



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG46325

ISBN: 978-1-80535-097-2

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymateb

Dadansoddiad o Ymgynghoriad Strategaeth Arloesi i Gymru

Adroddiad Terfynol

Tachwedd 2022

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y strategaeth arloesi ddrafft i Gymru.

Gweithredu Gofynnol

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Mwy o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English. Please click here to access the report in English.

Mae fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

Manylion cyswllt

Am fwy o wybodaeth:

Strategaeth Arloesi i Gymru
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: strategaetharloesi@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Caiff y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennaeth ymgynghori eu cyhoeddi mewn ffurf electronig yn unig ac nid ydynt ar gael ond ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen at ddogfennaeth yr ymgynghoriad: https://llyw.cymru/strategaeth-arloesi-i-gymru?_ga=2.15496054.1158529261.1669884669-1858760437.1656930121&_gl=1*113pz8w*_ga*MTg1ODc2MDQzNy4xNjU2OTMwMTIx*_ga_L1471V4N02*MTY2OTg4NDY2OC41MS4xLjE2Njk4ODQ2ODMuMC4wLjA.

Tabl cynnwys

Crynodeb	7
1. Trosolwg o Ymatebion i'r Ymgynghoriad	12
Dull dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad	14
2. Adran 1 – Nodau'r Strategaeth Arloesi (C2-4)	15
Cwestiwn 2	15
Cwestiwn 3	23
Cwestiwn 4	30
3. Adran 2 – Sylwadau ar y Strategaeth ddrafft	41
Cwestiwn 5	41
Cwestiwn 6	49
Cwestiwn 7	55
Cwestiwn 8	60
Cwestiwn 24	61
Cwestiwn 25	64
4. Adran 3 – Cydnawsedd â blaenoriaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.....	68
Cwestiwn 10	69
Cwestiwn 11	72
Cwestiwn 12	75
Cwestiwn 13	78
Cwestiwn 18	81
Cwestiwn 19	83
Cwestiwn 20	86
Cwestiwn 21	90
5. Adran 4 – Cydraddoldeb a Chodi'r Gwastad	93
Cwestiwn 14	93
Cwestiwn 15	96
Cwestiwn 16	98
Cwestiwn 17	99
6. Adran 5 – Barn ar Arloesi	103
Cwestiwn 22	103
Cwestiwn 9	109
Cwestiwn 23	110
7. Adran 6 – Y Gymraeg	113
Cwestiwn 35	113

Cwestiwn 36	115
8. Adran 7 – Sylwadau Terfynol.....	118
Cwestiwn 37	118
9. Adran 8 – Camau Nesaf	120
Atodiad A: cipolygon demograffig o'r ymatebion i'r ymgynghoriad	121
Atodiad B: Cwestiynau'r Ymgynghoriad.....	128

Rhestr tablau

Tabl 1.1 Crynodeb o ymatebion mathau o randdeiliaid i'r ymgynghoriad.....12

Geirfa

Talfyriad / Gair allweddol	Diffiniad / Cyfieithiad
CBC	Cyd-bwyllgor Corfforaethol
TGCh	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
ERDF	Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Cryfder mewn Lleoedd	Strength in Places (cronfa gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig)
Ffyniant Cyffredin	Shared Prosperity (cronfa gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig)
RD&I	Ymchwil, Datblygu ac Arloesi
SME	Busnesau Bach a Chanolig
CCAUC	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
CTER	Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
TRL	Lefel Parodrwydd Technoleg

Crynodeb

- i. Comisiynwyd Miller Research gan Lywodraeth Cymru i gyflawni'r dadansoddiad ar gyfer yr ymgynghoriad ar Strategaeth Arloesi newydd ac integredig i Gymru.
- ii. Aeth yr ymgynghoriad ar gynnig y Strategaeth Arloesi i Gymru yn fyw ar 20 Gorffennaf 2022. Roedd yr ymgynghoriad yn holi barn ar ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth newydd i Gymru ac iddi'r nod o feithrin diwylliant arloesi bywiog mewn Cymru gryfach, decach a gwyrddach. Roedd yr ymgynghoriad yn holi barn ymatebwyr ar yr hyn y credant sydd angen iddo ddigwydd er mwyn i fwy o bobl yng Nghymru arloesi, ac er mwyn i fwy o bobl yng Nghymru elwa o arloesi.
- iii. Yn benodol, gofynnodd yr ymgynghoriad i ymatebwyr roi sylwadau ar Nodau'r Strategaeth Arloesi, cydnawsedd y strategaethau â blaenoriaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yr effeithiau y byddai'r Strategaeth Arloesi yn eu cael ar y Gymraeg, a'r cyfleoedd mae arloesi'n eu cynnig i gyflawni Cymru fwy cyfartal.
- iv. Yn ogystal, ac ar wahân, gofynnodd yr ymgynghoriad i ymatebwyr ddarparu data demograffig i ddibenion mesurau cydraddoldeb.
- v. Caeodd yr ymgynghoriad ar 30 Medi 2022. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau terfynol ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Y sefyllfa ar 30 Medi oedd bod 153 o ymatebion unigryw wedi cael eu cyflwyno i'r ymgynghoriad. Cafodd ymatebion i'r ymgynghoriad eu dadansoddi'n annibynnol a'u crynhoi i ffurfio sail yr adroddiad hwn.

Isod mae'r themâu a amlygwyd yn gyson o fewn yr ymatebion

Themâu Allweddol

- Technoleg ddigidol
- Seilwaith trafnidiaeth
- Cyfleoedd arloesi cyfartal o fewn Cymru
- Cynnwys busnesau bach a chanolig ac entrepreneuriaid
- Datblygu gweithlu medrus

vi. Adran 1: Nodau'r Strategaeth Arloesi (C2-4)

Canfyddiadau allweddol:

- Awydd gweld twf cyson sy'n gymharol â gwledydd tebyg ar lefel yr Undeb Ewropeaidd
- Cyfleoedd hyfforddi penodol i sectorau sy'n annog arloesi
- Adnabod problemau amgylcheddol yn lleol a mynd i'r afael â hwy
- Darpariaethau cyllido sy'n annog cyfleoedd arloesi
- Buddsoddi mewn economi gynaliadwy sydd wedi ei hadeiladu ar y dechnoleg ddiweddaraf
- Tystiolaeth o gynhyrchion a gwasanaethau newydd ar draws diwydiannau
- Rhaglen barhaus lle gellir trosi sgiliau yn gyfleoedd dysgu gydol oes
- Ychwanegu gweithlu medrus iawn a hyblyg sy'n gallu cyflawni'r cynhyrchion, gwasanaethau, a thechnolegau angenrheidiol ar gyfer economi Cymru yn y dyfodol
- Cynnydd mewn busnesau bach a chanolig a busnesau newydd sydd wedi elwa o weithredu'r Strategaeth Arloesi

vii. Adran 2: Sylwadau ar y Strategaeth Ddrafft

Canfyddiadau allweddol:

- Gall Cymru ennill cydnabyddiaeth fyd-eang fel arweinydd mewn arloesi, datgarboneiddio, a thechnolegau adnewyddadwy
- Bydd y strategaeth yn gymorth wrth ysgogi twf economaidd, ac yn rhoi cyfleoedd i bobl sy'n byw yng Nghymru trwy ddulliau cydweithredol o arloesi
- Dylai Cymru roi pwyslais allweddol ar dechnoleg glyfar a synwryddion, gofal iechyd, ac addysg uwch
- Mae Cymru mewn sefyllfa dda i weithredu dull arloesi sy'n seiliedig ar le
- Busnesau gwyrddach a mwy effeithlon o ran ynni

viii. Adran 3: Cydnawsedd â blaenoriaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Canfyddiadau allweddol:

- Sicrhau bod cyfleoedd arloesi yn cael eu cynnig ym mhob rhan o Gymru
- Pryderon teithio a hygyrchedd mewn rhai rhannau o Gymru yn sgil seilwaith wael
- Pwyslais ar gyrchu partneriaethau a chyfleoedd amgen gyda gwledydd a busnesau ledled y byd
- Pryder ynghylch goblygiadau gwleidyddol y strategaeth arfaethedig yn y dyfodol
- Cefnogaeth i ddull wedi ei deilwra, seiliedig ar le
- Hyrwyddo cysylltedd digidol ac wyneb yn wyneb
- Gwerthfawrogi pwyslais ar gydweithio, gyda galwadau am gydgyhnhyrchu pellach
- Egluro canlyniadau ac amcanion penodol a ddeisyfir
- Ystyried modd o gymell busnesau a sefydliadau i newid o ddull busnes-fel-arfer

- Mwy ar wybodaeth am sgiliau a gyrfaeodd ar gyfer swyddi gwyrdd a chapasiti iechyd/gofal cymdeithasol
- Dylid archwilio cyfleoedd i arloesi mewn caffael

ix. Adran 4 – Cydraddoldeb a Chodi'r Gwastad

Canfyddiadau allweddol:

- Pryderon fod y strategaeth yn drefol ac yn canolbwyntio ar dde Cymru
- Mae ar ymatebwyr eisiau gweld mwy o grwpiau a dangynrychiolir yn cael eu cynnwys, gan gynnwys (ond nid yn unig) pobl LGBTQ+, pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, pobl hŷn, a phobl anabl
- Mae angen mynediad cyfartal i bawb gymryd rhan mewn cyfleoedd arloesi ac elwa ohonynt
- Ystyried amrywiaeth rhanbarthol Cymru wrth ddatblygu'r strategaeth
- Sicrhau cyfathrebu cyson a rheolaidd gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a chyrrff eraill y Deyrnas Unedig.

x. Adran 5 – Barn ar Arloesi

Canfyddiadau allweddol:

- Diwylliant o arloesi yw un lle gall syniadau ffynnu, a lle gellir eu profi, a'u gwella
- Er mwyn datblygu diwylliant arloesi mae angen am arweiniad cefnogol
- Mae rhwystrau rhag arloesi yng Nghymru yn cynnwys ffactorau demograffig, costau, a sgiliau
- Teimla'r mwyafrif o ymatebwyr nad ydynt yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn arloesi yn sgil cyfleoedd cyfyngedig
- Mae angen mwy o gydweithio rhwng yr 'helix-triphlyg'
- Sefydlu a hyrwyddo canolfannau arloesi hygyrch ar lefel y gymuned ac annog dulliau newydd.

xi. Adran 6 – Y Gymraeg

Canfyddiadau allweddol:

- Hyrwyddo'r Gymraeg trwy ddatblygiad technolegol a meddalwedd
- Buddsoddi mewn cwmnïau cynhenid Cymraeg i ddatblygu meddalwedd iaith
- Mae angen i'r Gymraeg gael ei gwreiddio'n fwy drwy'r holl strategaeth
- Mae lle'r Gymraeg yn y Strategaeth Arloesi yn cydredeg i raddau helaeth â'r angen i ddatblygu meddalwedd iaith hygrych, fforddiadwy, a mynd i'r afael ag allgáu digidol.

xii. Adran 7– Sylwadau terfynol

Canfyddiadau allweddol:

- Cymorth ariannol i bobl anabl
- Angen mwy o gefnogaeth i geiswyr swyddi
- Gwneud yr arolwg yn haws i'r rheini sydd ag anawsterau dysgu
- Crynodeb o eirfa termau
- Cynnwys ystyriaethau gofal cymdeithasol

1. Trosolwg o Ymatebion i'r Ymgynghoriad

- 1.1 Cyflwynwyd cyfanswm o 153 o ymatebion unigryw i'r ymgynghoriad a 2 ymateb a oedd yn ddyblygiadau. Cafodd 53 o'r ymatebion hyn eu cyflwyno trwy e-bost, ac roedd 99 o'r ymatebion yn rhai a gyflwynwyd trwy lwyfan ar-lein yr arolwg. Derbyniwyd un ymateb copi caled i'r ymgynghoriad hwn. Roedd 17 o'r ymatebion hyn nad oeddent yn ymateb yn uniongyrchol i gwestiynau'r ymgynghoriad.
- 1.2 Yn ogystal â'r ymatebion a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad, mae'r dadansoddiad yn yr adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiadau o'r adroddiadau gan Rwydwaith Cydgynhyrchu Cymru, adborth o un digwyddiad ar-lein, digwyddiadau wyneb yn wyneb a gynhaliwyd yn Abertawe, Aberystwyth, Môn, a Chaerdydd, a sylwadau gan y grŵp rhanddeiliaid allanol.
- 1.3 Amlinellir dadanoddiad o'r nifer o ymatebion a dderbyniwyd gan y grŵp rhanddeiliaid yn Nhabl 1.1.

Tabl 1.1 Crynodeb o ymatebion y mathau o randdeiliaid i'r ymgynghoriad

Math o randdeiliad	Nifer ymatebion
Cymysg	2
Arall	7
Dinesydd	9
Trydydd sector	11
Sefydliadau Ymchwil / Sefydliadau Academaidd	21
Sector Preifat	25
Sector Cyhoeddus	46
Nis datgelwyd	32

Tabl 1.2: Allwedd i'r gwahanol fathau o randdeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad

Allwedd i'r rhanddeiliaid	
Cymysg	Ymatebwyr sydd wedi nodi eu bod yn adnabod eu hunain fel rhanddeiliaid cymysg
Dinesydd	Ymatebwyr yn ymateb i'r ymgynghoriad fel unigolyn
Trydydd Sector	Mae'r trydydd sector yn cynnwys grwpiau cymunedol, sefydliadau gwirfoddol, elusennau, mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, cwmnïau buddiannau cymunedol, a chymdeithasau tai
Sefydliad Ymchwil	Cyrff cyfreithiol sy'n ymwneud ag ymchwil gwyddonol ac sy'n darparu gwasanaethau addysgol
Sefydliad Academaidd	Sefydliadau addysg megis prifysgolion sy'n cynnig addysg academaidd ôl-uwchradd
Sector Preifat	Busnesau sydd er elw ac nad ydynt yn eiddo i'r Llywodraeth nac yn cael eu gweithredu ganddi
Sector Cyhoeddus	Busnesau sy'n eiddo i'r cyhoedd ac sy'n cael eu rhedeg ar eu rhan
Arall	Ymatebwyr sy'n adnabod eu hunain fel math gwahanol o randdeiliad

- 1.4 Mae gwybodaeth bellach ynghylch demograffeg yr ymatebwyr i'w gael yn Atodiad A.

Dull dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad

- xiii. Cafodd yr holl ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd a oedd yn cyfateb yn uniongyrchol â chwestiynau'r ymgynghoriad eu casglu at ei gilydd mewn cronfa ddata ganolog. Cafodd pob un ei adolygu yn ôl y cwestiwn perthnasol er mwyn dangos y brif farn a barn amgen a fynegwyd.
- xiv. Oherwydd yr amrywiaeth hynod helaeth o'r farn a'r pwyntiau a wnaed, y dull oedd cyfleu themâu lle bo'n bosibl a chynnwys amrywiaeth o farnau o fewn y rhain.
- xv. Lle bo'n bosibl, mae ymatebion wedi cael eu gwahanu yn ôl math o randdeiliad. Fodd bynnag, yn sgil y swm o ymatebion rhanddeiliaid na chafodd eu datgelu, mae ymatebion wedi cael eu grwpio yn ôl thema neu gytundeb.
- xvi. Mae ymatebion cyffredinol nad oedd yn cyfeirio'n uniongyrchol at gwestiynau'r ymgynghoriad wedi cael eu dadansoddi a'u priodoli i'r cwestiwn perthnasol, lle bo'n addas. Roedd hyn yn anochel yn golygu llunio rhai casgliadau o'r cynnwys, ac roedd hefyd yn gofyn am rai tybiaethau ar ran yr awduron ynghylch y cwestiwn yr ymdrinir ag ef.
- xvii. Mae'r adrannau canlynol o'r adroddiad yn cyflwyno'r ymatebion i bob cwestiwn o'r ymgynghoriad yn ôl thema allweddol a sector, ac yn eu priodoli i fath o randdeiliaid lle bo'n bosibl.

2. Adran 1 – Nodau'r Strategaeth Arloesi (C2-4)

Canfyddiadau allweddol:

- Awydd gweld twf cyson sy'n gymharol â gwledydd tebyg ar lefel yr Undeb Ewropeaidd
- Cyfleoedd hyfforddi penodol i sectorau sy'n annog arloesi
- Adnabod problemau amgylcheddol yn lleol a mynd i'r afael â hwy
- Darpariaethau cyllido sy'n annog cyfleoedd arloesi
- Buddsoddi mewn economi gynaliadwy sydd wedi ei hadeiladu ar y dechnoleg ddiweddaraf
- Tystiolaeth o gynhyrchion a gwasanaethau newydd ar draws diwydiannau
- Rhaglen barhaus lle gellir trosi sgiliau yn gyfleoedd dysgu gydol oes
- Ychwanegu gweithlu medrus iawn a hyblyg sy'n gallu cyflawni'r cynhyrchion, gwasanaethau, a thechnolegau angenrheidiol ar gyfer economi Cymru yn y dyfodol
- Cynnydd mewn busnesau bach a chanolig a busnesau newydd sydd wedi elwa o weithredu'r Strategaeth Arloesi

Cwestiwn 2

Beth fydddech chi'n hoffi i'r Strategaeth Arloesi ei gyflawni yn y tymor byr (blwyddyn) o ran: twf economaidd, datblygu sgiliau, tegwch cymdeithasol, hinsawdd a'r amgylchedd

- 2.1 Mae'r bennod hon yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 2 yn y ddogfen ymgynghori: *'Beth fydddech chi'n hoffi i'r Strategaeth Arloesi ei gyflawni yn y tymor byr (blwyddyn) o ran: twf economaidd, datblygu sgiliau, tegwch cymdeithasol, hinsawdd a'r amgylchedd.'* Caiff y cwestiwn ei rannu'n bedair adran yn trafod y penawdau canlynol: cyfleoedd am dwf economaidd, datblygu sgiliau, ymdrin â mesurau tegwch cymdeithasol, a ffactorau hinsawdd a'r amgylchedd o fewn Cymru.

Twf Economaidd

- 2.2 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn mynegi eu hawydd i'r Strategaeth Arloesi arwain at dwf "sy'n rhagori ar y graddau presennol" ac sydd ar raddfa debyg i wledydd tebyg ar lefel Prydain a'r Undeb Ewropeaidd. I gyflawni hyn, roedd ymatebwyr yn argymhell buddsoddi mewn busnesau a diwydiannau sy'n canolbwyntio ar dyfu seilwaith digidol a gwyrdd er mwyn creu ecosystem wirioneddol arloesol. Gallai hyn fod y sylfaen ar gyfer uwchsgilio a gwella amodau cymdeithasol, hyfforddiant, a chyfleoedd gwaith i'r genhedlaeth iau, ac i genedlaethau hŷn sy'n dymuno cychwyn busnes.
- 2.3 Roedd un ymatebydd o'r sector preifat yn pwysleisio'r angen i ddeall yn llawn y rhwystrau rhag arloesi a masnacheiddio yng Nghymru, o safbwynt sgiliau, cyllid ac arbenigedd. Wedyn, dyfeisio map trywydd ar gyfer gweithredu, gydag enillion cyflym a nodau mwy hirdymor, o bosibl gyda phwyslais ar sectorau allweddol (megis lled-ddargludyddion cyfansawdd), y sector creadigol, a data.
- 2.4 Teimlai un arall mai un ymateb tymor byr posibl fyddai annog mabwysiadu technolegau sy'n bod eisoes er mwyn hybu arloesi a chynhyrchiant, gan fynd ati yn fwy hirdymor i gefnogi technolegau sy'n cynyddu effeithlonrwydd ynni, lleihau gwastraff, a chymell ailgylchu, pecynnu cynaliadwy, a'r economi gylchol. Fodd bynnag, teimlai un grŵp busnes fod anawsterau'r costau gweithredu mae cyflogwyr yn eu hwynebu ar hyn o bryd wedi disodli'r pwyslais ar arloesi. Dywedwyd bod y chwyddiant presennol ar fewnbynau diwydiannol yn rhedeg ar fwy na 20 y cant, dywedwyd bod hyder busnesau yn isel, a'r teimlad oedd nad oedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y ddogfen ymgynghori.
- 2.5 Roedd yr angen am gydweithio ar draws sectorau yn neges allweddol gan lawer o ymatebwyr. Roedd amryw yn nodi'r diffyg cyfathrebu a chydweithio rhwng y sectorau preifat a chyhoeddus yng Nghymru ac yn teimlo y gallai strategaeth arloesi a fyddai'n hwyluso hyn arwain at arbedion ariannol ac effeithlonrwydd yn y sector cyhoeddus.

- 2.6 Roedd cefnogaeth i gystadlaethau SBRI yng Nghymru, gyda galwad i'w hymestyn i alluogi awdurdodau lleol i reoli cystadlaethau lluosog. Roedd rhai ymatebwyr yn galw am fwy o gysondeb rhwng mentrau Llywodraeth Prydain a Llywodraeth Cymu er mwyn cael hynny â phosibl o effaith ar arloeswyr Cymru. Mae cyfraddau ymgeisio am gyllid Innovate UK, er enghraifft, yn parhau i fod yn isel yng Nghymru.
- 2.7 Yn ogystal â seilwaith ddigidol, roedd un ymatebydd yn galw am bolisi trafndiaeth i ganolbwyntio ar alluogi datblygu busnesau a symudedd cymdeithasol. Roedd ymatebwyr yn nodi'r angen hefyd am sefydlogrwydd o fewn y tirwedd cyllido arloesi, a phwysigrwydd datblygu mecanweithiau i hwyluo cyllido ar draws sectorau a chydweithio ar fesurau arloesi. Roedd ymatebydd o'r sector cyhoeddus yn glir ei farn fod angen seilwaith i reoli arloesi, megis arweiniad ar gyfeiriad masnachol, fframweithiau ar gyfer arloesi a allai gefnogi rheoli a rhannu caffael gwybodaeth, a chymorth at fanteisio ar asedau, a rhannu risgiau a gwobrau. Gallai polisi caffael gwybodaeth i Gymru gyfan gwmpasu mynediad i arbenigedd caffael gwybodaeth prifysgolion fel rhan o "gomin arloesi".
- 2.8 Roedd ymatebwyr o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yn bryderus ynghylch adferiad o'r Covid-19 a chydnerthedd cymunedol yn wyneb chwyddiant a chostau uchel ynni.
- 2.9 Roedd un ymatebydd o'r sector cyhoeddus yn pwysleisio pwysigrwydd mapio meysydd allweddol arloesi a rhanddeiliaid megis cwmnïau arloesol, yn ôl lleoliad ac wedyn hyrwyddo a chefnogi arloesi ymysg busnesau newydd, yr hunan-gyflogedig a busnesau bach a chanolig.
- 2.10 Teimlai un arall y gallai'r strategaeth helpu rhoi Cymru mewn sefyllfa i arwain y byd wrth ddatblygu economi adfywio, ar sail egwyddorion datblygu cynaliadwy, rheoli adnoddau naturiol ac adfer ecolegol.
- 2.11 Roedd yr economi wledig yn cael ei gweld fel rhywbeth pwysig, yn gofyn am weithredu i hyrwyddo cynhwysiant (gan gynnwys cynhwysiant digidol), lleihau carbon ac economi gylchol i greu

economi werdd lewyrchus. Roedd teimlad hefyd fod cwmpas am fwy o gymorth i arloesi gwledig – megis gwytnwch cynydau, addasu i newid hinsawdd ac amaethyddiaeth cyfeillgar â'r amgylchedd, ynghyd â dibenion newydd i gynhyrchion traddodiadol megis gwlan.

- 2.12 Teimlai ymatebydd o'r trydydd sector yn gryf mai model mentro cymdeithasol ddylai fod y dewis model busnes i Gymru, gan gyfeirio at y ffordd mae hyn yn galluogi cadw mwy o gyfoeth. Dylid blaenoriaethu'r sector hwn, gyda chymhellion addas ac effeithiol yn cael eu creu i sicrhau annog buddsoddi mewn arloesi gan bartneriaid. Un enghraifft o hyn fyddai labordy arloesi'r sector gwirfoddol i ddatblygu sgiliau a rhoi lle i gydweithio ar arloesi.

Datblygu Sgiliau

- 2.13 Roedd amryw o ymatebwyr yn tynnu sylw at brinder sgiliau a llafur yn y gweithlu, a oedd yn effeithio ar enillion mewn cynhyrchiant. Roedd neges gref fod arloesi yn gofyn am well cefnogaeth i sgiliau a hyfforddiant. Roedd ymatebwyr yn pwysleisio'r angen am adolygiad sgiliau i sefydlu llinell sylfaen o lle mae'r bylchau mewn sgiliau ar hyn o bryd, a pha sgiliau fydd eu hangen yn y dyfodol trwy adroddiadau tueddiadau yn y dyfodol, er enghraifft. Gwnaed y pwynt fod angen deall arwyddion o alw gan gyflogwyr ac ymateb iddynt yn gyflym, er mwyn bwydo diwydiannau twf.

- 2.14 Roedd ymatebwyr yn nodi y dylai fod adolygiad o brinder sgiliau mewn diwydiannau megis:

- Gwyddorau Bywyd ac Iechyd
- Carbon isel
- Ynni a'r Amgylchedd
- Uwch Beirianeg a Deunyddiau
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) a'r Economi Ddigidol

- 2.15 Roedd ymatebwyr o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yn pwysleisio'r angen i barhau i adeiladu ar waith a gyllidwyd gan Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (ESF/ERDF) a Horizon 2020, a'r pwysigrwydd o barhau i ddatblygu sgiliau a seilweithiau arloesi yng Nghymru. Awgrymwyd bod angen fframwaith ystyrlon i alluogi dull systemig o gysylltu cyllid ymchwil, datblygu ac arloesi, datblygu sgiliau, cyflogaeth gynaliadwy, a Chymru Sero Net. Dywedwyd bod y rôl a chwaraeid gan WEFO (a'r angen am gyllido corff i'w olynu) yn hanfodol, er mwyn darparu cyllid seiliedig ar sector ar gyfer prosiectau arloesi.
- 2.16 Roedd un ymatebydd o'r sector preifat yn galw am ymyraethau cyflym wedi eu targedu ar gyfer sgiliau i'r sectorau blaenoriaeth twf. Dylai'r rhain gynnwys sgiliau intrapreuraidd ac adeiladu capasiti er mwyn datblygu twf arloesi. Cafodd y sector bwyd a diod ei grybwyll fel un sydd â'r potensial i gefnogi mabwysiadu technolegau awtomatiaeth a digidol i gynyddu cynhyrchiant a chyflawni twf.
- 2.17 Roedd ymatebwyr o'r sector cyhoeddus yn pwysleisio bod prinder gweithwyr medrus ar hyn o bryd mewn meysydd Digidol, Data, a Thechnoleg, gyda'r prinder hwn yn cael ei weld yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Mewn rhai achosion, dywedwyd bod busnesau wedi buddsoddi mewn technoleg newydd, ond eu bod wedyn yn brin o'r staff medrus i fanteisio i'r eithaf arno er mwyn sicrhau'r buddion posibl yn llawn. Roedd sectorau eraill a oedd yn profi bylchau mewn sgiliau yn cynnwys gofal cymdeithasol, lletygarwch, ac adeiladu.
- 2.18 Roedd un ymatebydd o'r sector cyhoeddus yn awgrymu y gellid defnyddio sefydliadau addysg a chyfleusterau ymchwil a datblygu i hyfforddi'r gweithlu presennol mewn meysydd newydd o dechnoleg, gan gydweithio gydag addysg uwch ac addysg bellach i greu prentisiaethau a rhedeg gweithgareddau allgymorth mewn ysgolion i ysbrydoli pobl iau a chreu dilyniant o sgiliau ar gyfer y dyfodol. Cyfeiriwyd at Gyflymydd Cenedl Ddata Cymru fel ased y gellid ei weithredu i ddarparu capasiti ac arweiniad ar gyfer trawsnewid digidol

ar raddfa fawr i Gymru, gan gynnwys cymorth i ddatblygu'r agenda sgiliau.

- 2.19 Roedd ymatebydd arall yn amlygu'r angen i ymwreiddio arloesi fel ymddygiad yn y gweithlu cyfan, ynghyd â'r cyfle i alluogi datblygu arloesi ar bob lefel.
- 2.20 Roedd llawer o ymatebwyr yn mynegi pryder ynghylch y posibilrwydd o bobl ifanc yn gadael Cymru, a Chymru'n colli sgiliau a phobl. Roedd ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd darparu cyflogaeth cynaliadwy a gwerthfawr sy'n rhoi pwrpas a balchder i bobl, a'r awydd i greu gwerth i'w cymunedau eu hunain. Fodd bynnag, er mwyn cynyddu sgiliau a denu'r ymgeiswyr gorau i rolau yng Nghymru, roedd ymatebwyr yn nodi bod yn rhaid i'r llywodraeth fynd i'r afael â'r problemau ynghylch cyflogau. Roedd ymatebwyr yn pwysleisio bod llawer o weithwyr medrus yng Nghymru yn gadael y wlad a gweithio mewn lleoedd eraill oherwydd tâl annigonol. Roedd un ymatebydd o'r sector cyhoeddus yn nodi bod y cyflogau isel a oedd yn cael eu cynnig yn ei gwneud yn fwy anodd i weithwyr posibl aros yng Nghymru a magu eu teuluoedd. Heb bobl fedrus yn y rolau hyn, dywedodd yr ymatebydd y bydd yn fwy anodd i Gymru ddenu busnesau mawr sy'n dibynnu ar weithwyr medrus.
- 2.21 Cafodd yr angen am fwy o brentisiaethau yng Nghymru ei godi gan ymatebwyr unigol, gan y byddai'r rhain yn annog pobl ifanc i aros gerllaw y cymunedau lle mae eu cartrefi.

Tegwch Cymdeithasol

- 2.22 Roedd ymatebwyr o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yn pwysleisio pwysigrwydd mynd i'r afael â gwahaniaethau cyfoeth yng Nghymru a chyd-drafod â'r rhai oedd fwyaf difreintiedig er mwyn penderfynu ar flaenoriaethau. Roedd ymatebwyr o'r sector preifat yn dweud bod y gwahaniaethau mewn cyfoeth yn dod yn fwyfwy cyffredin o safbwynt byd-eang, cenedlaethol, rhanbarthol, a lleol. Er mwyn sicrhau bod Cymru'n dal i gael llywodraeth gynhwysol ac

effeithiol, mae'n bwysig deall y meysydd lle mae anghydraddoldeb hysbys, sy'n cynnwys rhywedd, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran ac anabledau cudd. Roedd ymatebwyr yn ymwneud â'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru er mwyn adnabod blaenoriaethau ar gyfer prosiectau cydgynhyrchu ac iddynt y nod o godi'r gwastad yn yr ardaloedd sy'n dioddef fwyaf yng Nghymru. Roedd un ymatebydd yn awgrymu newid pwyslais o Ddinasoedd Clyfar i cymunedau "doeth, cyfoethog ac iach".

- 2.23 Roedd ymatebwyr o'r sector cyhoeddus yn awgrymu cyllid cymunedol ar gyfer arloesi yn yr economi sylfaenol, gan ddangos enghreifftiau o'r arferion gorau. Roedd eraill yn pwysleisio bod ar fwy o fusnesau angen cynnig cyfleoedd profiad gwaith ac addasiadau rhesymol i bobl anabl. Roedd ymatebwyr hefyd yn argymhell adolygu a gwerthuso'r polisiau cymdeithasol presennol o fewn y gwasanaethau addysg, tai, iechyd a gofal iechyd, er mwyn sicrhau eu bod yn unol a chydawns â thargedau presennol y Strategaeth Arloesi. Argymhellwyd y gellir sicrhau cynnydd trwy weithredu dangosyddion perfformiad allweddol i sicrhau bod y prosesau presennol yn gweithredu'n ddigonol.
- 2.24 Y mesydd allweddol y rhoddwyd sylw iddynt yma oedd integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol a gwella'r ffyrdd y gellir cyfeirio a chysylltu pobl yn well â'r gwasanaethau mae arnynt eu hangen. Roedd un ymatebydd awgrymu bod mabwysiadu a gweithredu techolegau arloesol yn gynnar mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnig cyfle i wireddu effaith cyflym a sicrhau enillion. Dangoswyd y gall Cymru ddysgu oddi wrth wledydd eraill yn rhoi blaenoriaeth i arloesi mewn iechyd megis yr Iseldiroedd sy'n dyrannu mwy na 10 y cant o'i gyllideb iechyd i ymchwil, datblygu ac arloesi.
- 2.25 Roedd ymatebydd o'r trydydd sector yn pwysleisio gwerth gwirfoddoli, yn enwedig ymysg pobl hŷn, er mwyn manteisio ar eu profiad a'u sgiliau a chyfrannu at greu cyfoeth. Dywedodd un arall fod pobl sydd ag anabledau dysgu wedi dioddef yn anghymesur trwy'r pandemig Covid-19, gan wynebu mwy o heriau costau byw, a bod angen eu

blaenoriaethu, gan gynnwys ymwneud mewn penderfyniadau ynghylch cymorth arloesi trwy gydgyhyrchu â defnyddwyr terfynol.

Hinsawdd a'r Amgylchedd

- 2.26 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn nodi ei bod yn bwysig ymdrin â materion amgylcheddol ar lefel fwy lleol a rhanbarthol. Roedd un ymatebydd o'r sector preifat yn pwysleisio'r cyfleoedd arloesi sydd ymhlyg wrth gyrraedd y targedau Sero Net 2030 a'r buddion posibl wrth fwy o gydweithredu rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat. Roedd un arall yn pwysleisio pwysigrwydd parhau i flaenoriaeth buddsoddiadau sy'n gysylltiedig â Sero Net. Roedd ymatebwyr o'r sector preifat yn pwysleisio pwysigrwydd cefnogi busnesau newydd a rhai sy'n bod eisoes wrth gyflawni asesiadau a gosod targedau i gyflymu eu pontio at ddatgarboneiddio. Roedd ymatebwyr yn pwysleisio'r angen i gyd-drafod â diwydiant, sefydliadau addysg uwch, a chymell cymunedau i datblygu dull integredig o ymchwilio, arloesi a chynllunio ar gyfer yr economi a'r amgylchedd.
- 2.27 Roedd un ymatebydd o'r sector cyhoeddus yn awgrymu bod angen ar frys i flwyddyn 1 strategaeth arloesi newydd roi'r lle blaenaf i argyfwng deublyg yr hinsawdd a byd natur ym mhob agwedd o feddwl ynghylch arloesi ac wrth ddyrannu adnoddau ar ei gyfer. Dywedodd un arall fod angen mecanweithiau ar frys i ddatblygu ffermydd gwynt ar raddfa fawr ar y môr a bod angen arloesi mewn caniatadau er mwyn galluogi twf yn y sector.
- 2.28 Yn ogystal, mae gan arloesi a newid cymdeithasol ran i'w chwarae wrth fynd i'r afael â heriau rhyng-gysylltiedig yr argyfyngau natur a hinsawdd. Roedd yn arall yn awgrymu y dylai fod yn ofynnol i bob prosiect arloesi peilot a gyllidir gan Lywodraeth Cymru gynnwys asesiadau cylchred oes ar gyfer carbon fel amod. Cafodd rhoi cymhellion treth i fusnesau carbon-negyddol, ac annog dinasyddion i fabwysiadur ffynonellau cynaliadwy o ynni, eu hamlygu hefyd gan ymatebwyr sector cyhoeddus fel meysydd â blaenoriaeth.

- 2.29 Roedd ymatebydd o sefydliad academiaidd yn cyfeirio at ymchwil a datblygu sydd ar y gweill yn y sector ynni ac mewn cefnogi datgarboneiddio diwydiannol trwy dechnegau catalysis a thechnolegau amonia ar gyfer yr economi hydrogen – maes sy'n datblygu'n gyflym, gyda Chaerdydd yn arweinydd cenedlaethol o'i fewn.
- 2.30 Roedd ymatebydd unigol yn pwysleisio'r potensial am fwy o arloesi ynghylch cynhyrchu ynni, yn enwedig mewn perthynas â'r llanw. Roedd hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd trafndiaeth gyhoeddus integredig, carbon isel, a'r angen am fwy o seilwaith trafndiaeth yng ngogledd Cymru.

Cwestiwn 3

Beth fyddech chi'n hoffi i'r Strategaeth Arloesi ei gyflawni yn y tymor canolig (2-5 mlynedd) o ran: twf economaidd, datblygu sgiliau, tegwch cymdeithasol, hinsawdd a'r amgylchedd

- 2.31 Mae'r cwestiwn hwn yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 3 yn y ddogfen ymgynghori: '*Beth fyddech chi'n hoffi i'r Strategaeth Arloesi ei gyflawni yn y tymor canolig (2-5 mlynedd) o ran: twf economaidd, datblygu sgiliau, tegwch cymdeithasol, hinsawdd a'r amgylchedd.*' Fel yr uchod, mae ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi eu rhannu'n bedair adran, yn trafod: cyfleoedd am dwf economaidd, datblygu sgiliau, ymdrin â mesurau tegwch cymdeithasol, a ffactorau hinsawdd a'r amgylchedd o fewn Cymru. Roedd llawer o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ailadrodd y rheini a gyflwynwyd ar gyfer C2. Felly, rydym wedi canolbwyntio ar gynigion ychwanegol yn y dadansoddiad isod.

Twf Economaidd

- 2.32 Roedd cefnogaeth helaeth gan ymatebwyr i strategaeth glir a chynllun gweithredu ar gyfer arloesi yn y tymor canolig, gyda chanlyniadau

mesuradwy yn nhermau twf economaidd, datblygu sgiliau, graddau o gydweithio, cynhwysiant cymdeithasol, effaith ar hinsawdd a swyddi hirdymor wedi eu gwreiddio yn yr ardal leol. Dylai'r canlyniadau olaf hyn gael eu mesur nid yn unig yn nhermau'r nifer o bobl a gyflogir, ond hefyd ansawdd y cyflogaeth ar raddfa gyflogau a fyddai'n dangos bod lefalau sgiliau a chadw yn debygol o fod yn uchel. Dylai'r cynllun amlinellu ffynonellau clir o gyllid a chyfleoedd i gynyddu arloesi, gyda seilwaith i'w gynnal a fframwaith ar gyfer newid diwylliant. Teimlai un ymatebydd y dylai fod cynllun craidd i ddechrau, cyn symud at bwyslais mwy gronynnol ar sectorau a busnesau penodol twf-uchel dros amser.

2.33 Roedd ymatebwyr o'r sector cyhoeddus yn nodi amrywiaeth o fesurau yr hoffent i'r Strategaeth Arloesi eu cyflawni yn y tymor canolig, gyda'r rhain yn cynnwys:

- Darpariaethau cyllid i annog cyfleoedd arloesi newydd wedi eu targedu at fusnesau micro, bach, newydd a hunan-gyflogedig
- Sefydlu labordai arloesi i helpu cefnogi syniadau a chynigion arloesi newydd
- Gweithredu Dulliau Adrodd Effaith a all werthuso llwyddiant dros y tymor canolig
- Modelau newydd o brototeipiau gweithredu gwasanaethau cyhoeddus, i'w hailadrodd, gweithredu, gwerthuso a'u gwella.

2.34 Yn dilyn diwedd cyllid yr Undeb Ewropeaidd, nodwyd angen gan ymatebwyr i gysylltu â strategaethau a mecanweithiau cymorth rhanbarthol a'r Deyrnas Unedig, megis y Bargeinion Dinesig, Codi'r Gwastad a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, yn ogystal â ffrydiau cyllid domestig Llywodraeth Cymru sydd ar gael. Mae ceisiadau llwyddiannus yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Media.Cymru (sector creadigol) a CSConnected (lled-ddargludyddion) fel enghreifftiau o'r hyn y gellir ei gyflawni ar raddfa fawr ar gyfer ffyniant. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys Caerdydd yn cael ei gydnabod gan Innovate UK fel un o bum canolfan ragoriaeth y Deyrnas Unedig am feddygaeth fanwl.

- 2.35 Roedd ymatebwyr o'r sector preifat unwaith eto'n awyddus i weld mwy o gydweithio rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat i alluogi dull mwy hyblyg o ymdrin â phroblemau cymdeithasol allweddol. Roedd un hefyd yn cydnabod cyfraniad y sector prifysgolion yng Nghymru, gan awgrymu y gallai Llywodraeth Cymru gydweithio â Rhwydwaith Arloesi Cymru i greu naratif a hunaniaeth gref i ymchwil prifysgolion Cymru.
- 2.36 Teimlai ymatebydd o'r diwydiant awyrofod y dylai arloesi ganolbwyntio ar "atyniad" diwydiant i drosi ymchwil yn arloesi a masnachu dilynol gan y sector preifat. Roedd canolfannau technoleg prifysgolion a chanolfannau catapwlt diwydiant yn cael eu gweld fel mecanweithiau da ar gyfer gwneud hyn. Pwysleisiwyd hefyd ddimensiwn rhyngwladol ymchwil a chydweithio a bod angen adnabod cadwyni cyflenwi y tu hwnt i'r Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit.
- 2.37 Roedd galwad i ddefnyddio meysydd cymhwysedd datganoledig megis safonau amgylcheddau, neu safonau cynhyrchion, polisi trafnidiaeth a pholisi amgylcheddol i ysgogi arloesi.
- 2.38 Roedd ar un ymatebydd o'r sector iechyd eisiau gweld llwybr arloesi i gynnig dull cylch oes o ddatblygu a gweithredu arloesi mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Ei nod oedd sefydlu swyddogaeth sganio'r gorwel i arwain y llwybr, ond teimlai fod angen adnabod cyfleoedd newydd am gyllid a dulliau o fasnacheiddio, prosesau symlach ar gyfer cyllido arloesi, a chymhellion ar gyfer mabwysiadu prosesau a thechnoleg arloesol, seiliedig ar dystiolaeth. Roedd un arall yn cytuno â'r angen am gydweithio helaeth, ar draws sectorau i ysgogi arloesi, ond yn pwysleisio bod yn rhaid i arloesi fod yn rhywbeth sy'n gwirioneddol weddnewid ac yn ymgorffori mabwysiadu technoleg er mwyn cyflawni buddion i gleifion.
- 2.39 Roedd galwad hefyd i ddigideiddio'r gadwyn gyflenwi bwyd a diod yn y tymor canolig i adeiladu cynaliadwyedd a chynhyrchiant hirdymor.
- 2.40 Fe wnaeth un ymatebydd o'r trydydd sector nodi sectorau targed ar gyfer cymorth arloesi, megis ynni adnewyddadwy cymunedol ac o'r

môr, hydrogen gwyrdd, a thechnoleg amaethyddol. Yn ogystal, mae cyfleoedd helaeth ar gyfer ôl-osod mewn cartrefi, gan gyflwyno pypmiau gwres a chyllid gwyrdd i beri iddynt ddigwydd.

Datblygu Sgiliau

- 2.41 Roedd cefnogaeth i gynllun gweithredu clir, wedi'i dargedu, ar gyfer arloesi, a fyddai'n dod â phrifysgolion, colegau, ysgolion a darparwyr hyfforddiant at ei gilydd gyda diwydiant a'r sector cyhoeddus i sefydlu maes llafur arloesi a gefnogir gan ystod o gyrsiau ar bob lefel. Cafodd rôl y Comsiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ei chydabod fel un fwyfwy pwysig wrth gyflawni amcanion y strategaeth. Roedd un ymatebydd yn galw am gynllun sgiliau i ddangos y lleihad mewn swyddi tanwydd ffosil a lle bydd angen swyddi/sgiliau newydd ee pweru pontio teg. Roedd un arall yn awgrymu fframwaith sgiliau traws-sector ar gyfer arloesi er mwyn adnabod anghenion dysgu a chyfleoedd i arloesi. Cafodd dysgu pynciau STEM a'r sector creadigol ei grybwyll fel elfen holl-bwysig i fanteisio ar gyfleoedd mewn arloesi digidol, creadigol a thechnolegol.
- 2.42 Roedd ymatebwyr o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yn amlygu'r angen am gyfleoedd hyfforddi unswydd a phenodol i sector, wedi eu gweinyddu gan golegau a phrifysgolion lleol, sy'n annog arloesi. Roedd ymatebwyr yn pwysleisio y dylai'r cyfleoedd hyfforddi hyn fod o fewn y sectorau Uwch Beirianeg a Deunyddiau, TGCh a'r Economi Ddigidol. Yn ogystal, mae angen am grantiau sgiliau penodol i fusnesau mewn Gwyddorau Bywyd ac Iechyd, Carbon isel, a'r diwydiant Ynni a'r Amgylchedd. Roedd ar un ymatebydd eisiau gweld datblygu academiâu sgiliau Sero Net ledled Cymru, gyda thargedau ar gyfer hyfforddi arbenigwyr ôl-osod a pheirianwyr gwresogi carbon isel.
- 2.43 Roedd un ymatebydd yn pwysleisio'r angen am newid wrth gyflwyno prentisiaethau ac addysg technegol er mwyn ei wneud yn fwy hyblyg ac ystwyth, yn troi o gwmpas cyflogwyr, ac yn ddatganoledig. Roedd

un cyflogwr yn mynegi rhwystredigaeth ar y cysylltiadau gwael rhwng diwydiant ac ysgolion a'r anhawster wrth gynnig lleoliadau, ymweliadau profiad, neu gyflogaeth i ddisgyblion.

- 2.44 Roedd ymatebwyr hefyd yn pwysleisio'r manteision posibl wrth fanylu ar dargedau uchel o safbwynt y nifer o weithwyr medrus a gyflogir, y nifer o fusnesau newydd sy'n cael eu creu, a'r allyriadau carbon a arbedwyd. Gyda mesurau perfformiad, mae'n bwysig fod y rhain â'u pwyslais ar ddatblygu ac nid ar "gosbi".
- 2.45 Roedd amryw o ymatebwyr o'r sector cyhoeddus a'r sector cyhoeddus yn pwysleisio pwysigrwydd yr angen am fwy o weithwyr â sgiliau uchel sy'n cael eu talu'n dda. Amlygwyd hyn yn benodol mewn sectorau megis yr Economi Ddigidol a TGCh, ac o fewn Uwch Beirianeg a Deunyddiau lle mae'n bwysig adnabod sgiliau sydd eu hangen mewn diwydiannau o'r fath er mwyn sicrhau bod sgiliau swyddi yn cael eu datblygu. Roedd un ymatebydd o'r sector preifat yn galw am fwy o ryngweithio ymysg prifysgolion, colegau a'r sector preifat, a chymorth at leoliadau hirdymor, taledig fel rhan o brofiad y myfyriwr.

Tegwch Cymdeithasol

- 2.46 Roedd ymatebwyr yn nodi yr hoffent i'r Strategaeth Arloesi, yn y tymor canolig, ysbrydoli cenedlaethau o arloeswyr mewn diwydiant, ar draws ysgolion a phrifysgolion, ac ar draws rhanbarthau Cymru. Er mwyn i hyn ddigwydd, roedd ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd mynd i'r afael â'r bwlch cynyddol mewn cyfoeth, a pharhau i adnabod ac ariannu blaenoriaethau hirdymor ar gyfer "prosiectau cydgynhyrchu" ac iddynt y nod o "godi'r gwastad" mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru a lleihau anghydraddoldebau incwm ac iechyd. Dylai hyn gynnwys cyllid ar gyfer prosiectau peilot sy'n codi o arloesi cymunedol a'r economi sylfaenol.
- 2.47 Roedd ymatebwyr yn argymhell hefyd y dylid, yn dilyn yr adolygiad o bolisïau cymdeithasol, gweithredu newidiadau, ac y dylai fod pwyslais

ar arloesi mewn gwasanaethau Addysg, Tai, Iechyd a Gofal Iechyd. Dylai hefyd fod adolygiad o'r dangosyddion perfformiad allweddol sy'n cael eu gweithredu, a ddylai hefyd gynnwys pwyslais ar arloesi o fewn y sectorau a grybwyllir uchod.

- 2.48 Roedd un agwedd o gydraddoldeb cymdeithasol yn ymwneud â data gofal iechyd – caniatáu mynediad i gleifion a rhannu gyda phartneriaid cydweithredol. Bydd y rhain yn gofyn am strwythurau llywodraethu newydd i alluogi rhannu a chydweithio.
- 2.49 Fe wnaeth un ymatebydd o'r sector preifat godi'r pwnc o gynnwys cymunedau mewn trafodaethau gyda llywodraeth, diwydiant, masnach, ac addysg fel rhan o feddylfryd systemau wrth sicrhau amgylchedd cynaliadwy ac economi gynaliadwy. Roedd ar un arall eisiau gweld cysylltiadau agosach rhwng y strategaeth arloesi a Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- 2.50 Roedd ymatebydd o sefydliad academaidd yn glir ei farn y dylai'r strategaeth hefyd geisio mynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn cydraddoldeb a chefnogaeth i arloesi gan grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig penodol, gan gynnwys lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl.

Hinsawdd a'r Amgylchedd

- 2.51 Roedd croeso cyffredinol i'r ymrwymiad i hwyluso pontio at ddyfodol gwyrddach yn y Strategaeth. Teimlai un ymatebydd y gellid cyflymu hyn trwy welliannau i gyfleusterau ailgylchu, buddsoddi mewn ynni gwyrdd ac inswleiddio, ynghyd â thrafnidiaeth gyhoeddus effeithiol.
- 2.52 Roedd consensws ymysg ymatebwyr o'r sector cyhoeddus fod angen trefnu bod cyllid ar gael i feysydd o bryder amgylcheddol. Un maes y dylid canolbwyntio'n benodol arno yw darparu gofal iechyd yn nes adref er mwyn helpu cael buddion o ran yr hinsawdd a'r amgylchedd, gan gynnwys offer diagnostig cymunedol a thechnoleg ataliol.

- 2.53 Roedd ymatebwyr yn pwysleisio'r angen am raglen a all adnabod cynnydd a wnaed tuag at dargedau a osodwyd ar gyfer niwtraliaeth carbon, ac adolygu targedau datgarboneiddio busnesau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau ar drywydd digonol i ddod yn Sero Net.
- 2.54 Teimlai un ymatebydd o'r sector cyhoeddus fod Cymru mewn sefyllfa dda i fod yn arloesydd ynghylch newid ymddygiad sy'n ymwneud â'r hinsawdd.
- 2.55 Roedd ymatebwyr o'r sector preifat yn nodi'r angen i barhau i gynnal cyfathrebu a deialog agored gydag asiantaethau amgylcheddol a pharhau i gyflawni astudiaethau annibynnol i adolygu a thynnu sylw at welliannau amgylcheddol posibl yn y meysydd o bryder a nodir. Roedd ar un eisiau gweld mwy o gefnogaeth i weithgynhyrchwyr ddod yn fwy cynaliadwy a chyrraedd eu nodau Sero Net – nid yn unig trwy leihau nwyon tŷ gwydr, ond, yn allweddol, trwy gynhyrchion a gwasanaethau arloesol i gefnogi chwyldro diwydiannol gwyrdd. Dywedwyd bod deallusrwydd artiffisial a dysgu peirianyddol eisoes yn ysgogi cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd ynni mewn busnes.
- 2.56 Roedd un yn galw am grantiau a chymhellion ar gyfer datgarboneiddio tai rhent preifat, gan fod hyn yn cael ei danwasanaethu'n fawr ar hyn o bryd.
- 2.57 Roedd amryw o ymatebwyr hefyd yn nodi pwysigrwydd cael economi werdd sy'n gweithio i bawb. Mae hyn yn cynnwys lleihau dibyniaeth ar geir trwy gael trafndiaeth gyhoeddus ddibynadwy ledled holl ranbarthau Cymru, a thwf sefydliadau ymchwil sector cyhoeddus, labordai cenedlaethol, ac adeiladau effeithlon o ran ynni. Roedd ymatebydd o'r sector preifat yn galw am well cysylltiadau rhwng y stryd fawr a chymunedau cymudo er mwyn lleihau defnydd o geir. Galwyd hefyd am fwy o gefnogaeth i gynlluniau ynni cymunedol, o safbwynt cyllid, cynllunio a rhannu adnoddau gweinyddol.

Cwestiwn 4

Beth fyddech chi'n hoffi i'r Strategaeth Arloesi ei gyflawni yn y tymor hir (5+ mlynedd) o ran: twf economaidd, datblygu sgiliau, tegwch cymdeithasol, hinsawdd a'r amgylchedd

- 2.58 Mae'r cwestiwn hwn yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 4 yn y ddogfen ymgynghori: '*Beth fyddech chi'n hoffi i'r Strategaeth Arloesi ei gyflawni yn y tymor hir (5+ mlynedd) o ran: twf economaidd, datblygu sgiliau, tegwch cymdeithasol, hinsawdd a'r amgylchedd.*' Mae ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi eu rhannu'n bedair adran, yn trafod: cyfleoedd am dwf economaidd, datblygu sgiliau, ymdrin â mesurau tegwch cymdeithasol, a ffactorau'n ymwneud â hinsawdd a'r amgylchedd yng Nghymru.

Twf Economaidd

Sector Cyhoeddus

- 2.59 Roedd ymatebwyr yn nodi yr hoffent weld y Deyrnas Unedig yn rhagori ar dwf gwledydd sy'n gymheiriaid iddynt mewn sectorau y dewiswyd canolbwyntio arnynt. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i Gymru fuddsoddi mewn economi gynaliadwy sydd wedi ei hadeiladu ar y dechnoleg ddiweddaraf. Roedd un ymatebydd o'r sector cyhoeddus yn nodi y dylid edrych eto ar *Cwm Silicon* yn y de, gan ganolbwyntio ar dechnolegau megis Technoleg Synwryddion Clyfar, a gaiff eu gweld fel technolegau cynyddol werthfawr ac angenrheidiol yn y dyfodol. Roedd ymatebydd arall o'r sector cyhoeddus yn nodi bod angen rhwydwaith ledled Cymru o fusnesau cynaliadwy sydd wedi eu cysylltu'n dda ac sydd ag amrywiaeth helaeth o fodelau gweithredu (sef, cwmnïau, ymddiriedolaethau, mentrau cymunedol a chymdeithasol) sy'n cyfrannu at allu Cymru i gyrraedd targedau Sero Net erbyn 2030.

Sector Preifat

- 2.60 Roedd ymatebwyr o'r sector preifat yn nodi y dylai'r strategaeth twf economaidd, yn y tymor hirach, fod yn ystyriol o'r effeithiau sylweddol a ragwelir yn sgil y newid mewn amodau hinsawdd a mudo o ganlyniad i hinsawdd. Nodwyd bod, yn sgil effaith y gwrthdaro yn Wcraïn, mwy o fudo yn digwydd. Yn ogystal, yn sgil newid hinsawdd, disgwylir y bydd, yn y dyfodol heb fod ymhell, llawer o ardaloedd ledled y byd na fyddant yn gallu cynnal eu lefelau presennol o drigolion. Yn sgil ffactorau fel y rhain, roedd ymatebwyr yn amlygu bod gan Gymru gyfle yn y lleoliad hwn, gan fod yr hinsawdd yn ddeniadol, ac y gall yr harddwch naturiol a natur dilys ei phoblogaeth ddenu llawer o weithwyr medrus iawn. Yn ogystal, mae hyn yn helpu wrth ddarparu cyflogaeth mwy cynaliadwy, mwy amrywiol ac sy'n talu'n dda mewn sectorau medrus â thâl uchel, megis busnesau yn y sectorau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol.
- 2.61 Roedd ymatebwyr yn pwysleisio y byddai, er mwyn i hyn ddigwydd, angen rhoi sylw gwleidyddol i gydraddoldeb cymdeithasol, gan y gallai mewnlifiad o fudwyr cefnog, medrus iawn fygwth y strwythur cymdeithasol yn sgil effaith ar brisiau tai. Er mwyn gwrthsefyll hyn, roedd ymatebwyr yn argymhell cynllunio trethiant strategol, a "system seiliedig ar bwyntiau" i werthuso'r rheini sydd â'u bryd ar ymsefydlu yng Nghymru¹.
- 2.62 Roedd consensws ymysg ymatebwyr o'r sector preifat yr hoffent weld tystiolaeth o gynhyrchion a gwasanaethau newydd ar draws diwydiannau gydag astudiaethau achos ac adroddiadau effaith er mwyn sicrhau bod canlyniadau wedi cael eu cyflawni, a bod arolygon gwerthuso'n cael eu hanfon at yr holl randdeiliaid perthnasol i gael adborth ynghylch y cynhyrchion a'r gwasanaethau newydd. Roedd un ymatebydd yn nodi ei fod, yn y tymor hirach, yn gobeithio gweld

¹ Mae'n bwysig nodi nad oes gan Lywodraeth Cymru yr holl bwerau i gyflawni ar sail rhai o'r themâu cyffredin mae ymatebwyr yn eu hawgrymu o fewn eu hymatebion. Mae Aelodau o'r Senedd yn gwneud deddfau sy'n llywio bywyd yng Nghymru. Fodd bynnag, ni all Cymru wneud deddf ond o fewn y meysydd mae ganddi gyfrifoldeb amdanynt. Mae meysydd sydd y tu allan i gyfrifoldeb datganoledig yn cynnwys Amddiffyn, Mewnffudo, Cyfiawner, a Phlisma.

cynnydd mewn busnesau bach a chanolig a busnesau newydd sydd wedi elwa o weithredu'r Strategaeth Arloesi.

2.63 Argymhellwyd y dylai'r strategaeth ganolbwyntio ar y prosesau a'r amodau gwaelodol sy'n galluogi arloesi, ac adeiladu diwylliant o arloesi, masnacheiddio, a mentergarwch drwy'r holl ecosystem. Awgrymwyd y dylai Strategaeth Arloesi gyflawni'r canlynol:

- Cefnogi ac annog ymchwil sydd ar flaen y gad, a hynny drwy'r holl ecosystem arloesi
- Darparu llwybrau ar gyfer llif gwybodaeth ac arbenigedd ar draws y gwahanol sectorau
- Annog "meddylfryd masnachol, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau"
- Ymwneud â'r ecosystem arloesi ehangach, yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol
- Cynnwys canlyniadau cadarnhaol gweladwy a gefnogir gan dystiolaeth, sy'n dangos graddau'r datblygiad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a grewyd trwy ddull a yrwyd gan arloesi.

2.64 Gan gytuno ag ymatebwyr o'r sector preifat, roedd amryw o ymatebwyr o'r trydydd sector yn nodi y dylai effeithiau hirdymor y Strategaeth Arloesi ffurfio tirwedd arloesi iach i fusnesau bach a chanolig. Gall camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru hybu busnesau bach a chanolig arloesol, yn enwedig pan gânt eu teilwra i'r cam maent arno yn eu busnesau, o'r sefydlu i raddio i fyny a masnacheiddio. Dylai fod map trywydd yn cael ei sefydlu o dwf busnesau bach a chanolig yng Nghymru. Dylai straeon llwyddiant o'r cwmnïau hyn fod yn denu gweithwyr medrus i Gymru.

Sefydliadau Ymchwil a Sefydliadau Academaidd

2.65 Roedd un sefydliad academaidd yn nodi yr hoffent, yn yr hirdymor, weld bod Cymru'n gallu dangos bod arloesi wedi cael ei brif-ffrydio a bod hyn yn "wrth wraidd gweddnewidiad economaidd Cymru" gan

gyflymu cynnydd ag gyflawni Cymru Sero Net. Crybwyllwyd ymhellach y bydd gweddnewidiad economaidd o'r fath yn cael ei atgyfnerthu gan "ddull ymwreiddiedig" o arloesi ac ecosystem aeddfed ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Roedd Prifysgol Caerdydd yn argymhell ei bod yn angenrheidiol yn y tymor hir i gynnal "strategaeth fyw", a gaiff ei diweddarau'n aml ac sydd ag "ethos o fireinio ac ystywythder, gan ystyried y llwyddiannau a'r gwersi a ddysgwyr, ac a gefnogir gan feincnodi."

Datblygu Sgiliau

Sector Cyhoeddus

- 2.66 Roedd ymatebwyr o'r sectorau cyhoeddus a phreifat yn tynnu sylw at yr angen i weithredu rhaglen barhaus lle gellir troi sgiliau yn gyfleoedd dysgu gydol oes. Mae hyn yn sefydlu diwylliant o hunan-ddatblygu drwy gydol gyrfaoedd pobl a defnyddio sgiliau gweithlu cydnabyddedig a throsglwyddadwy a dderbynnir ym mhob sector.
- 2.67 Roedd amryw o ymatebwyr o'r sector cyhoeddus yn cytuno y byddai arnynt eisiau gweld sgiliau arloesi'n gwreiddio drwy'r holl sector cyhoeddus, gan gynnwys cydweithio ac arweiniad cryf. Byddai hyn â llai o bwyslais ar heriau penodol ond yn canolbwyntio'n hytrach ar gael y sgiliau o fewn y gweithlu i alluogi, arwain a chyflawni arloesi sy'n rhoi gwerth. Yn ogystal, roedd ymatebwyr yn nodi y byddent ar ôl pum mlynedd yn hoffi gweld gweithlu medrus iawn a hyblyg sy'n gallu cyflawni'r cynhyrchion, gwasanaethau a thechnolegau sy'n angenrheidiol ar gyfer economi Cymru'r dyfodol. Mae hyn yn cynnwys ychwanegu llwyfannau datblygu arloesol sy'n sefydlog ac yn benodol i alw diwydiannol a chreu sgiliau.
- 2.68 Dywedodd ymatebwyr o'r sector cyhoeddus hefyd fod arnynt eisiau gweld sgiliau arloesi'n gwreiddio drwy'r holl sector cyhoeddus, gan gynnwys cydweithio ac arweiniad cryf. Byddai hyn â llai o bwyslais ar heriau penodol ond yn canolbwyntio'n hytrach ar gael y sgiliau o fewn y gweithlu i alluogi, arwain a chyflawni arloesi sy'n rhoi gwerth.

- 2.69 Roedd amryw o ymatebwyr eraill o'r sector cyhoeddus yn nodi yn y dylai'r strategaeth gyflawni'r canlynol yn yr hirdymor:
- Parhau i fuddsoddi mewn canolfannau rhagoriaeth, lle gall busnesau sydd â chydfuddiannau cydnaws helpu meithrin economi gylchol ac annog cydweithio arloesol rhwng diwydiant ac academia
 - Parhau i feithrin y genhedlaeth nesaf o arloeswyr, trwy ddarparu'r adnoddau a'r hyfforddiant angenrheidiol i ysgolion er mwyn ysbrydoli plant i ddilyn gyrfaoedd STEM
 - Parhau i ddatblygu sgiliau dysgu annibynnol ar gyfer dysgu gydol oes er mwyn adlewyrchu natur cyfnewidiol gwaith a chefnogi arloesi a chreadigrwydd
 - Addysgu pobl sut i feddwl yn arloesol a chreadigol
- 2.70 Nodwyd ymhellach ei bod yn bwysig darparu addysg a hyfforddiant i unigolion hyd at 25 oed. Fodd bynnag, mae angen cynnal momentwm y tu hwnt i hyn er mwyn sicrhau bod arloesi'n cael ei gynnal. Mae'n bwysig fod arloesi yn weladwy ar hyd y llwybr addysg fel na cholli cyfleoedd gyda chymhellion i'r genhedlaeth nesaf gofleidio arloesedd.
- 2.71 Roedd cytundeb cyffredinol y dylai'r strategaeth, yn yr hirdymor, ganolbwyntio mwy ar rôl y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a'r cysondeb y gall ei gyflawni ar draws yr holl sector addysg ôl-orfodol a gyda blaenoriaethau cyrff cyhoeddus eraill. Dylai'r strategaeth gefnogi perthynas agosach gyda'r sefydliadau fel y gallant gyflawni ei hamcanion yn well.
- 2.72 Awgrymwyd gan ymatebydd o'r trydydd sector, Anabledd Dysgu Cymru, y dylid integreiddio hygyrchedd ym mhob agwedd o gymdeithas yng Nghymru yn yr hirdymor. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant a phrentisiaethau hygyrch ac yn gyffredinol, cyfle cyfartal mewn addysg. Golyga hyn hefyd integreiddio mesurau penodol ym mhob cam o arloesi i sicrhau bod pobl o bob cefndir a gwahanol nodweddion gwarchodedig yn gallu cael effaith sylweddol ar y broses.

Sefydliadau Ymchwil a Sefydliadau Academaidd

- 2.73 Roedd ymatebwyr o sefydliadau academaidd yn nodi y dylai sefydliadau addysg uwch gynnig mwy o raddau sy'n canolbwyntio ar feysydd Technoleg Ddigidol. Roedd un ymatebydd yn nodi hefyd y dylai sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ddatblygu amrywiaethau ehangach o brentisiaethau gradd i helpu gyda ffotoneg, symudedd cymdeithasol a datblygiad. Fe wnaeth sefydliad ymchwil arall nodi y dylid ar y cam hwn sicrhau bod cyfleoedd yn y sectorau addysg uwch ac addysg bellach yn "fwy ymatebol fyth". Gallai hyn fod yn ffurf "cymwysterau unedau llai", cymeradwyaeth gyflymach o gynnwys neu newidiadau cwricwlwm, mwy o allu i ddod â phobl i mewn o ddiwydiant i helpu addysgu, a throsglwyddo gwybodaeth.
- 2.74 Roedd ymatebwyr yn nodi hefyd y dylid cyhoeddi adroddiad annibynnol ar ddiwedd y Strategaeth sy'n rhoi tystiolaeth o welliannau mewn diwydiannau megis Gwyddorau Bywyd a Iechyd, Carbon Isel, Ynni a'r Amgylchedd, Uwch Beirianeg a Deunyddiau, a'r Economi Ddigidol a TGCh. Dylai'r adroddiad hefyd gynnwys data a gesglir o sefydliadau addysg uwch i adolygu effaith y Strategaeth Arloesi ar ffigurau cofrestru.

Sector Preifat

- 2.75 Roedd ymatebwyr o'r sector preifat a'r trydydd sector yn amlygu bod arloesi yn cael ei gyflawni'n aml, ond nad yw rhannu arloesi yn digwydd yn rheolaidd yn ehangach drwy'r diwydiannau. I ddatrys hyn, dylai'r strategaeth ganolbwyntio ar sefydlu canolfannau rhanbarthol ledled Cymru sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu gwasanaethau a chynhyrchion newydd ac arloesol, cyfleoedd hyfforddi a hyrwyddo cyfnewid gwybodaeth.

Tegwch Cymdeithasol

Sector Cyhoeddus

- 2.76 Dywedodd amryw o ymatebwyr o'r sector cyhoeddus fod arnynt eisiau i'r strategaeth, yn ogystal â buddsoddi mewn cynlluniau ar draws yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ymrwymo hefyd i strategaethau twf a buddsoddi ledled y wlad ac o fewn yr holl gymunedau lleol.
- 2.77 Dywedodd Ymddiriedolaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru fod angen i'r strategaeth, er ei bod yn cyfeirio at ddatblygu gallu i arloesi trwy gyfleoedd a ddarperir, ategu hyn â buddsoddiad digonol i sicrhau rolau arwain mewn arloesi mwy hirdymor. Yn ogystal, nodwyd bod angen mwy o fanylder ynghylch y rhaglen arloesi gyfunol ar gyfer iechyd a gofal, fel y trafodwyd yn y strategaeth, ddangos y bydd hyn yn cael ei gefnogi.
- 2.78 Yn ogystal, roedd Cydffederasiwn Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru yn awgrymu y dylai'r strategaeth, yn yr hirdymor, gefnogi'r gwasanaeth trwy fynd i'r afael â materion sydd y tu hwnt y gyrhaeddiad y Gwasanaeth Iechyd, ond sy'n cael effaith gweladwy ar iechyd a llesiant y boblogaeth. Pwysleisiwyd fod cyfleoedd i ymdrin â thwf economaidd, newid hinsawdd, gweithgareddau ataliol, a phrinder mewn gweithluoedd. I gyflawni'r buddion hyn, mae angen i'r strategaeth fod yn gryfach ar adrodd, gan roi tystiolaeth o effaith a'r strwythurau llywodraethu addas a fyddai'n galluogi arloesi i ddatblygu'n gyflym. Bydd yn bwysig fod y strategaeth yn "mynd ati'n fwriadol i symleiddio'r tirwedd arloesi" yng Nghymru, gydag atebolrwydd clir a pherchnogaeth ar draws pob sector a holl adrannau'r Llywodraeth.
- 2.79 Roedd un ymatebydd o'r trydydd sector yn nodi yr hoffai i'r Strategaeth Arloesi alluogi newidiadau systemig gwirioneddol a dulliau newydd radical o fynd i'r afael â heriau mewn systemau sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn mewn iechyd a gofal cymdeithasol, y gweithlu, a'r model anghynaliadwy o ofal hirdymor.

Sefydliadau Ymchwil a Sefydliadau Academaidd

- 2.80 Roedd un sefydliad ymchwil yn nodi y dylai'r strategaeth anelu at ymdrin â heriau a chyfleoedd mwy hirdymor megis technolegau ynni adnewyddadwy/cynaliadwy, trawsnewid digidol, gwella iechyd a llesiant, a chreu economi gylchol.
- 2.81 Yn ogystal, yn y tymor hir, dylai twf economaidd gael ei ledaenu'n wastad ar draws grwpiau ac ardaloedd daearyddol yng Nghymru gyda thystiolaeth o well gweithgarwch arloesi ar draws ystod o leoedd, ac nid wedi ei grynhoi mewn ardaloedd traddodiadol megis dinasoedd mawr. Byddai hyn, yn ei dro, yn cyfrannu at wella tegwch cymdeithasol. Nodwyd bod gan arloesi y potensial i helpu ailgydbwysu diwydiannau sy'n gwyro'n drwm tuag at ferched neu ddynion ar ôl pum mlynedd neu fwy. Argymhellwyd y dylid asesu cyfraniad y strategaeth arloesi at leihau bylchau fel y rhain.

Sector Preifat

- 2.82 Roedd ymatebwyr o'r sector preifat yn trafod materion yn ymwneud â buddsoddi pellach ac yn nodi mai'r nod hirdymor pwysicaf yn y sectorau iechyd a gofal yw sicrhau gwelliannau mewn canlyniadau i bobl Cymru. Yn ogystal, nodwyd ei bod yn bwysig cadw cymorth rheoliadol i arferion dysgu efelychiadol sy'n hyrwyddo addysg gofal iechyd arloesol. Yn ystod y pandemig, bu rheoleiddwyr gofal iechyd yn ymdrechu i greu amgylchedd ac iddo hyblygrwydd i brifysgolion ac roedd ymatebwyr yn pwysleisio na ddylai'r ystwythder hwn gael ei golli. Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru wneud ymdrech i gadw cymorth rheoliadol ar gyfer dysgu efelychiadol, gan gefnogi twf y sector a gweithlu cynaliadwy.
- 2.83 O ran yr amcan lefel-uchel o 'ofal iechyd effeithiol a chynaliadwy', roedd ymatebwyr yn awgrymu y dylid crynhoi'r cenadaethau, gweithgareddau a'r adnoddau ar y canlynol:
- Symud ymlaen mewn modd ystyrlon gyda gweithgareddau arloesi er mwyn gwireddu buddion

- Datblygu partneriaethau cryf gydag academia, sefydliadau iechyd, masnachol ac ymchwil mewn unrhyw sectorau perthnasol
- Buddsoddi mewn staff a chyfleusterau ac adeiladu seilwaith ystyrion ledled Cymru
- Gwella ansawdd ac effaith ein gweithgareddau, gyda dull cyfannol o wella iechyd y boblogaeth sy'n cynnwys ennyn diddordeb y cyhoedd yn eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

2.84 Amlygwyd hefyd gan Gymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain y dylai'r sector Gwyddorau Bywyd a'r diwydiant fferyllol, fod yn rhan ganolog o gynlluniau Llywodraeth Cymru i gynyddu arloesi, buddsoddiad ymchwil a datblygu, a chyflawni iechyd a llesiant mwy cynaliadwy fel rhan o uchelgeisiau ehangach y Deyrnas Unedig am economi gryfach.

Hinsawdd a'r Amgylchedd

Roedd ymatebwyr yn ailadrodd yr angen am adeiladau effeithlon o ran ynni sydd, yn ogystal â diogelu strwythur yr adeiladau, yn cyfyngu hefyd ar nwyon ty gwydr. Roedd un ymatebydd yn nodi ei bod yn bwysig fod y strategaeth yn parhau i ailfuddsoddi mewn polisiau hinsawdd a'r amgylchedd y tu hwnt i gyfnod 5-mllynedd y strategaeth.

Sector Cyhoeddus

2.85 Roedd un ymatebydd o'r sector cyhoeddus yn pwysleisio pwysigrwydd ystyriaethau hinsawdd a'r amgylchedd, gan y byddant yn sicr o dyfu dros y pum mlynedd nesaf. Felly roedd y pwyslais ar bryderon amgylcheddol yn y strategaeth yn cael ei groesawu'n helaeth. Pwysleisiodd amryw o ymatebwyr y dylai unrhyw brosiect arloesi a gefnogir ddangos buddion o ran yr hinsawdd a'r amgylchedd ac awgrymodd amryw y dylai asesiadau carbon cylchred oes fod yn orfodol i brosiectau a gyllidir gan Lywodraeth Cymru. Byddai hyn yn caniatáu i oblygiadau carbon oes llawn arloeseddau gael eu

hadnabod yn gyflymach a datblygu dealltwriaeth o lifau carbon a sgiliau gydag ymchwil a datblygu mewn asesu carbon.

- 2.86 Nodwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru y dylai'r strategaeth, ar ôl pum mlynedd, allu dangos tystiolaeth o ddiwylliant o arbrofi a gwerthuso sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd. Bydd wedi creu amgylchedd arloesi gefnogol ledled Cymru, sy'n codi i'r her o greu economi adfywiol, adfer ein ecosystemau, a chyflawni buddion iechyd a llesiant yn deg ar draws cymdeithas.
- 2.87 Y sectorau allweddol a nodir yn y Strategaeth a ddylai fod yn dangos cynnydd gweladwy, gydag effeithiau cadarnhaol i Gymru, yw: dilyniant o atebion newydd i'r hinsawdd yn cael eu gosod ledled Cymru, cynnydd mewn iechyd a gofal, a buddion i fwyd ac amaethyddiaeth. Dylai mabwysiadu'r atebion hyn gael ei ymestyn y tu hwnt i Gymru, gan ddangos safle Cymru fel cenedl flaenllaw sy'n meithrin arloesi er gwelliant byd-eang. Mae eisoes enghreifftiau o hyn, megis Rhwydwaith Sunrise o dan arweiniad Prifysgol Abertawe sydd gweithio at leihau tlodi ynni byd-eang, a dylai'r Strategaeth Arloesi arwain at dyfu'r portffolio hwn o effeithiau ehangach.
- 2.88 Dylid gwerthuso'r Strategaeth er mwyn deall ei heffeithiau, llwyddiannau a'r camau nesaf. Dylai hyn, yn ogystal ag archwilio'r cwmnïau a'r sectorau sydd wedi gweld cynnydd dros gwrs y Strategaeth, archwilio hefyd yr amrywiaeth o bobl sydd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau arloesi ac wedi elwa ohonynt. Bydd y metrigau allweddol yn cynnwys cynrychiolaeth yn ôl rhywedd ac ethnigrwydd, a bylchau tâl yn y sectorau gwyddoniaeth a thechnoleg.

Sefydliadau Ymchwil a Sefydliadau Academaidd

- 2.89 Roedd un ymatebydd yn awgrymu cenhadaeth o ganolbwyntio ar hinsawdd a'r amgylchedd, er mwyn sicrhau nad oes neb yn cael eu gadael ar ôl a galluogi cyflawni'r pedwar blaenoriaeth arall.
- 2.90 Bydd datgarboneiddio trafnidiaeth yn gofyn am arloesi mewn batris a hydrogen, a gall hyn ddod â buddsoddiad i Gymru i gefnogi twf. Gall datblygu cadwyn gyflenwi ar gyfer melinau gwynt sy'n arnofio yn y

Môr Celtaidd, law yn llaw ag arloesi mewn caniatáu a chynllunio, greu sgiliau a swyddi. Cafodd uwchraddio technolegau ailgylchu i gwmpasu amrywiaeth helaethach o gynhyrchion ei amlygu hefyd fel maes arloesi – gan gynnwys offer electronig. Bydd y rhain yn gofyn am gynnydd mewn cyrsiau hyfforddi i gefnogi'r sector.

Ymatebwyr unigol

- 2.91 Roedd hinsawdd a'r amgylchedd yn cael eu gweld fel materion sydd mor bwysig fel eu bod yn sail i bob gweithgarwch arall. Roedd ar un ymatebydd eisiau gweld mwy o arloesi mewn addasu, gan gynnwys defnyddio rheolaeth o afonydd ar gyfer arafu llif dŵr ac adeiladu bioamrywiaeth.
- 2.92 Cafodd arloesi mewn defnyddio adnoddau ei grybwyll hefyd, gyda photensial am gyllid i brosiecau cymunedol lleol i leihau gwastraff, annog teithio llesol a datblygu byw iach.

3. Adran 2 – Sylwadau ar y Strategaeth ddrafft

Canfyddiadau allweddol:

- Gall Cymru ennill cydnabyddiaeth fyd-eang fel arweinydd mewn arloesi, datgarboneiddio, a thechnolegau adnewyddadwy
- Bydd y strategaeth yn gymorth wrth ysgogi twf economaidd, ac yn rhoi cyfleoedd i bobl sy'n byw yng Nghymru trwy ddulliau cydweithredol o arloesi
- Dylai Cymru roi pwyslais allweddol ar dechnoleg glyfar a synwryddion, gofal iechyd, ac addysg uwch
- Mae Cymru mewn sefyllfa dda i weithredu dull arloesi sy'n seiliedig ar le
- Busnesau gwyrddach a mwy effeithlon o ran ynni

Cwestiwn 5

Gwnaethon ni ddisgrifio rhai amcanion lefel uchel sy'n sail i'n gweledigaeth yn y strategaeth ddrafft. Rydyn ni'n cydnabod na all Cymru fod yn arweinydd arloesi byd-eang ym mhob maes. A oes cenhadaeth neu genadaethau penodol sy'n gysylltiedig â sectorau economaidd neu feysydd canlyniadau cymdeithasol y dylem yn eich barn chi ganolbwyntio gweithgarwch ac adnoddau arnynt?

- 3.1 Fe wnaeth ymatebwyr amlygu amryw o weithgareddau ac adnoddau y dylid canolbwyntio arnynt yn eu barn hwy. Dywedodd ymatebwyr mai'r genhadaeth y dylai'r strategaeth ganolbwyntio arni yw'r nod o fod yn arweinydd byd-eang mewn cyflawni datgarboneiddio trwy fesurau arloesol ynni adnewyddadwy. Fe wnaeth un ymatebydd dynnu sylw at y defnydd o dechnolegau adnewyddadwy i leihau tlodi tanwydd a chynnig mwy o gyfleoedd i Gymru arwain y ffordd mewn lleihau treuliant ynni trwy ddulliau arloesol.
- 3.2 Dywedodd ymatebwyr hefyd ei bod, yn unol â Chymru Sero Net a'i addewid i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, yn hanfodol fod y llywodraeth yn gweithredu ar unwaith i geisio gwrthdroi'r difrod amgylcheddol. Dylai targedau a chanlyniadau gwyrdd hefyd ffurfio rhan o'r meysydd eraill sy'n peri her gan fod ganddynt yr holl elfennau

y gellir ymdrin â hwy. Roedd ymatebwyr yn pwysleisio y dylai gweithgarwch ac adnoddau gael eu canolbwyntio mewn meysydd fel: Gwyddorau Bywyd ac Iechyd, Uwch Beirianeg a Deunyddiau, yr Economi Ddigidol a TGCh, gan y gall y rhain i gyd helpu ymdrin â datgarboneiddio.

Ymatebwyr Unigol

- 3.3 Roedd ymatebwyr unigol yn nodi pwysigrwydd defnyddio arloesi i wella iechyd a chyfoeth y genedl. Roedd consensws fod angen i arloesi fod yn effeithiol ac effeithlon. Bydd arloeseddau o'r fath yn arwain at lwyddiannau economaidd ac yn cyfrannu at allu Cymru i sefydlu ei hun fel arweinydd ar y llwyfan byd-eang. Er mwyn i hyn ddigwydd, dywedodd amryw o ymatebwyr fod angen buddsoddi pellach mewn meysydd fel cynhyrchu pŵer, systemau gwynt a thonnau, pŵer solar, technoleg a datblygu sgiliau. Nodwyd ymhellach gan ymatebwyr unigol y dylai Llywodraeth Cymru, drwy'r holl strategaeth, annog pobl yng Nghymru i ofalu am eu hiechyd, yr amgylchedd, ac amdanynt ei gilydd.

Ymatebwyr Sector Preifat

- 3.4 Law yn llaw ag ymatebwyr unigol, roedd cytundeb cyffredinol ymysg ymatebwyr o'r sector preifat y dylai'r meysydd allweddol lle dylid cysylltu adnoddau yn cynnwys gofal iechyd a gwyddorau bywyd, addysg uwch, gweithgynhyrchu uwch, a diwydiannau uchelddechnoleg megis technoleg feddygol, technoleg ariannol, seibrddiogelwch, technoleg amaethyddol, a chynhyrchu bwyd. Fel y noda'r strategaeth ddrafft, mae Cymru wedi creu clystyrau o gwmpas technoleg feddygol, technoleg ariannol, a lled-ddargludyddion cyfansawdd. Mae ganddi fanteision naturiol o ran gosod technoleg werdd mewn dulliau cynhyrchu o wynt, hydro, solar a morol. Nodwyd bod ar bob un o'r rhain, a thechnolegau llwyddiannus eraill, angen cymorth parhaus. Fodd bynnag, roedd un ymatebydd yn pwysleisio

bod angen i'r strategaeth gadw hyblygrwydd i gefnogi neu fuddsoddi mewn technolegau ac arloeseddau newydd, waeth beth fo'r sector, gan y gallant gynnig potensial o dwf uchel. Yn achos technoleg werdd, nodwyd y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar fodelau arloesol o berchnogaeth ar gyfer cynhyrchu pŵer sy'n dal gafael ar elw er mwyn "cefnogi cymunedau a chynhyrchu rhagor o fuddsoddiad cynaliadwy".

- 3.5 Pwysleisiwyd ymhellach y dylai gofal iechyd ac addysg uwch fod yn ganolbwynt unrhyw weithgarwch ac adnoddau newydd. Gydag adnoddau a chyllid yn cael eu canolbwyntio ar dechnolegau arloesol a phrofiadau dysgu efelychiadol, gall prifysgolion barhau i greu y gweithlu gofal iechyd o safon uchel mae ar Gymru ei angen er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth.
- 3.6 Nodwyd hefyd y dylai Cymru anelu at adeiladu ar lwyddiant y sector gwyddorau bywyd, ac o fewn hynny, y diwydiant fferyllol, gan fod llawer o gyfleoedd i'r Deyrnas Unedig arwain yn y maes hwn ac i Gymru elwa'n sylweddol. Nodwyd bod angen y math arloesi gyda chynllunio cynhyrchion seiliedig ar atebion sy'n canolbwyntio ar dechnoleg ddigidol, iechyd, a gofal cymdeithasol, ac un a fydd yn hyrwyddo'r amcanion o economi gryfach fwy cydnerth. Yn ogystal, roedd ymatebwyr o'r sector preifat yn pwysleisio bod angen map trywydd cyflawn o'r system arloesi er mwyn deall yn llawn beth yw blaenoriaethau pawb a'r hyn y gellir ei gyflawni.
- 3.7 Roedd un cwmni sector preifat yn pwysleisio pwysigrwydd buddsoddi yn y sector trafnidiaeth, yn benodol yn y sectorau awyrofod a modurol. Nodwyd y gallai'r sectorau awyrofod a modurol ddod yn rhai o'r sectorau amlwg yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r diwydiant eisoes wedi adrodd am ail-ymchwydd mewn galw wrth i hediadau teithwyr gychwyn dychwelyd at yr hyn oeddent cyn y pandemig. Er mwyn cefnogi'r sector hwn, mae angen i'r strategaeth fynd i'r afael â'r llawer o rwystrau rhag twf, megis anawsterau gyda chadwyni cyflenwi sy'n rhwystro mynediad at "gydrannau allweddol a deunyddiau crai."

Nodwyd mai ateb posibl i'r rhwystrau hyn yw defnyddio technolegau digidol a all helpu wrth fonitro cadwyni cyflenwi byd-eang.

Ymatebwyr Trydydd Sector

- 3.8 Roedd ymatebwyr o'r trydydd sector yn croesawu'r pwyslais hwn, ac amryw yn cytuno bod yn rhaid rhoi'r "brif flaenoriaeth" i ddatblygu technolegau, dulliau a modelau busnes ac iddynt y nod o sicrhau pontio cyfiawn at Sero Net. Er bod un ymatebydd o'r trydydd sector yn cydnabod bod technoleg ddigidol yn bwysig, dywedodd y dylai'r strategaeth ganolbwyntio hefyd ar y syniad o arloesi cymdeithasol, gan fod y ddau beth yn angenrheidiol os yw Cymru am gyflawni datblygu cynaliadwy trwy'r saith nod llesiant a gyflwynir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Amlygwyd bod y strategaeth ar hyn o bryd yn seiliedig ar STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, a Mathemateg), yn hytrach na STEAM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, Celfyddydau, a Mathemateg). Gyda "chanolbwyntio cul" fel hyn, mae'r strategaeth yn "colli" rôl allweddol dylunio mewn arloesi technolegol, a'r arloesi sydd ei angen er mwyn gweithredu yn erbyn newid hinsawdd a'r argyfwng bioamrywiaeth, a fydd yn gofyn am arloesi technolegol a chymdeithasol.
- 3.9 Nodwyd ymhellach gan ymatebwyr o'r trydydd sector fod gan Gymru eisoes ecosystem arloesi ac iddi gryfder ac arbenigedd mewn gwyddorau cemegol ac yn enwedig mewn gweithgynhyrchu uwch. O fewn rhanbarth Caerdydd a Bro Morgannwg, mae crynodiad penodol o gryfder cemeg. Pwysleiswyd y bydd adeiladu ar hyn yn cryfhau llawer o sectorau sy'n ddibynol ar dechnolegau cemegol, gan gynnwys y rheini sy'n allweddol i economi'r Deyrnas Unedig ac i ddatrys heriau byd-eang. Mae'r rhain yn cynnwys technolegau gwyrdd, cynhyrchu a storio ynni cynaliadwy, gwyddorau bywyd a chwmnïau fferyllol, a diogelwch bwyd. Awgrymwyd bod gan Gymru fanteision lleol ar hyn o bryd y gellid manteisio arnynt ymhellach i gymell clystyrau cemeg, megis adnoddau sylweddol o ynni

adnewyddadwy. Nodwyd y gallai ychwanegu cyfleusterau sydd eu hangen i dyfu cwmnïau technoleg dwfn sy'n bod eisoes, megis "labordai graddio i fyny" arwain at y potensial o ddod â buddsoddiad ac arbenigedd ychwanegol i mewn. Pwynt arall a bwysleisiwyd oedd pa bynnag genadaethau a ddewisir, dylai sefydliadau gwirfoddol fod â rhan bwysig i'w chwarae wrth eu cyflawni, gan y gallant gyrraedd unigolion a chymunedau ar lawr gwlad na all sectorau eraill eu cyrraedd. Fodd bynnag, nodwyd bod angen i'r sector gwirfoddol allu cael at adnoddau a chymorth er mwyn cyflawni ei rôl yn effeithiol. Yn ogystal, mae angen i'r sector gael ei weld fel "partner cyfartal" law yn llaw â'r sectorau eraill.

Sefydliadau ymchwil

- 3.10 Roedd mwyafrif y sefydliadau ymchwiol ac academaidd yn cefnogi llawer o'r amcanion cyffredinol yn y strategaeth. Eu barn oedd fod angen i flaenoriaethau arloesi adlewyrchu meysydd lle mae cryfder ar hyn o bryd, ond hefyd sganio'r gorwel i addasu i alwadau yn y dyfodol. Roedd y sectorau allweddol a gydnabuwyd yn cynnwys gweithgynhyrchu, amaethyddiaeth a'r amgylchedd, yr economi gylchol a chynaliadwyedd, ynni adnewyddadwy a gwell systemau pŵer, iechyd a gofal cymdeithasol, a'r diwydiannau creadigol. Nodwyd y byddai'n fuddiol i'r strategaeth glymu'r rhain i gyd at ei gilydd i weld a oes cysylltiadau amlwg â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Awgrymwyd hefyd y gallai canolbwyntio tynnach ar lle mae'r meysydd o gryfder, a sut mae'r rhain yn ymdrin â chynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer adfywio mewn gwahanol ranbarthau roi eglurder i randdeiliaid "benderfynu ar fuddsoddi mwy hirdymor mewn technolegau penodol".
- 3.11 Awgrymwyd gan Innovate UK y dylid rhoi rhywfaint o ystyriaeth i sut mae cyrff sy'n gweithredu ledled y Deyrnas Unedig yn blaenoriaethu buddsoddiad. Nodwyd hefyd y dylai'r Strategaeth Arloesi gynnwys nifer o feysydd lle mae cydnawsedd â'r peuoedd hyn y dylid manteisio

arnynt. Fodd bynnag, mae'n bwysig fod y Strategaeth Arloesi, wrth bennu cenadaethau, yn ofalus sy'n mae'n ceisio 'canolbwyntio' adnoddau.

- 3.12 Roedd sefydliadau ymchwil, yn ogystal ag ymatebwyr o'r sector preifat, yn nodi bod Cymru mewn sefyllfa gref i ymwneud yn llwyddiannus â "dull arloesi seiliedig ar le" sy'n dod â chlystyrau o arbenigedd, diwydiant, ac asedau amgylcheddol at ei gilydd mewn ardaloedd unigryw. Mae clwstwr Lled-ddargludyddion Cyfansawdd De Cymru yn enghraifft bwerus o hyn, ac mae gan ogledd Cymru amryw o ddatblygiadau sy'n adeiladu ar y dull hwn. Yn ogystal, mae gan Gymru lwyddiant blaenorol cryf mewn gwyddorau bywyd a gofal iechyd, gyda chysylltiadau "rhagorol" rhwng ymchwil prifysgol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, a phortffolio cryf o waith mewn treialon clinigol, ac ymchwil gwyddonol. Nodwyd bod gan yr holl feysydd hyn sectorau masnachol cryf iawn a'i bod yn amlwg y gallant fod o fudd i iechyd a llesiant cymdeithas. Fodd bynnag, pwysleisiodd un sefydliad academaidd fod, er mwyn i Gymru gyfan elwa, angen pendant am ganolbwyntio adnoddau yn y cymunedau gwledig i wrthbwysio "effaith cychwynnol" y lleihad mewn cymorth Ewropeaidd i'r cymunedau hyn.
- 3.13 Pwysleisiwyd sawl gwaith gan sefydliadau ymchwil ac academaidd fod y strategaeth ddrafft yn rhy hir, a'i bod yn anodd i'r amrywiol genadaethau "sefyll allan". Er bod y pwyslais ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ddealladwy, nodwyd bod rhai o'r cenadaethau yn ymddangos yn "artiffisial" ac y byddent efallai yn gweddu'n well fel themâu allweddol drwy'r holl strategaeth, neu y dylid eu cyfuno â chenadaethau eraill. Amlygwyd ymhellach y byddai llai o genadaethau a chanolbwyntio culach yn gwneud y strategaeth yn fwy "effeithiol a thebygol o gael effaith." Mae canolbwyntio ar lle mae gan Gymru gryfderau eisoes o ran arloesi a gweithgarwch economaidd yn ffordd fwy "synhwyrol" o fynd ati, yn hytrach na cheisio datblygu meysydd nad oes dim, neu fawr ddim, gweithgarwch ar hyn o bryd.

Ymatebwyr Sector Cyhoeddus

- 3.14 Yn ogystal â'r sefydliadau ymchwil ac academaidd, nodwyd hefyd gan ymatebwyr o'r sector cyhoeddus fod amcanion lefel uchel yn y strategaeth yn "rhy eang", ac y bydd yn "anodd mesur effaith y Strategaeth Arloesi wrth gyflawni'r amcanion hyn." Yn benodol, trafodwyd nad yw'r adran ar dde-ddwyrain Cymru o fewn pennod y Dimensiwn Rhanbarthol yn cynrychioli'n fanwl gywir y gweithgarwch arloesi sy'n digwydd. O fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, mae pwyslais ar gryfderau presennol diwydiannau cenedlaethol ar raddfa clwstwr megis lled-ddargludyddion cyfansawdd, technoleg feddygol, technoleg ariannol, a seibr-ddiogelwch. Nodwyd bod y strategaeth wedi colli'r cyfle i fabwysiadu "dulliau ategol o wella a chynyddu graddfa gweithgarwch arloesi o fewn y clystyrau blaenoriaeth hyn."
- 3.15 Roedd ymatebwyr o'r sector cyhoeddus yn nodi y dylai technoleg Glyfar a Synwryddion hefyd fod yn faes allweddol i Gymru ganolbwyntio arno. Mae gan Gymru gyfle i ddod yn arweinydd byd-eang wrth hyrwyddo a defnyddio "Data Agored" y gellir ei ddefnyddio i symbylu arloesi a'i dyfu ymhellach. Er bod "ffynonellau data cymwysedig" ar gael, byddai adeiladu rhyngwynebau rhaglennu cymwysiadau hygyrch i'r cyhoedd yn galluogi "defnyddio Data Mawr yn addysgiadol, a chefnogi cyrff buddiannau cyhoeddus." Er mwyn i hyn ddigwydd, dylai'r strategaeth gefnogi "rhwydweithiau sydd eisoes ar waith" ac adeiladu arnynt, a fydd yn cyflawni enillion cyflym ar fuddsoddiad, a thyfu sgiliau a doniau o fewn Cymru. Enghraifft a grybwyllir o rwydwaith gweithredol yw un yn Llanelwy, Sir Ddinbych, lle mae cwmnïau Ffotoneg ac Opteg blaenllaw yn fyd-eang. Sydd ynghyd â 60 o gwmnïau eraill o fewn Cymru yn cael eu cefnogi ar hyno bryd gan y Ganolfan arbenigedd Ffotoneg. Mae'r rhaglen hon yn helpu cwmnïau ar draws pob sector i dyfu a datblygu eu busnesau.
- 3.16 Nodwyd bod, wrth i Gymru gychwyn ar y 'Pedwerydd Chwyldro Diwydiannol' a thechnolegau fel "deallusrwydd artiffisial a chyfrifiadu cwantwm" ddod yn fwy cyffredin, yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y technolegau hyn yn cael eu defnyddio i osod sail ar gyfer pontio

i “economi isel ei defnydd o adnoddau”, a fyddai'n lleihau'r di-hysbyddu a diraddio sy'n digwydd i adnoddau naturiol, a'r llifau o nwyddau a gwasanaethau maent yn eu cefnogi.

- 3.17 Nodwyd hefyd fod gan Gymru fantais gymharol glir mewn gwyddorau bywyd. Gall maint cymharol fach Cymru fod yn fantais yn y maes hwn gan fod arloeswyr yn aml yn ei weld fel “maes profi ac iddo risg is ar gyfer arloesi cyn mabwysiadu ehangach.” Ymddengys hefyd fod y system yn ei chyfanrwydd yn fwy rhyng-gysylltiedig mewn ffordd nad yw gwledydd mwy efallai yn cael ei gyflawni. Mae hyn yn arwain at eglurder meddwl ar draws sefydliadau, a “chydlyniaeth a chysondeb” yn eu gweledigaeth a'u strategaethau y dylid manteisio arnynt.
- 3.18 Mae gan Gymru y sylfeini i fod yn arweinwyr byd-eang mewn atebion arloesol iechyd a gofal. Roedd Technoleg Iechyd Cymru yn nodi ei bod yn bwysig adnabod, addasu, ac ehangu prosesau arloesol sy'n arwain at iechyd a gofal effeithiol, cynaliadwy a theg a all wella ymhellach y system iechyd a gofal sy'n seiliedig ar werthoedd Cymru.
- 3.19 Fel ymatebwyr o'r trydydd sector, roedd amryw o ymatebwyr o'r sector cyhoeddus yn pwysleisio'r cryfderau o fewn gweithgynhyrchu uwch. Awgrymwyd felly y dylid canolbwyntio gweithgarwch ac adnoddau ar y maes hwn.
- 3.20 Mae angen canolbwyntio hefyd ar wneud busnesau yn wyrddach ac yn fwy effeithlon o ran ynni. Mae amaethyddiaeth yn sector mawr sydd wedi cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd. Felly, nodwyd y dylid canolbwyntio ar sut y gall Cymru ffermio mewn dulliau mwy cynaliadwy a gwyrddach a all barhau i gefnogi ffermwyr a'r amgylchedd. Pwysleisiwyd hefyd y dylid canolbwyntio ar yr adnoddau naturiol o fewn Cymru, megis cynhyrchu ynni adnewyddadwy, pren, gwllân, a sut y gallwn eu defnyddio mewn ffordd fwy cynaliadwy.
- 3.21 Yn unol â 'Cymru Sero Net' a'i ymrwymiad i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, roedd ymatebwyr o'r sector cyhoeddus yn pwysleisio pwysisgrwydd gweithredu ar unwaith i geisio gwrthdroi'r difrod i'r amgylchedd. Nodwyd sawl gwaith y dylai'r thema hon gael ei

hadlewyrchu drwy'r holl genadaethau. Er mai un o'r pedwar maes mawr o ran heriau y 'Carbon Isel, Ynni a'r Amgylchedd', mae'n dal angen iddo fod yn rhan annatod o'r tri arall. Nodwyd ymhellach y dylai targedau a chanlyniadau gwyrdd ddal i ffurfio rhan o'r meysydd her eraill gan fod ganddynt i gyd elfennau y gellir ymdrin â hwy. Dylid canolbwyntio gweithgarwch ac adnoddau mewn Gwyddorau Bywyd ac Iechyd, Uwch Beirianeg a Deunyddiau, a TGCh a'r Economi Ddigidol gan y gallant i gyd ymwneud â datgarboneiddio mewn rhyw ffurf neu'i gilydd.

Cwestiwn 6

Pa effaith, cadarnhaol neu negyddol, ydych chi'n credu bydd y Strategaeth Arloesi yn ei gael ar Gymru?

Sector Cyhoeddus: effaith cadarnhaol

- 3.22 Teimlai mwyafrif yr ymatebwyr o'r sector cyhoeddus y bydd y Strategaeth Arloesi yn cael effaith cadarnhaol ar Gymru. Roedd ymatebwyr yn tynnu sylw at yr amryw o fuddion cadarnhaol y bydd y strategaeth yn eu cael ar Gymru, gan gynnwys:
- Cymru'n ennill cydnabyddiaeth fyd-eang fel arweinydd byd-eang mewn arloesi, a sicrhau bod Cymru ar flaen y gad mewn datblygiadau newydd
 - Canolfannau rhanbarthol yn cydgysylltu arloesi mewn iechyd a gofal cymdeithasol
 - Mwy o gydweithio, rhannu gwybodaeth, a chreu syniadau
 - Cynnig arweiniad cyffredinol i ymchwil, datblygu ac arloesi ar draws pob sector economaidd, cyhoeddus a phreifat.
- 3.23 Roedd ymatebwyr eraill o'r sector cyhoeddus yn pwysleisio y bydd yr effaith o'r strategaeth yn gadarnhaol ac y bydd yn helpu wrth wthio twf economaidd yn ei flaen ac y bydd yn cynnig cyfleoedd i bobl sy'n byw yng Nghymru trwy ddefnyddio dulliau cydweithredol o arloesi. Yn ogystal, bydd y strategaeth yn helpu blaenoriaethu cyllid ymchwil a

datblygu academaidd, cynllunio seilwaith, hyfforddiant gweithleoedd, a chydnerthedd cyflogaeth. Dywedodd un ymatebydd y gall y strategaeth hefyd, os caiff ei gweithredu'n "gywir", gael effaith cadarnhaol ar hunan hyder a llesiant pobl. Pwysleiswyd hefyd y bydd y strategaeth, cyn belled ag y rhoddir yr un pwysigrwydd ar ofal cymdeithasol ag i ofal iechyd, yn parhau i gael effaith cadarnhaol ar Gymru.

- 3.24 Ar y lefel leol, roedd amryw o ymatebwyr o'r sector cyhoeddus fel Cyngor Sir Casnewydd yn cytuno y bydd y Strategaeth Arloesi yn cael effaith cadarnhaol iawn o fewn yr amrywiol leoliadau, cyn belled â bod dull cyson o gyd-gynllunio polisi a gweithio mewn partneriaeth. Crybwyllwyd y dylai'r strategaeth fod yn pwysleisio'r rôl sy'n rhaid i randdeiliaid lleol sydd â gwybodaeth gref o ystyriaethau micro-economaidd ei chwarae wrth gyfrannu at ddatblygiad arloesi a buddsoddi ynddo.
- 3.25 Roedd un ymatebydd o'r sector cyhoeddus yn pwysleisio y dylai'r Strategaeth Arloesi gael effaith cadarnhaol ar Gymru. Bydd entrepreneuriaeth yn cael ei annog, a dylai hyn arwain at gynnydd mewn busnesau bach a chanolig, a fydd yn ei dro yn helpu cynyddu adfywio economaidd. Cadarnhawyd hyn ymhellach gan Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, a oedd yn cydnabod bod gan y strategaeth y potensial am effaith cadarnhaol os bydd yn "ysgogi gweithgarwch sy'n datblygu busnesau bach a chanolig i arloesi ar gyfer tueddiadau yn y dyfodol." Byddai addysg uwch hefyd yn cael ei hybu gan yr angen am raglenni sgiliau hyfforddeiaethau, a phrentisiaethau newydd. Pwysleisiwyd y dylai pobl ifanc fod yn rhan greiddiol o'r strategaeth wrth i Gymru edrych tuag at "gymdeithas gynhyrchiol carbon isel", a datblygu poblogaeth fedrus sydd wedi ei haddysgu'n dda. Byddai Strategaeth Arloesi lwyddiannus yn arwain ymhellach at gynnydd mewn cyfleoedd swyddi yng Nghymru.

Sector Cyhoeddus: effeithiau negyddol

- 3.26 Dywedodd ychydig o ymatebwyr eu bod yn credu y gallai'r strategaeth gael effaith negyddol ar Gymru. Dywedodd un ymatebydd y bydd yn effeithio'n negyddol ar Gymru yn y tymor byr gan ei fod yn credu nad yw'r strategaeth yn cydnabod yn llawn nac yn adeiladu ar lwyfannau a rhwydweithiau cymorth arloesi sy'n bod eisoes, a'i bod yn "ymddangos fe pe bai'n creu rhai newydd yn eu lle." Ychwanegodd yr ymatebydd y dylai'r strategaeth geisio cryfhau'r gweithrediadau cymorth arloesi presennol gyda chwmpas diwygiedig sy'n unol â'r strategaeth a amlinellir ar gyfer y dyfodol. Byddai hyn yn rhoi budd ychwanegol o ran twf economaidd ac effaith ar sgiliau.
- 3.27 Mae gan y strategaeth arloesi y potensial o gael effaith cadarnhaol sylweddol os gellir sefydlu diwylliant o arloesi i gefnogi nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er yn cydnabod bod drafft presennol y strategaeth arloesi yn un lefel uchel, nodwyd ei fod yn rhy eang. Dywedodd un ymatebydd o'r sector cyhoeddus nad oes "manylder digonol" i roi gwybod sut y gweithredir y strategaeth a graddau'r effaith mae'n ceisio'i gyflawni. Yn ogystal, nodwyd ei bod yn aneglur sut y darperir adnoddau i'r strategaeth hon, gan fod rhai o'r grwpiau a'r sefydliadau blaenllaw a enwir yn y strategaeth yn dal heb gael eu sefydlu.
- 3.28 Nodwyd hefyd fod yr amcanion yn y strategaeth yn "rhy fras a heb fod yn SMART," heb ddim llinellau amser ar gyfer datblygu gweithgareddau. O ganlyniad i hyn, roedd un ymatebydd yn nodi ei bod yn "anodd" deall effeithiau cadarnhaol na chanlyniadau negyddol anfwriadol.

Sefydliadau Ymchwil a Sefydliadau Academaidd: effeithiau cadarnhaol

- 3.29 Dywedodd amryw o sefydliadau ymchwil a sefydliadau academaidd eu bod yn credu y byddai Strategaeth Arloesi sy'n canolbwyntio ar set o ganadaethau allweddol, wedi ei seilio ar ddealltwriaeth o weithredwyr, asedau a rhaglenni o waith, yn ddiarnheuol o gael effaith cadarnhaol ar Gymru.

- 3.30 Roedd effeithiau cadarnhaol a nodwyd gan sefydliadau ymchwil a sefydliadau academaidd yn cynnwys:
- Mwy o ffyniant economaidd yng Nghymru
 - Sefydlu a chynnal arferion arloesol a dulliau y tu allan i gyfyngiadau strategaeth
 - Cynyddu cryfderau sy'n bod eisoes ac efelychu arloesi pellach.
- 3.31 Nodwyd y byddai buddion dull o'r fath yn bellgyrhaeddol, yn cwmpasu buddion economaidd uniongyrchol ac anuniongyrchol, gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus, buddion gweladwy ar fywydau pobl o ganlyniad o arloesi'n canfod atebion i'r problemau mae cymdeithas yn eu hwynebu, a chryfhau lle Cymru yn y byd. Yn ogystal, amlygwyd bod cyfle i helpu hyrwyddo diwylliant o arloesi ac un sy'n cydnabod y dylai fod goddefgarwch o fethiant mewn ecosystem arloesol. Fodd bynnag, nodwyd bod risgiau sylfaenol i'r dull hwn. Pwysleisiwyd gan Brifysgolion Cymru y gallai'r Strategaeth Arloesi ganolbwyntio naill ai'n "rhy gul ar ba gweithgarwch yn dylid ei gefnogi, neu'n rhy eang ar draws amrywiaeth o nodau". Gallai'r ddau ddull hyn leihau llwyddiant y strategaeth. Awgrymwyd y dylid, er mwyn lleihau'r risg hwn, gweithredu cydgynhyrchu gyda phartneriaid ar draws yr ecosystem ymchwil ac arloesi, yn ogystal â sefydlu darlun clir y bydd gwahanol rannau Llywodraeth Cymru yn ei chwarae wrth ei chyflawni.

Sefydliadau Ymchwil a Sefydliadau Academaidd: effeithiau negyddol

- 3.32 Roedd amryw o sefydliadau academaidd yn codi pryderon ac effeithiau negyddol posibl y gallai'r strategaeth eu cael ar Gymru. Nodwyd amryw o weithiau nad oes dim ffrâm amser i'r strategaeth bresennol, dim blaenoriaethau na fframweithiau clir, dim diffiniad o arloesi, dim themâu trawsbynciol ar y gwahanol ffyrdd o arloesi ac mae'n "rhy hir". Crybwyllwyd hefyd nad yw'r strategaeth yn cydnabod llwyfannau a rhwydweithiau presennol i gefnogi arloesedd, ond yn ymddangos yn hytrach fel pe bai'n "creu rhai newydd". Os bydd i'r strategaeth y nod o gryfhau'r gweithrediadau presennol a gyllidir gyda

gwell cylch gwaith yn unol â'r Strategaeth Arloesi a amlinellir ar gyfer y dyfodol, yna bydd buddion ychwanegol yn cael eu teimlo mewn twf economaidd ac effaith ar sgiliau.

- 3.33 Yn ogystal, amlygwyd bod y potensial i sectorau a chymunedau gwledig na chaiff eu crybwyll na'u blaenoriaethu yn ddiamwys beidio ag elwa o'r strategaeth. Roedd un sefydliad ymchwil yn nodi bod risg o beidio â "chodi'r gwastad" mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru lle bydd angen cymorth wrth adeiladu capasiti. Dylai'r strategaeth gydnabod nad yw pob ardal yn gyfartal a bod "anghyfartaledd strwythurol" o fewn economi Cymru, yn ogystal ag economi ehangach y Deyrnas Unedig. Roedd ymatebydd ychwanegol yn nodi bod rhai dinasoedd yn ne Cymru yn cael eu crybwyll fwy na 10 gwaith drwy gydol y ddogfen, fodd bynnag, nid oedd dinasoedd yn y gogledd ond yn cael eu crybwyll ychydig o weithiau. Er mwyn i'r Strategaeth Arloesi gael effaith cadarnhaol ar Gymru, rhaid iddi adlewyrchu'r amrywiaethau rhanbarthol a sicrhau bod yr hyn a gyflawnir yn cael ei ddosbarthu'n gyfartal.

Trydydd Sector a'r Sector Preifat: effeithiau cadarnhaol

- 3.34 Roedd effeithiau cadarnhaol a nodwyd gan y trydydd sector a'r sector preifat yn cynnwys:
- Mwy o fuddsoddiad cyhoeddus a phreifat yng Nghymru
 - Mwy o gyllid ymchwil a datblygu yn llifo i Gymru
 - Unigolion medrus iawn yn dod i Gymru i weithio mewn sectorau a chyfrannu at yr ecosystem arloesi
 - Sector busnesau bach a chanolig cryfach ac arloesol
 - Cynnydd yng nghyllid llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n debygol o drosoli buddsoddiad preifat ychwanegol a chwistrellu bwrlwm i'r sector busnesau bach a chanolig arloesol yng Nghymru
 - Ennill cydnabyddiaeth fyd-eang mewn arferion arloesol

- 3.35 Awgrymwyd ei bod yn hanfodol, os yw'r strategaeth i gael effaith cadarnhaol ar ymchwil yng Nghymru, fod Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â bylchau mewn cyllid sy'n hanesyddol wedi dal ymchwil a datblygu yn ôl yng Nghymru.
- Trydydd Sector a'r Sector Preifat: effeithiau negyddol*
- 3.36 Roedd cytundeb cyffredinol fod angen i'r strategaeth, er mwyn manteisio i'r eithaf arni, gyfleu'n gryf pam ei bod yn bwysig ar hyn o bryd. Dywedodd un ymatebydd ein bod yn byw yn yr hyn mae llawer wedi ei ddisgrifio fel "Oes Argyfwng" gydag argyfyngau lluosog yn digwydd yr un pryd, gan gynnwys argyfyngau costau byw ac economaidd, yr argyfyngau hinsawdd a natur, ac argyfwng yn y systemau iechyd a gofal cymdeithasol. Nid yw 'busnes fel arfer' yn ddewis ac ni all ddatrys y problemau hyn. Nodwyd bod angen i Gymru gyfan ddod at ei gilydd ar draws sectorau i ddatblygu atebion arloesol sy'n diwallu anghenion pobl ar hyn o bryd ac yn fwy hirdymor.
- 3.37 Nodwyd gan ymatebydd o'r trydydd sector, wrth gydnabod y gwaith a wnaed yng Nghymru ar arloesi ers 2014, fod angen adolygu natur, perthnasedd ac ansawdd y dull hwn. Dylid cofleidio dull mwy eang ei sail i gynnwys systemau. Roedd un ymatebydd o'r trydydd sector yn nodi bod diffyg cydnabyddiaeth fod angen i hyn ddigwydd hefyd ar lefel llunio polisïau, lefel wleidyddol, ac o fewn sefydliadau llywodraeth. Dywedwyd bod yn rhaid i'r diwylliant a briodolir i weision cyhoeddus ac asiantaethau llywodraeth ledled y Deyrnas Unedig fel "lladd-dai arloesi" newid, ac y dylent gael eu gweld fel "pwerdai arloesi". Nid yw arloesi'n rhywbeth y gellir ei gymryd yn ganiataol, gan ei fod yn sgil sydd angen iddo gael ei ddatblygu mewn unigolion. Mae'n ddiwylliant sydd angen iddo gael ei adeiladu i mewn o bob agwedd o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, yn enwedig wrth lunio polisïau ac mewn cyrff/asiantaethau cyllid. Gydag arloesi daw risg, ac mae'r ddau yn annatod gysylltiedig. Yr hyn a bwysleisiwyd oedd, os na fydd y strategaeth yn ei gwneud yn glir fod y risg hwn yn cael ei ddeall a'i dderbyn fel rhan annatod o arloesi, yna, ni fyddwn yn cyflawni "arloesi sy'n creu effaith".

- 3.38 Pwysleisiwyd ymhellach gan ymatebydd o'r trydydd sector fod angen ymrwymiad cryf gan yr holl bartneriaid er mwyn sicrhau bod y canlyniadau o arloesi yn cael effaith cadarnhaol hirdymor. Fel arall, mae i'r strategaeth y risg o arloesi heb gyfeiriad nac ystyriaeth. Awgrymwyd bod gan "gyfraniad dinasyddion wrth cyd-gynllunio a darparu gwasanaethau arloesol, yn ogystal ag arloesi dan arweiniad y gymuned", ran fawr i'w chwarae wrth greu'r atebion sydd ar Gymru eu hangen. Fodd bynnag, nodwyd ei bod yn bwysig fod tryloywder ac atebolrwydd wrth fonitro'r Strategaeth, gan y bydd hyn yn ein galluogi ni i ddysgu beth sy'n gweithio fwyaf effeithiol, yn ogystal â dal y llywodraeth i gyfrif wrth wario arian cyhoeddus.

Cwestiwn 7

Pa gamau gweithredu newydd sydd angen deillio o'r Strategaeth Arloesi?

Sector Cyhoeddus

- 3.39 Mae i arloesi y potensial o arwain at gynnydd mewn swyddi a chyfleoedd a all wella a datblygu cymunedau lleol ymhellach a chynnig cyfleoedd am waddol. Er mwyn i hyn ddigwydd, dywedodd ymatebwyr o'r sector cyhoeddus y dylai'r strategaeth ganolbwyntio ar fesurau mesuradwy ac ystyrlon, ymrwymadau cryf, tryloywder, arweiniad gwleidyddol cryf, a chynnwys pobl leol ar bob lefel. Dywedodd un ymatebydd o'r sector cyhoeddus y dylai'r strategaeth ymdrin â lle bo bwlch sgiliau ar hyn o bryd, a pha swyddi a sgiliau fydd eu hangen yn y dyfodol.
- 3.40 Nodwyd bod angen i Strategaeth Arloesi newydd i Gymru gael ei seilio ar naratif cryf a chynhwysol a all weithredu fel catalydd ar gyfer gweithgarwch, gan hyrwyddo'r agenda arloesi, a'r genedl. Yn ogystal, dylai'r camau newydd sydd eu hangen ar gyfer y strategaeth gynnwys:

- Canolbwyntio ar fuddsoddi yn y sgiliau, galluoedd, ac adnoddau sydd eu hangen i gefnogi arloesi i bawb, gan gynnwys busnesau bach a chanolig
- Cenadaethau mwy penodol a mesuradwy sy'n ymateb i anghenion strategaethau presennol Llywodraeth Cymru, yn hytrach nag eistedd law yn llaw â hwy
- Mwy o bwyslais ar ymchwil ac arferion arloesol mewn gofal cymdeithasol, a rhoi'r un faint o bwysigrwydd i ofal cymdeithasol ag i ofal iechyd
- Gweithredu adolygiad Reid
- Ymrwymiadau mwy hir dymor i raglenni allgymorth STEM
- Cefnogi datblygiad capasiti mwy o arloesi sy'n troi o gwmpas cenadaethau ac sy'n cynnwys pob sector a mynd i'r afael â heriau cymdeithasol.

3.41 Argymhellwyd hefyd rhoi, o dan bob un o'r cenadaethau, ystyriaeth gyfartal i ymchwil a datblygu a gwasgaru arloeseddau a brofwyd, ac y dylid gosod nodau penodol i ddangos sut mae Cymru'n lleihau'r amser mae'n ei gymryd i syniadau a brofwyd gael eu mabwysiadu ar raddfa fawr. Argymhellwyd hefyd rhoi adnodd penodol ar waith gyda'r sgiliau, arbenigedd a'r wybodaeth iawn i helpu gwasgaru ar draws pob cenhadaeth.

3.42 Cafodd pwysigrwydd naratif a chyfleu hunaniaeth "ddilys ac unigryw" ei grybwyll hefyd gan ymatebydd o'r sector cyhoeddus a'i amlygu fel agwedd allweddol o'r strategaeth. Nodwyd y dylai'r naratif hwn ddeillio o'r gwerthoedd a'r dyheadau sydd wrth wraidd Strategaeth Arloesi i Gymru, a llywio'r gwerthoedd a'r dyheadau hynny. Mae angen i strategaeth arloesi i Gymru ddangos rhai o'r ffyrdd posibl y gallai gweithredwyr y tu hwnt i Lywodraeth Cymru gyfrannu at yr agenda cenedlaethol hwn. Er enghraifft, nodwyd bod y fframio helix triphlyg, neu'r dull MIT REAP ill dau yn nodi'r rolau allweddol a chwaraeir gan amrywiaeth o weithredwyr mewn ecosystemau arloesi. Gallai Cymru gyfleu ei hun fel pair arloesi yn yr ystyr ehangach, i sicrhau buddsoddiad yn well ac annog a chefnogi gweithgarwch arloesi.

Byddai angen i'r naratif felly gydnabod yr amrywiaeth helaeth o weithredwyr – a gweithredwyr posibl – a dangos effaith arloesi. Byddai hyn yn cyfrannu at fwy o ymwybyddiaeth o botensial arloesi, a meithrin teimlad o berthyn a chynhwysiant. Dylai naratif arloesi Cymru fod wedi'i wreiddio mewn realiti ac adlewyrchu'r gwerthoedd a graddau'r uchelgais sydd eiu hangen i weld newid sylfaenol yn niwylliant arloesi a gweithgarwch arloesi Cymru.

- 3.43 Roedd ymatebwyr hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cydweithio. Roedd amryw o ymatebwyr yn awgrymu gosod strwythurau ar waith sy'n meithrin dulliau cydweithredol i academia, entrepreneuriaid, Llywodraeth, busnesau bach a chanolig, a diwydiant eu defnyddio i hyrwyddo strategaeth uchelgeisiol sydd, yn ogystal â bod yn gynhwysol, hefyd yn helpu datblygu cyfleoedd newydd am dwf yng Nghymru.

Sector Preifat

- 3.44 Roedd ymatebwyr o'r sector preifat yn nodi bod angen amryw o gamau gweithredu newydd ar gyfer y strategaeth. Dywedodd amryw o ymatebwyr fod angen i'r strategaeth annog arloesi gan gymryd risgiau uwch. O ran y llawer o drafodaethau ynghylch creu Deddf yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar 2022, mae rôl i ymchwil a datblygu ac iddo risg uwch a all alluogi newidiadau sylfaenol men gallu technoleg ar draws sectorau lluosog yng Nghymru. Awgrymwyd gan Ganolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch (AMRC), y byddai'n fuddiol cychwyn deialog gyda'r Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar ar y cyd â phrifysgolion blaenllaw Cymru a'r ecosystem ehangach i ddatblygu rhaglenni a allai fod i fudd i Gymru a'r Strategaeth Arloesi hon.
- 3.45 Pwysleisiwyd hefyd y dylai'r strategaeth roi cymorth ychwanegol i'r gymuned busnesau bach a chanolig, ac y dylid rhoi mwy o bwysau i "annog galluoedd a chymwyseddau arloesi" cymunedau busnesau micro a busnesau bach a chanolig arloesol yng Nghymru. Awgrymwyd gan un ymatebydd y byddai canolbwyntio ar dwf a

chymorth busnesau bach “mewndarddol” sy’n bod eisoes o fudd i bawb, gan fod y busnesau hyn yn debygol o fod â gwreiddiau dwfn yng Nghymru, ac o’u meithrin, yn debygol o ddod yn llwyddiannau hirdymor i economi Cymru. Yn ogystal, mae’r busnesau cynhenid hyn hefyd yn debygol o annog y genhedlaeth nesaf o arloeswyr ac entrepreneuriaid.

- 3.46 Yr hyn a awgrymwyd gan un ymatebydd o’r sector preifat oedd, yn hytrach na defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol fel y fframwaith ar gyfer yr holl strategaeth, y gallai fod ar Lywodraeth Cymru eisiau edrych ar gyflwyno’r strategaeth yn ffurf y daith arloesi, neu’r ecosystem arloesi, gan y gallai hyn helpu datblygu dogfen strategaeth fwy ystyrlon.

Sefydliadau Ymchwil a Sefydliadau Academaidd

- 3.47 Roedd amryw o sefydliadau academaidd yn nodi eu bod wedi gweld tanfuddsoddi sylweddol mewn ymchwil yng Nghymru o gymharu â lleoedd eraill yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn wedi arwain at golli capasiti sylweddol mewn staff ac ymchwil ac wedi arwain at leihad mewn incwm grant. Yr hyn a bwysleisiwyd oedd, er mwyn i arloesi fod yn llwyddiannus, mae angen gwrthdroi’r tueddiad hwn. Mae prifysgolion yn chwarae rhan fawr wrth gyflawni nodau ymchwil, datblygu ac arloesi. Mae cefnogi gweithgarwch ar draws yr holl sefydliadau hyn yn bwysig o safbwynt y gwahanol sectorau sgiliau ac arbenigedd ymchwil / arloeis, ac mae hefyd yn helpu cynyddu ffyniant a gweithgarwch rhanbarthol. Mae angen cefnogaeth i adeiladu a hwyluso diwylliant ymchwil y tu allan i brifysgolion, ond mewn cydweithrediad â sefydliadau addysg uwch. Nodwyd ymhellach fod cyllid ymchwil, datblygu ac arloesi ar wahân i Gymru yn hanfodol i’w lwyddiant er mwyn dylanwadu ar ymddygiadau ac annog arloesi, yn ogystal â chefnogi’r pontio oddi wrth gyllid yr Undeb Ewropeaidd.
- 3.48 Nodwyd bod, trwy’r cenadaethau, botensial i’r Strategaeth Arloesi fynegi’n well y problemau mae Cymru’n eu hwynebu, a sut y bydd y

strategaeth yn trefnu adnoddau i fynd i'r afael â'r problemau hyn. Mae potensial i ystyried heriau gan gynnwys ynni, gweithgynhyrchu uwch, digidol, cyfryngau a diwylliant, iechyd y boblogaeth, a Sero Net. Nodwyd y dylai'r Strategaeth Arloesi sefydlu mecanweithiau cyllido a fydd yn cynnig cymorth i adeiladu ar raglenni a galluoedd presennol sydd â swyddogaeth glir wrth hyrwyddo economi werdd a chyflawni Sero Net. Mae hyn yn hanfodol, gan fod y meysydd ymchwil hyn wedi dibynnu'n drwm ar gymorth yr Undeb Ewropeaidd.

- 3.49 Wrth gytuno ag ymatebwyr o'r sector preifat, roedd ymatebwyr academiaidd yn nodi y dylai'r strategaeth ehangu ar gymorth i arloesi mewn busnesau bach a chanolig. Mae hyn yn cynnwys rôl partneriaid megis prifysgolion mewn hwyluso'r gweithgarwch hwnnw trwy glystyrau o fusnesau bach a chanolig lluosog.

Trydydd Sector

- 3.50 Dywedodd ymatebwyr o'r trydydd sector y dylai'r camau newydd sydd eu hangen ar gyfer y strategaeth arloesi gynnwys:

- Diffiniad o'r hyn a olygir gan arloesi, a sut y caiff ei fesur yn gywir
- Parhau i ganolbwyntio ar ddulliau arloesol o ddatgarboneiddio
- Deall pwysigrwydd arloesi, a pham mai dyma yw'r "un symbylydd pwysicaf er mwyn cynnal twf eithriadol"
- Dealltwriaeth gliriach o'r hyn mae Cymru'n ceisio ei gyflawni ym mhob sector, a lle mae'r genedl yn ei gweld ei hyn yn yr arena ryngwladol
- Cymorth ymarferol i adeiladau'r sgiliau, capasiti, a rhwydweithiau i gynyddu arloesi ar draws y sector gwirfoddol
- Dyheadau clir o effaith (awgrymwyd y gellid denfyddio model llinell amser trogyrch ar sail risg er mwyn cynnal y gallu i addasu'r strategaeth yn y dyfodol)
- Llinell amser glir o pryd y bydd y mesurau'n cael eu gweithredu.

Cwestiwn 8

Pa agweddau ar y Strategaeth Arloesi dylai aros yr un fath?

- 3.51 Dywedodd ymatebwyr fod y strategaeth bresennol yn gynhwysfawr ac yn ymdrin yn helaeth â meysydd sy'n annog datblygu sgiliau, a throsglwyddo gwybodaeth. Roedd ymatebwyr yn canmol y Rhaglen Arloesedd SMART am ei gwaith, ac am ei bod yn gyfarwydd â chymunedau busnes lleol. Awgrymodd dau ymatebydd y dylai'r Rhaglen barhau i ddarparu cyllid strwythuredig ar gyfer prosiectau arloesol bach i ganolig mewn ardaloedd lleol a fyddai fel arall yn colli cyfleoedd o'r fath oherwydd bod mwy o adnoddau gan sefydliadau mwy o fewn yr un ardal leol.

Ymatebwyr o'r sector cyhoeddus

- 3.52 Dywedodd ymatebwyr o'r sector cyhoeddus fod y meysydd a ddylai aros yr un fath yn cynnwys y pwyslais ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y gwelliannau a'r canlyniadau cadarnhaol o'r ymchwil, datblygu ac arloesi, sgiliau, a'r raglen gyfoethogi STEM a gyllidir. Dywedodd un ymatebydd ei fod yn croesawu'r ymrwymiad i raglenni allgymorth newydd STEM, gan fod gwelliannau i weithgarwch presennol STEM, a chreu gweithgarwch newydd, yn hanfodol er mwyn i Gymru barhau i fod yn arloesol. Nodwyd ymhellach y dylai cydweithio barhau i ddigwydd rhwng y cyfleusterau ymchwil sector cyhoeddus, megis AMRC ac M-SParc, a'r cyfleusterau cynllunio preifat megis Design Reality.

Sefydliadau Ymchwil a Sefydliadau Academaidd

- 3.53 Roedd sefydliadau ymchwil yn cytuno bod, yn gyffredinol, yr ymrwymiad i arloesi a'r gydnabyddiaeth fod hyn yn fodd o wella sefyllfa Cymru yn cael ei ddangos a'i fynegi'n dda yn y strategaeth. Nodwyd bod y strategaeth yn cydnabod y cysylltiad rhwng arloesi, twf economaidd, ac amddiffyn cydraddoldeb cymdeithasol a'r amgylchedd. Mae'r dull integredig hwn yn meithrin cydweithio ac yn

rhannu cyfrifoldeb ar draws llywodraeth, busnesau, y trydydd sector, academia, a gweddill cymdeithas sifil. Argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru barhau i flaenoriaethu cydweithio a sicrhau bod gweithio ar y cyd yn cael ei gymell ar draws y meysydd ymchwil a datblygu.

- 3.54 Gan gytuno â'r sefydliadau ymchwil, roedd ymatebwyr o'r trydydd sector yn nodi eu bod yn falch o weld pwyslais clir ar gynhwysiant digidol yn y cynnig, gan gynnwys rhoi sylw i dlodi digidol a'r angen i adeiladu seilwaith digidol cadarn yng Nghymru.

Cwestiwn 24

Ydych chi'n credu y byddai'r Strategaeth Arloesi hon yn cael effaith gadarnhaol arnoch chi? Os nad ydych chi, sut gellid newid hyn?

Ymatebwyr Sector Preifat

- 3.55 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r sector preifat yn cytuno y byddai'r Strategaeth Arloesi yn cael dylanwad cadarnhaol arnynt eu hunain ac ar eu busnesau. Fodd bynnag, nodwyd gan amryw o ymatebwyr fod risg sylweddol y gallai'r Strategaeth Arloesi effeithio'n negyddol ar fusnesau bach a chanolig sy'n darparu cynhyrchion a gwasanaethau arloesol yng Nghymru. Roedd ymatebwyr yn pwysleisio fod angen mwy o fanylder ar gymorth i fusnesau bach a chanolig, a chymorth wedi'i deilwra i fusnesau sy'n cychwyn. Nodwyd hefyd fod angen i'r strategaeth fynd ymhellach o ran cyllid penodol i ddysgu efelychiadol, law yn llaw ag ystyriaeth o'r "gofynion rheoliadol sy'n ymwneud â dysgu efelychiadol."

Ymatebwyr Sector Cyhoeddus

- 3.56 Roedd consensws ymysg ymatebwyr o'r sector cyhoeddus y byddai'r strategaeth yn cael dylanwad cadarnhaol. Byddai Strategaeth Arloesi genedlaethol i Gymru yn creu cyfeiriad cyffredin i arloesi ar draws partneriaethau a sefydliadau mae llawer o'r ymatebwyr o'r sector

cyhoeddus yn gweithio gyda hwy. Nodwyd ymhellach y bydd y strategaeth yn helpu gosod blaenoriaethau a thargedau cenedlaethol y gall partneriaid gweithedu a busnesau arloesi weithio tuag atynt. Roedd Technoleg Iechyd Cymru yn pwysleisio bod ganddynt y cyfle ar hyn o bryd i fod yn “rym canolog a sylfaenol” yn llwyddiant y Strategaeth Arloesi, a bod ganddynt, trwy chwarae rôl allweddol wrth ei gweithredu ac wrth gydweithio ag eraill, y potensial i “dyfu mewn maint a dylanwad”. Mae pwysigrwydd asesu tystiolaeth wrth gynllunio, cyflawni a gwerthuso effaith arloesi ar iechyd a llesiant pobl yng Nghymru yn allweddol er mwyn dangos gwerth ac effaith.

- 3.57 Dywedodd ymatebydd arall y gall cysoni negeseuon allweddol ynghylch arloesi ledled Cymru effeithio'n gadarnhaol ar ranbarth gogledd Cymru trwy greu'r ddealltwriaeth y “dylid dathlu arloesi o fewn yr economi sylfaenol.” Fodd bynnag, pwysleisiwyd hefyd, y bydd, er mwyn i hyn ddigwydd, angen i amrywiaeth helaeth o bartneriaid a sefydliadau helpu gweithredu'r strategaeth hon. Byddai cydgynhyrchu'r camau nesaf, a helpu partneriaid allweddol i gydweithio, yn galluogi Llywodraeth Cymru i ymateb yn effeithiol i ddisgwyliadau ei phartneriaid, darganfod pa faes y dylid canolbwyntio adnoddau arno er mwyn helpu cyflawni uchelgais y strategaeth, a chael dealltwriaeth glir o'r canlyniadau a'r effeithiau disgwyliedig.

Sefydliadau Ymchwil a Sefydliadau Academaidd

- 3.58 Roedd ymatebion cymysg gan y rheini o fewn y disgyblaethau ymchwil ac academaidd. Dywedodd llawer o'r gwyddonwyr a oedd yn gweithio mewn academia eu bod yn credu y byddai'r strategaeth yn cael effaith cadarnhaol arnynt. Cadarnhawyd hyn ymhellach gan Brifysgol De Cymru a ddywedodd eu bod fel prifysgol yn canolbwyntio ar gymunedau, yn cael eu harwain gan effaith a bod arnynt eisiau i'w hymchwil “fod o fudd yn y byd go-iawn”. Mae cynyddu gweithgarwch, cyllid a chyfleoedd mewn amgylchedd hygyrch a chynhwysol o arloesi i gyd yn fuddion posibl. Fodd bynnag, dywedodd Prifysgol De Chymru mai cyflawni hyn yn ymarferol yw'r “her fwyaf” gan fod meysydd llai o ddatblygu yn cael eu hanwybyddu'n aml. Roedd y brifysgol yn

pwysleisio pwysigrwydd mynd ati o ddifrif i adeiladu capasiti a gallu ar draws pob maes, nid dim ond y rheini sy'n rhagori mewn arloesi.

3.59 Er mwyn gwella'r strategaeth, roedd Prifysgol Caerdydd yn awgrymu y gellid rhoi ystyriaeth bellach i'r materion canlynol:

- Dylai'r strategaeth ddrafft ddiffinio cwmpas arloesi, miniogi'r cwmpas gweithredu, ac esbonio'n glir y gwerth ychwanegol mae arloesi yn ceisio ei gyflawni ar ben gweithgarwch sy'n digwydd ar hyn o bryd
- Mae angen i'r strategaeth gyfateb i'r adnoddau sy'n debygol o fod ar gael mewn ffordd dryloyw fel ei bod yn ddilys a chredadwy
- Gallai datblygu ffurf newydd o "gytundebau canlyniadau Arloesi" fod yn fframwaith defnyddiol i gysylltu cyflawni uchelgeisiau o fewn y strategaeth â chyllid i'w gefnogi
- Byddai mireinio a symleiddio'r mesurau cynnydd / amcanion yn y strategaeth hefyd yn fanteisiol
- Dylid ystyried ymhellach y cysylltiad â gweithgarwch y Deyrnas Unedig, yn enwedig o ran cymell trosoli gwariant Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y wlad yn gallu cipio adnoddau ychwanegol, megis cyllid UKRI, er budd arloesi yng Nghymru.

Cwestiwn 25

Law yn llaw â'r strategaeth derfynol, rydym am gyhoeddi cynllun gweithredu fydd yn delio ag adnoddau'r strategaeth a sut y caiff ei rhoi ar waith. Bydd gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ran bwysig i'w chwarae o ran rhoi'r strategaeth ar waith, felly hefyd Llywodraeth Cymru a chyrff a phartneriaid eraill. Nid oes gan Gymru ar hyn o bryd un corff arwain sy'n gyfrifol am drefnu a chynnal ein system arloesi. Sut hoffech chi weld y strategaeth hon yn cael ei rhoi ar waith?

Ymatebwyr unigol

- 3.60 Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr eu bod yn credu y byddai'n fuddiol i gael corff arweiniol a/neu gweithredu strwythur llywodraethu. Dywedodd ymatebwyr y gallai hyn gynnwys bwrdd o aelodau o amrywiaeth o sectorau a rhanbarthau o fewn Cymru a ddelir yn atebol gan y cyhoedd yn gyffredinol. Mae busnes preifat yn sylfaenol i lawer o elfennau allweddol y strategaeth hon er mwyn iddi gael ei chreu a'i gweithredu'n llwyddiannus. Gan y dylai'r corff arweiniol hwn fod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, roedd ymatebwyr yn cytuno y dylid dod â grŵp at ei gilydd sydd wedi ei ffurfio o weithredwyr allweddol arloesi yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y sefydliadau addysg, academia, sectorau cyhoeddus a phreifat, a chynrychiolwyr o grwpiau elusenol.
- 3.61 Roedd ymatebwyr yn pwysleisio bod angen i swyddogaethau a chyfrifoldebau'r corff arweiniol hwn fod yn eglur a chryno, ac roeddent yn nodi hefyd y dylid cyhoeddi'r gweithdrefnau monitro a gwerthuso megis y graddfeydd amser, cyfrifoldebau, cyllidebau a'r agenda ac y dylent fod ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol.

Ymatebwyr Sector Preifat

- 3.62 Roedd consensws ymysg ymatebwyr o'r sector preifat y byddai gweithredu corff arweiniol yn fecanwaith defnyddiol i oruchwylio

cwblhau'r strategaeth hon. Nodwyd y dylai Llywodraeth Cymru benodi partner cyflawni arweiniol ym mhob rhanbarth i gydgyssylltu arloesi diwydiannol a gweithgareddau digideiddio o dan frand cyffredin. Roedd un ymatebydd o'r sector preifat yn awgrymu y dylai'r strategaeth sefydlu byrddau rhanbarthol sy'n cynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol i "oruchwylio a chydgyssylltu" ymdrechion cyflawni. Nodwyd bod model o'r fath eisoes wedi cael ei sefydlu yng ngogledd-orllewin Lloegr.

3.63 Pwysleisiwyd y gallai corff arloesi cenedlaethol helpu:

- Rhoi cefnogaeth weithgar i sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat i ddatblygu "galluoedd intrapreneuraidd" ac chynyddu gallu arloesi i fanteisio ar syniadau a chyfleoedd newydd
- Rhoi cyngor a chanllawiau ynghylch buddion a chymhellion cyflawni arloesi gan gynnwys credydau treth ymchwil a datblygu, tegwch grantiau, a chyllid seiliedig ar ddyledion
- Creu'r "meinwe cysylltiol" rhwng sectorau, sefydliadau a llywodraeth, i gysoni ymdrechion arloesi er mwyn datrys problemau cymdeithasol cyffredin o fewn cwmpas Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

3.64 Mynegwyd pryder gan ychydig o ymatebwyr nad oedd dim sôn am gynrychiolaeth diwydiant wrth weithredu'r strategaeth. Roedd ymatebwyr yn cytuno y dylid dod â grŵp at ei gilydd wedi ei ffurfio o weithredwyr allweddol arloesi yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys addysg, academia, sefydliadau sector cyhoeddus a sector preifat, busnesau bach a chanolig, entrepreneuriaid, a chynrychiolwyr o grwpiau elusennol.

Ymatebwyr Sector Cyhoeddus

3.65 Roedd cytundeb cyffredinol ymysg ymatebwyr o'r sector cyhoeddus y gallai corff canolog a fyddai'n gyfrifol am arloesi o fewn Cymru gynnig mwy o gydlyniaeth a chymorth o safbwynt sefydlu mwy o gydweithio

ledled Cymru. Gan gytuno ag ymatebwyr o'r sector preifat, dywedodd un ymatebydd y byddai creu corff sengl, a fyddai'n cynnwys pob rhanbarth yng Nghymru, cynghorau, prifysgolion, busnesau, busnesau bach a chanolig, elusennau a llywodraeth, gyda phob un ohonynt yn gyson yn eu hamcanion, yn sicrhau'r uchafswm o fudd i gymunedau Cymru. Fodd bynnag, nid yw unrhyw un maint yn addas i bawb, ac mae rhoi corff o'r fath ar waith yn golygu her wirioneddol. Rhaid i amcanion cyrff canolog gael eu cydgysylltu er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon i gyrraedd nodau sy'n gydnaws â'i gilydd, a rhannu arferion effeithiol. Awgrymwyd bod angen gweithredu gofal mawr er mwyn osgoi haen arall o reolwyr a "biwrocratiaeth a chost", ac adnoddau'n cael eu dyrannu yn annheg gan y partneriaid mwy ac uwch eu cloch.

- 3.66 Nodwyd Fframwaith Economaidd Rhanbarthol y de-orllewin, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2021, yn galw am "dull cydgyhyrchu o lywodraethu a chyflawni." Byddai hyn yn golygu cydweithio rhwng y rhanddeiliaid allweddol o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ar sail ranbarthol. Awgrymwyd y gallai Cyd-bwyllgor Corfforaethol (CBC) de-orllewin Cymru weithredu fel "cyfrwng" ar gyfer y dull cydgyflawni hwn ar gyfer system arloesi newydd, gan y byddant yn gweithio ar y cyd â phartneriaid ar hyd a lled y rhanbarth er mwyn sicrhau bod de-orllewin cynaliadwy a llwyddiannus.
- 3.67 Crybwyllwyd hefyd sawl gwaith ei bod yn hanfodol penderfynu ar gynllun gweithredu ar gyfer cyd-drafod â busnesau bach a chanolig, entrepreneuriaid, a'r rheini efallai na fyddai'n gweld arloesi fel rhywbeth perthnasol iddynt hwy, a chysylltu â hwy. Dylai cyfathrebu a negeseuon allweddol chwarae rhahn allweddol mewn cynlluniau gweithredu. Mae deall sut y caiff arloesi ei gyfleu yn bwysig wrth greu'r ecosystem ar gyfer arloesi ac entrepreneuriaeth.
- 3.68 Roedd ymatebwyr o'r sector cyhoeddus yn cytuno y bydd rôl y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i oruchwylio sail cadarn ar gyfer ymchwil ac arloesi a diwallu anghenion sgiliau Cymru yn gwbl

sylfaenol i weithredu'r strategaeth hon. Roedd un ymatebydd yn awgrymu na ddylai'r strategaeth bennu cynllun gweithredu, ond yn hytrach gyflwyno "lefelau addas o flaenoriaethau strategol a chyllid" i'r Comisiwn i alluogi i ddangos sut mae darparwyr addysg drydyddol yn cyflawni ar sail datganiad blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg drydyddol.

Sefydliadau Ymchwil a Sefydliadau Academaidd

- 3.69 Roedd amryw o sefydliadau ymchwil ac academaidd yn nodi mai'r prif anghenraid ar gyfer gweithredu'r system arloesi yw bod yn rhaid i'r sefydliadau partner yn y corff arweiniol gael profiad o fewn y sectorau maent yn eu targedu, fel bod cynlluniau'n cael y siawns orau bosibl o weithio. Bydd gweithredu'r strategaeth hon yn golygu her. Heb gydgysylltu canolog, a gyda llawer o benderfyniadau yn cael eu gwneud yn lleol, bydd ei gwerth yn cael ei thanseilio'n hawdd. Pwysleisiwyd y gallai corff arloesi cenedlaethol fod yn ddefnyddiol ar gyfer adnabod cyfleoedd, cyfleu syniadau, a chydgyssylltu a cefnogi datblygiad mentrau ar raddfa fwy.
- 3.70 Nodwyd hefyd y dylai'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil chwarae rhan bwysig o ran cynnull yr amrywiaeth eang o randdeiliaid a nodir yn y strategaeth. Awgrymwyd y dylid hefyd weithredu datganiad arloesi blynyddol i ddogfennu cynnydd. Byddai angen i gorff arweiniol gyflwyno "cynrychiolaeth ranbarthol deg" er mwyn sicrhau nad oes anghydbwysedd yn ei waith, a bod anghenion, profiad, a syniadau newydd o bob rhan o'r wlad yn cael sylw. Awgrymwyd bod Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg yn fodel effeithiol y gellid ei efelychu gan iddo fod yn allweddol wrth ddarparu'r elfennau technoleg o Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

4. Adran 3 – Cydnawsedd â blaenoriaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Canfyddiadau allweddol:

- Sicrhau bod cyfleoedd arloesi yn cael eu cynnig ym mhob rhan o Gymru
- Pryderon teithio a hygyrchedd mewn rhai rhannau o Gymru yn sgil seilwaith wael
- Canolbwyntio ar gyrchu partneriaethau a chyfleoedd amgen gyda gwledydd a busnesau ledled y byd
- Pryder ynghylch goblygiadau gwleidyddol y strategaeth arfaethedig yn y dyfodol
- Cefnogaeth i ddull wedi ei deilwra, seiliedig ar le
- Hyrwyddo cysylltedd digidol ac wyneb yn wyneb
- Gwerthfawrogi pwyslais ar gydweithio, gyda galwadau am gydgyhyrchu pellach
- Egluro canlyniadau ac amcanion penodol a ddeisyfir
- Ystyried modd o gymell busnesau a sefydliadau i newid o ddull busnes-fel-arfer
- Mwy ar wybodaeth am sgiliau a gyrfaoedd ar gyfer swyddi gwyrdd a chapasiti iechyd/gofal cymdeithasol
- Dylid archwilio cyfleoedd i arloesi mewn caffael

Cwestiwn 10

Nod y Strategaeth Arloesi yw gwneud Cymru'n fwy ffyniannus drwy gyflwyno cynhyrchion a gwasanaethau newydd, creu swyddi, gwario yn economi Cymru, a chynhyrchiant. Ecosystem lle mae pawb yn gyfrifol am arloesi.

Ydych chi'n credu bod y Strategaeth Arloesi arfaethedig wedi amlinellu amcanion clir i sicrhau'r canlyniad hwn? Os nad ydych chi, beth sydd ar goll?

- 4.1 Mynegwyd amrywiaeth o safbwyntiau gan ymatebwyr. Dywedodd rhai ymatebwyr o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat fod y strategaeth yn brin o fanylder, eglurder a methodoleg.
- 4.2 Pryder amlwg ymysg ymatebwyr oedd yr angen i gydnabod a diwallu amrywiol anghenion grwpiau penodol, yn enwedig o fewn yr economi wledig. Dywedodd ymatebwyr ei bod yn bwysig sicrhau bod cyfleoedd cyfartal yn cael eu cynnig i bawb, gan y gall fod ar rai pobl angen mwy o gymorth nag eraill.
- 4.3 Yn ogystal, amlygwyd teithio ledled Cymru fel maes sy'n gofyn am sylw, ac un sy'n llesteirio symudedd twristiaeth a galwedigaethol o fewn Cymru oherwydd pryderon am deithio a hygyrchedd yn sgil y seilwaith.
- 4.4 Roedd ymatebydd yn nodi'r angen i bwysleisio pwysigrwydd sgiliau a hyfforddiant i gyflawni'r amcanion, a sicrhau bod y cyfleoedd hyfforddiant yn ddeniadol a hygyrch. Dywedodd un arall "nid bod arloesi'n gyfrifoldeb ar bawb yw'r ddadl – ond y gall, ac y dylai, arloesi berthyn i bawb."

Sector Preifat

- 4.5 Dywedodd ymatebwyr o'r sector preifat eu bod yn credu bod Llywodraeth Cymru yn ei natur yn gyndyn o gymryd risg ac felly bod angen iddi fod yn fwy medrus wrth wneud penderfyniadau buddsoddi a chymryd risgiau sydd o dan reolaeth. Cafodd arloesi ei ddisgrifio fel

rhywbeth sy'n dod yn gyfrifoldeb i bawb, ac felly mae angen codi safonau ym mhob agwedd i sicrhau bod arloesi yn cael ei gyflawni ar draws pob maes perthnasol.

- 4.6 Roedd pryderon ynghylch y diffyg manylder yn yr adran hon o'r strategaeth gan ymatebwyr o'r sector preifat, a oedd yn gofyn am eglurder ar ddatblygu polisi, cyllid, diddordeb gweithgarwch, a gwerthuso. Cafodd yr adran hon o'r strategaeth ei disgrifio gan un ymatebydd fel "casgliad o syniadau/uchelgeisiau heb naratif sydd wedi ei mynegi'n glir."
- 4.7 Dywedodd ymatebydd o'r sector preifat nad yw'r strategaeth bresennol yn pennu amcanion clir ynghylch ennill cynhyrchion, swyddi a chynhyrchiant newydd. Y teimlad gan ymatebydd arall oedd bod "swyddi a grewyd" yn ffordd hen ffasiwn o fesur ffyniant, ac y dylai'r strategaeth ystyried ffyrdd mwy arloesol o fesur y cyfraniad economaidd mae sefydliadau'n eu gwneud a pha golledion a wneir mewn lleoedd eraill yn sgil arloesi.

Sector Cyhoeddus

- 4.8 Roedd dau ymatebydd o'r sector cyhoeddus yn disgrifio'r amcanion fel rhai "clir", fodd bynnag roedd rhai ymatebwyr yn manylu nad yw'r amcanion a nodir yn y strategaeth wedi cael eu hamlinellu'n glir, ac yn argymhell cynllun gweithredu manwl sy'n ymwneud ag ymgynghori â'r sector preifat. Roedd un ymatebydd yn awgrymu cyflwyno cymhellion tref i fusnesau carbon negyddol a charbon niwtral, a/neu busnesau sydd yn y broses o ddod yn garbon niwtral neu negyddol. Argymhellwyd cyfeiriad strategol mwy cryno sy'n diffinio'r uchelgais am Gymru lewyrchus.
- 4.9 Gwnaed y sylw gan ymatebydd o'r sector cyhoeddus fod gweledigaeth y strategaeth yn cyfeirio at economi lesiant, ond ei bod yn ymddangos fel pe bai'n gosod ffyniant ar wahân i'r weledigaeth gyffredinol o economi lesiant. Roedd ymatebydd arall yn nodi sut mae gofal cymdeithasol yn cyflawni buddion economaidd a chymdeithasol

sylweddol sydd angen eu cydnabod ymhellach fel rhai sy'n chwarae rôl gref mewn cefnogi cymunedau lleol. Nodwyd hefyd y cyfle i'r strategaeth ymateb i argymhellion Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau cyflogaeth sefydlog a chefnogi economïau lleol cynhwysol, gan bwysleisio eu buddion cymdeithasol ac ariannol.

Sector Ymchwil

- 4.10 Cydnabuwyd bod gweledigaeth yn y rhan hon o'r strategaeth, ond y gallai fod rhywfaint o fanylder wrth fesur y canlyniadau i helpu sicrhau hynny ag sy'n bosibl o gysondeb strategol ymysg partneriaid. Teimlai Prifysgol Caerdydd ac eraill fod yr amcanion a osodwyd yn rhai lefel uchel iawn ac yn gofyn am ddiffiniad sylweddol pellach fel ei bod yn glir sut y gall arloesi wreiddio a beth fydd ei effaith.
- 4.11 Roedd argymhellion ar gyfer yr adran hon o'r strategaeth yn cynnwys mwy o bwyslais ar gydgyhyrchu a chyd-greu gyda defnyddwyr gwasanaethau, a chymell camau arloesol bach lle mae gwelliant nodedig mewn cynnyrch neu broses/gwasanaeth. Roedd un ymatebydd o'r sector ymchwil yn awgrymu hyrwyddo'r sector creadigol, gyda'i draddodiad hir o ddychymyg a allai fod yn rhan o ecosystem sy'n gweld cynhyrchion, prosesau a gwasanaethau newydd.

Trydydd Sector

- 4.12 Hoffai Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru weld mwy o fanylder ar sut mae cymell rhanddeiliaid i ymwneud ag arloesi sydd â phwyslais ar werth cymdeithasol. Roedd un ymatebydd yn annog Cymru i ddefnyddio STEM, a chemeg yn benodol, i ysgogi enillion mewn ffyniant, gan fod y sector cemeg yn gyfrannwr economaidd allweddol ledled y Deyrnas Unedig.

Dinesydd

- 4.13 Dim ond dau ddinesydd y cafwyd ymatebion i'r cwestiwn hwn, gydag un yn galw am bwyslais cryf ar leihau newid hinsawdd, addasu iddo a lliniaru ei effeithiau, a'r llall yn galw am fwy o hunan-gynhaliaeth a chapasiti mewn bwyd, adnoddau teithio ac ynni.

Cwestiwn 11

Pa effaith, cadarnhaol neu negyddol, ydych chi'n credu y gall arloesi ei gael ar helpu gwella rhagolygon economaidd a llesiant pobl Cymru?

- 4.14 Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr eu bod yn credu y gall arloesi gael effaith mawr, cadarnhaol ar Gymru, cyn belled â'i bod yn cael ei gweithredu'n ddigonol ac yn cael ei harwain gan ddiwylliant o anghenion. Yn ôl ymatebwyr, er mwyn i raglen arloesi fod yn llwyddiannus, rhaid iddi wreiddio ym meddylfryd a chynlluniau pawb.
- 4.15 Pryder a godwyd gan amryw o ymatebwyr oedd y potensial i ddatblygiadau mewn arloesi ganolbwyntio ar fesurau economaidd yn unig. Roedd rhai effeithiau a awgrymwyd gan ymatebwyr yn cynnwys:
- Byw cynaliadwy
 - Cynyddu llesiant
 - Buddsoddi mewn technoleg adnewyddadwy
 - Cyfleoedd cyflogaeth a thwf cynaliadwy hirdymor
 - Meithrin teimlad o gredu mewn newid
 - Sgiliau a phrofiadau sy'n cyfrannu at werth cymunedol a chymdeithasol, ee cydnabod ymdrechion gofalwyr/gwirfoddolwyr di-dâl fel rhywbeth sy'n rhoi boddhad a ffynhonnell o arloesi hanfodol.

Sector Preifat

- 4.16 Roedd ymatebwyr o'r sector preifat yn awgrymu y gallai effeithiau cadarnhaol y strategaeth gynnwys swyddi newydd a gwasanaethau iechyd/cymdeithasol hygyrch o safon uchel a fydd yn cael effaith cadarnhaol pellgyrhaeddol ar lesiant pobl yng Nghymru. Roeddent yn credu hefyd y bydd buddsoddi mewn arloesi yn creu gweithlu gofal iechyd sydd â gwell cymysgedd o sgiliau, ac o ganlyniad yn cynyddu ansawdd gofal ac effeithlonrwydd cost.
- 4.17 Fodd bynnag, roedd ymatebwyr o'r sector preifat yn dadlau bod, er mwyn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gynhyrchiant, cydnerthedd a swyddi, yn rhaid i arloesi gael ei annog ymhellach ar draws pob sector, a phob maint o fusnes â dull wedi ei deilwra'n fanwl sy'n dod â chefnogaeth i arloesi a chymorth i sgiliau at e gilydd. Er enghraifft, teimlad Make UK oedd er bod cefnogaeth i ymchwil ar gam cynnar yn tyfu, ar y Lefelau Parodrwydd Technoleg (TRL) is, mae cefnogaeth i'w fabwysiadu a'i wasgaru yn brin.

Sector Cyhoeddus

- 4.18 Credai ymatebwyr o'r sector cyhoeddus y gallai arloesi gael effaith cadarnhaol ar Gymru gan y gall arwain at dwf economaidd cynaliadwy a sicrhau canlyniadau swyddi a all arwain y wlad i gyflawni lefelau uwch o berfformiad a llesiant i'n dinasyddion. Fodd bynnag, dywedodd ymatebydd ei bod yn hanfodol fod y strategaeth a llunwyr polisi yn hyrwyddo arloesi ar bob lefel.
- 4.19 Er mwyn cyflawni'r effaith cadarnhaol hwn ymhellach, mae angen mwy o gydweithio gydag addysg. Dywedodd Grŵp Llandrillo Menai fod dyfodol cynaliadwy i'r diwydiant bwyd a diod yn gofyn am ennyn diddordeb plant ysgol a myfyrwyr mewn pynciau STEM. Roedd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, wrth ystyried diwylliant arloesi mewn ysgolion, colegau a phrifysgol, yn awgrymu hefyd y dylai'r strategaeth fynd ymhellach i gydnabod y rôl y bydd y Comisiwn

Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn ei chwarae wrth feithrin y sgiliau i feistrolï gwybodaeth newydd a sgiliau digidol.

- 4.20 Roedd ymatebwyr o'r sector cyhoeddus yn awgrymu cyfeirio mwy hefyd at ofal cymdeithasol, neu ddull ehangach o gefnogi arloesi yn y maes hwn er mwyn cynyddu'r effaith mewn gofal cymdeithasol ac osgoi dieithrio sector sy'n aml yn teimlo'i fod yn cael ei ddibrisio.
- 4.21 Effaith cadarnhaol arall a gydnabuwyd gan ymatebwyr o'r sector cyhoeddus yw cydnabod – a gweithredu – y rôl sylweddol sydd gan arloesi yn y pontio at economi carbon isel. Enghraifft benodol a roddwyd gan ymatebydd oedd y mynediad at symiau cynyddol o ddata a dyfeisiadau digidol ar gyfer gwneud y penderfyniadau gorau posibl i leihau allyriadau carbon a lleihau ôl-troed amgylcheddol.
- 4.22 Teimlai ymatebwyr o'r sector cyhoeddus y gallai'r strategaeth gael yr effaith cadarnhaol o osod y sail ar gyfer partneriaethau lleol a rhanbarthol i alluogi arloesi trwy dull o gydweithio wedi'i dargedu. Y gred oedd y gallai hyn yn ei dro gyfrannu at wella safonau byw trwy dwf cynaliadwy trwy gynnig cyfleoedd a lleihau anghydraddoldeb ac amddifadedd. Er mwyn cyflawni'r effaith hwn ymhellach, roedd ymatebydd yn dadlau bod y strategaeth arloesi yn unol â "Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel" – gweithgareddau gweithgynhyrchu sy'n cael effaith cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cadarnhaol ar lesiant dinasyddion.

Sefydliadau Ymchwil a Sefydliadau Academaidd

- 4.23 Roedd sefydliadau ymchwil yn nodi amryw o effeithiau cadarnhaol y mae gan y strategaeth y potensial i'w gweithredu. Er enghraifft, trwy ganfod ffyrdd cyflymach, gwell a mwy effeithiol o wneud pethau, yn ogystal â thyfu sgiliau, tegwch cymdeithasol, yr economi, a gweithgarwch lliniaru'r hinsawdd. Dywedwyd mai "arloesi yw mam twf economaidd", a bod cefnogi gweithgynhyrchu a datblygu cynhyrchion yn hanfodol er mwyn cyflawni'r effaith hwn. Dywedwyd bod datblygu

arbenigeddau ac adeiladu rhagoriaeth mewn meysydd sy'n bod eisoes yng Nghymru yn llwybr at dwf cychwynnol a chyflymach.

- 4.24 Roedd ymatebydd yn y sector cyhoeddus yn gwerthfawrogi bod yr adroddiad yn cydnabod y gall arloesi o fewn un sector gael effaith negyddol ar eraill. Er mwyn osgoi'r effaith negyddol hwn, awgrymwyd y dylai'r strategaeth gael darpariaeth sylweddol ar gyfer cyflawni dysgu gydol oes a hyfforddiant mewn gweithleoedd i sicrhau y gall unigolion ar draws yr holl gymuned weld cyfleoedd yn y dyfodol.

Trydydd Sector

- 4.25 Dywedodd un ymatebydd o'r trydydd sector y gallai fod potensial o effaith negyddol ar bobl anabl sy'n wynebu anawsterau caletach wrth leihau eu hól-troed carbon. Roedd teimlad cryf hefyd fod angen i'r strategaeth sicrhau bod y rheini sydd ag anableddau / salwch cronig yn cael eu cydnabod fel dinasyddion cynhyrchiol a gwerthfawr hyd yn oed os nad ydynt mewn cyflogaeth llawn-amser. Yn y cyswllt hwn, mae angen i'r strategaeth gynnwys ystyriaethau cydraddoldeb a mynediad i liniaru effeithiau negyddol yn analluogi pobl trwy rwystrau mewn cymdeithas a meithrin effeithiau cadarnhaol.
- 4.26 Roedd gan ymatebwyr agwedd gadarnhaol iawn at yr effeithiau economaidd posibl o greu swyddi, a datblygu ac allforio sgiliau. Yn yr un modd, cyfleoedd gydag ymchwil meddygol. Fodd bynnag, er mwyn i Gymru ffynnu, roedd un ymatebydd yn argymhell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo cronfeydd ar gyfer seilwaith hanfodol na all cyrff ymchwil/prifysgolion gystadlu am gyllid hebddynt.

Cwestiwn 12

Nod y Strategaeth yw gwneud Cymru'n fwy cydnerth, gan anelu at wella amgylchedd naturiol ac iach, mabwysiadu egwyddorion yr economi gylchol, a chynyddu ein capasiti a'n gallu wrth addasu i newid.

Ydych chi'n credu bod y Strategaeth Arloesi arfaethedig wedi amlinellu amcanion clir i sicrhau'r canlyniadau hyn? Os nad ydych chi, beth sydd ar goll?

- 4.27 Roedd barn gymysg ymysg ymatebwyr. Dywedodd y rheini a oedd yn amau eglurder yr amcanion fod y cynnig yn brin o ddull ystyrllon i sefydliadau fynd ati o ddifrif i arloesi. Mynegwyd pryder gan ymatebydd a oedd yn amau goblygiadau gwleidyddol y strategaeth arfaethedig; yn fwy penodol, sut y byddai cynrychiolwyr etholedig ac anetholedig yn gallu cefnogi arloesi hirdymor yn wyneb ystyriaethau gwleidyddol tymor byr.
- 4.28 Ar y llaw arall, roedd un ymatebydd yn honni y bydd "y farchnad yn datblygu atebion os caiff y sylfeini iawn eu darparu gan y Llywodraeth." Dywedodd ymatebwyr y bydd arweiniad gan gyrrff fel Cyfoeth Naturiol Cymru yn sylfaenol er mwyn cyflawni newid. Yn yr un modd, tynnwyd sylw at 'Coedwig Cymru' fel menter berthnasol ac un â'r potensial i gefnogi'r Strategaeth Arloesi.

Sector Preifat

- 4.29 Roedd ymatebwyr o'r sector preifat yn ategu'r farn fod yr amcanion yn rhy lefel-uchel. Roedd ymatebydd o'r sector preifat yn ansicr sut y bydd y strategaeth yn cynyddu'r gallu i addasu i newid, ac yn gofyn am eglurder ar y canlyniadau penodol a ddeisyfir ynglŷn â'r economi gylchol. Dywedwyd hefyd fod yr amcanion yn methu â chysylltu'r system fel cyfanrwydd, gan nodi fel enghraifft y dylid mapio'r economi gylchol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, gweithgynhyrchu, yr amgylchedd, ac amaethyddiaeth.

Sector Cyhoeddus

- 4.30 Cafwyd ymatebion cadarnhaol iawn gan y sector cyhoeddus ar y cwestiwn a all y strategaeth gyflawni Cymru fwy cydnerth. Y teimlad oedd bod yr amcanion yn ceisio gwella a chynnal amgylchedd naturiol

iach, gan ysgogi arloesi fel modd o'i warchod. Fodd bynnag, roedd un ymatebydd yn nodi nad oes dim ynghylch adfer ecolegol er gwaethaf fod "y Deyrnas Unedig yn un o'r gwledydd sydd wedi ei dihysbyddu fwyaf yn Ewrop". Argymhellwyd hefyd fod angen mwy o gymhelliad i fusnesau symud oddi wrth 'busnes-fel-arfer' i arferion mwy cyfeillgar i'r amgylchedd.

- 4.31 Rhannwyd gobeithion hefyd y gallai gyflawni gwell gwerth gofal iechyd trwy ddatblygu, rhannu, caffael, a mabwysiadu arferion a thechnoleg arloesol. Ar y llaw arall, roedd y Gymdeithas Microbioleg yn dadlau bod angen mwy yn y rhan hon o'r strategaeth ar ymchwil feirysol a imiwnolegol, yn enwedig yng nghyd-destun adfer o'r pandemig coronafeirws. Roedd pryderon hefyd ynghylch sut mae'r strategaeth yn ymdrin â gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal iechyd, gan fod eu strwythurau yn wahanol, ac felly mae dull 'un maint sy'n gweddu i bawb' yn anaddas.

Sefydliadau Ymchwil

- 4.32 Roedd sefydliadau ymchwil yn nodi bod y dyheadau yn glir ac y dylid eu croesawu, a'u bod yn unol â dull system gyfan, ond ni all arloesi ar ei ben ei hun gyflawni'r effeithiau a ddeisyfir. Roedd ymatebwyr yn pwysu ar y strategaeth i gyflawni'r amcanion hyn trwy ddatblygu ar lawr gwlad, ond gyda neges gyson ar draws pob sector gan ysgolion, llywodraeth, ac diwydiant, gyda'r gwaith wedi ei gysoni a'i wreiddio ar draws y sbectwm polisi.
- 4.33 Ymatebodd Prifysgol Caerdydd ei bod yn aneglur beth yw'r canlyniadau penodol a ddeisyfir ynglŷn â'r economi gylchol. Teimlent fod yr amcanion yn gofyn am ddiffiniad a blaenoriaethu pellach sylweddol fel bod y canlyniadau a ddeisyfir yn eglur, a chadarnhawyd hyn gan ymatebwyr eraill.

Trydydd Sector

- 4.34 Roedd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol yn pwysu am i'r strategaeth sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau a'r wybodaeth gyrfaedd sydd eu hangen i gamu ymlaen i swyddi gwyrdd, gan gynnwys yn y gwyddorau cemegol, er mwyn cyfrannu at economi werdd y dyfodol.
- 4.35 Dywedodd ymatebydd arall o'r trydydd sector ei bod yn hanfodol cyflawni ymchwil a gweithgarwch gydag dinasyddion a sefydliadau ar lawr gwlad, fel y galluogir hwy i gymryd rhan ystyrlon yn y gweithgareddau hyn ac na chaiff anghydraddoldebau presennol eu cynyddu'n anfwriadol.

Dinasyddion

Roedd dinasyddion a ymatebodd yn galw am y canlynol:

- Mwy ar ddiwylliant ailddefnyddio megis gyda gwisg ysgol.
- Mwy o bwyslais ar feysydd eraill megis pŵer diwydiannau echdynnol a gweithgynhyrchu, a thrafnidiaeth i sicrhau cyflogaeth a diwylliant sefydlog.

Cwestiwn 13

Mae Cymru fwy cyfartal yn un o amcanion y Strategaeth Arloesi. Mae'n cynnig ecosystem arloesi dryloyw sy'n sicrhau cynhwysiant yn yr holl weithgareddau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi, a dosbarthiad tecach o fuddsoddiad lle mae pob rhanbarth yng Nghymru yn elwa ar ragor o weithgarwch arloesi.

Ydych chi'n credu bod y Strategaeth Arloesi arfaethedig wedi amlinellu amcanion clir i sicrhau'r canlyniadau hyn? Os nad ydych chi, beth sydd ar goll?

- 4.36 O ran y cwestiwn a yw'r Strategaeth Arloesi arfaethedig wedi amlinellu amcanion clir i gyflawni cynhwysiant yn gyfartal yn yr holl weithgareddau ymchwil, datblygu ac arloesi ar draws holl ranbarthau Cymru, roedd ymatebion cymysg ar draws sectorau.

- 4.37 Er enghraifft, nodwyd gan rai ymatebwyr fod, yn sgil natur arloesi, ymchwil a datblygu, buddsoddiad yn annhebygol o fod yn “deg rhwng rhanbarthau a’i gilydd”. Roedd hyn oherwydd eu bod yn teimlo y dylai buddsoddiad gael ei roi ar sail haeddiant, fodd bynnag os oedd y buddsoddiad hwnnw i ddewis y prosiectau gorau am enillion tymor byr, ni fyddai o anghenrheidrwydd yn cael ei ddsbarthu’n deg nac yn gyfartal. Fodd bynnag, credai eraill fod yn rhaid i ymchwil, datblygu ar arloesi gael ei ddsbarthu’n deg fel y gall dinasyddion ledled Cymru deimlo’r buddion a hyrwyddo cydweithio.

Sector Preifat

- 4.38 Awgrymodd un ymatebydd o’r sector preifat y dylai’r strategaeth gydnabod y bydd ardaloedd yng Nghymru a fydd yn rhagori mewn rhai meysydd ac nid mewn eraill, felly dylid adeiladu capasiti a chymorth i gyllido’r gweithgareddau hynny, yna helpu pob ardal yng Nghymru i’w mabwysiadu a’u lledaenu fel bod pawb yng Nghymru yn elwa.
- 4.39 Argymhellodd ymatebydd arall fod y strategaeth yn gweithredu metrigau a ddatblygwyd ar gyfer cydraddoldeb a symudedd cymdeithasol, a lleihau rhwystrau rhag cymryd rhan gyda strwythurau rhanbarthol cymhleth megis Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (CBC).

Sector Cyhoeddus

- 4.40 Roedd ymatebwyr o’r sector cyhoeddus yn galw am ddsbarthiad teg o gyllid ledled Cymru i annog busnesau a sefydliadau academaidd i gydweithio’n genedlaethol a cefnogi codi’r gwastad. Yn benodol, roedd y sector cyhoeddus yn galw am fwy o gymorth gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo Abertawe a’r Gorllewin, ac yn pwysleisio nad yw pob ardal yn “dod o’r un man cychwyn.”
- 4.41 Yn ogystal â’r strategaeth yn cynnig darparu mynediad at fand eang cyflym a gwasanaethau digideiddio, awgrymwyd y dylai gefnogi

busnesau sy'n creu adnoddau sy'n cael effaith cadarnhaol ar gymunedau gwledig neu rai sydd wedi eu hallgáu'n ddigidol. Bydd hyn yn caniatáu pob dinesydd i gymryd rhan mewn arloesi.

- 4.42 Yn fwy cyffredinol, roedd y sector cyhoeddus yn galw am ganolbwyntio ar yr allgáu digidol a daearyddol sy'n wynebu pobl mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig pobl ifanc, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ledled Cymru, a hyrwyddo'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac adeiladu arno.

Sefydliadau Ymchwil

- 4.43 Roedd sefydliadau ymchwil yn cydnabod bod cyfalaf cymdeithasol a chysylltiadau cymdeithasol yn bwysig er mwyn hyrwyddo cyfnewid syniadau ac adnoddau mewn modd mwy effeithiol. Roedd mwy o gynrychiolaeth yn cael ei weld fel cam cyntaf, ond nodwyd bod gwaith angen ei wneud tuag at sefyllfa lle bo partneriaid yn teimlo statws cyfartal mewn cydweithio. I rai, nid oedd yn eglur sut y bydd y strategaeth yn mesur tegwch, ac nid yw'r amcanion yn amlygu eu hunain yn glir.
- 4.44 Teimlai ymatebwyr fod diffyg manylder ar gyllidebau a dosbarthu adnoddau ledled Cymru, gan olygu na allent roi barn wybodus a phriodol ynghylch a fydd y cyllid yn cael ei wario'n deg neu beidio. Roedd un ymatebydd yn awgrymu'r cysyniad o gronfa a reolir yn ganolog gyda dyraniad i awdurdodau lleol, gyda chyllideb benodol ar gyfer datblygu rhwydweithiau Cymru gyfan a rhwydweithiau arbenigol rhyngwladol. Cefnogwyd hyn gan alwadau am dull seiliedig ar leoedd.
- 4.45 Er mwyn i'r strategaeth gyfrannu ymhellach at Gymru gyfartal, roedd un ymatebydd o sefydliad ymchwil yn awgrymu lleihad mewn biwrocratiaeth wrth ymgeisio am gyllid arloesi, a pheidio â gweithredu'r un llinyn mesur ar gydweithio diwydiannol posibl yng ngogledd Cymru ag yn ne-ddwyrain Cymru a all anfanteisio ceisiadau a chymell anghydraddoldebau.

Trydydd Sector

- 4.46 Yn ôl un ymatebydd o'r trydydd sector, mae ar y strategaeth angen dull cynhwysfawr a thrylwyr o fesur metrigau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Roedd dymuniad am ddata traws-sectorau tryloyw i ddeall yr heriau a wynebir gan y rheini sy'n perthyn i sawl grŵp a dan-gynrychiolir er mwyn gwella amrywiaeth y gweithlu STEM a chael gwared ar y rhwystrau presennol.
- 4.47 Roedd yr ymateb gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn croesawu bod y Strategaeth Arloesi yn cydnabod yr angen i gynnwys a chefnogi pobl o bob demograffeg trwy gredu ecosystem arloesi dryloyw, ond yn rhybuddio o'r perygl na roddir sylw i'r modd mae "arloesi yn breinio'r rheini sydd eisoes yn freintiedig". Roedd yn dadlau y gellid mynd i'r afael â hyn yn rhannol trwy hyrwyddo'r sector gwirfoddol yn y strategaeth.

Cwestiwn 18

Mae'r Strategaeth Arloesi'n bwriadu hyrwyddo Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang drwy brosesau gwneud penderfyniadau sy'n ystyried effaith ein gweithgareddau arloesi ar lesiant byd-eang, yn ogystal â dull cydweithredol o weithio mewn partneriaeth ar lefel ryngwladol i rannu gwybodaeth a sgiliau, ac i gyflawni prosiectau â phwrpas cymdeithasol.

Ydych chi'n credu bod y Strategaeth Arloesi arfaethedig wedi amlinellu amcanion clir i sicrhau'r canlyniadau hyn? Os nad ydych chi, beth sydd ar goll?

Sector Preifat

- 4.48 Mae gwau meddylfryd byd-eang i'r broses arloesi yn sicrhau bod canlyniadau'n rhyngwladol ac yn Gymreig eu naws yr un pryd, gan ddenu amrywiol weithwyr, sefydliadau byd-eang, a chyllid byd-eang i Gymru. Mae angen i hyn fod yn ddiwylliannol, yn cysylltu pobl a

chyllido ymdrechion cydweithredol i feithrin cysylltiadau o'r fath. Cefnogwyd hyn gan yr argymhelliad i gydgyssylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i greu strategaeth gydweithio rhyngwladol newydd i gymryd lle Horizon Ewrop.

- 4.49 Nodwyd hefyd gan un ymatebydd y dylai'r pwyslais fod, yn yr oes wedi Brexit, ar geisio partneriaethau a chyfleoedd eraill, yn hytrach nag ar arian i gymryd lle cyllid yr Undeb Ewropeaidd.

Sector Cyhoeddus

- 4.50 Roedd ymatebwyr y sector cyhoeddus hefyd yn cydnabod pwysigrwydd rhaglenni amlochrog, megis Horizon, i fynd i'r afael â heriau byd-eang. Argymhellwyd bod y strategaeth yn hyrwyddo parhad cyllid rhaglenni rhyngwladol i annog arloesi pellach (ee y prosiect Llwybrau Celtaidd).
- 4.51 Roedd cynnwys economïau cylchol a sylfaenol ac atebion seiliedig ar leoedd yn cael ei werthfawrogi gan ymatebydd o'r sector cyhoeddus; fodd bynnag, hoffai ei weld yn cael ei dreiddio drwy'r strategaeth. Teimlai ymatebydd arall y dylid ehangu'r adran i gynnwys cadwyni cyflenwi *moesegol*, gydag angen am gydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a phartneriaid i gyflawni'r newid systemig sydd ei angen.

Sefydliadau Ymchwil

- 4.52 Ymatebodd Prifysgol Caerdydd trwy ddweud y byddai diffinio blaenoriaethau ar gyfer arloesi a rhoi sylw i ddatblygu tymor byr, canolig a hir y strategaeth yn ffordd effeithiol iawn o ddatblygu Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang, gan y gellir sicrhau bod arloesi cyfrifol yn hanfod iddi.
- 4.53 Roedd Prifysgol Abertawe yn disgrifio'r angen i'r strategaeth ymgorffori prosiect TAITH a chynlluniau pellach sy'n cysoni Cymru â'r strategaeth ryngwladol, yn enwedig mewn meysydd lle mae'r heriau, y chyfleoedd, a'r potensial mwyaf i gyflawni effaith. Teimlent hefyd fod

cynnal cysylltiadau â'r gymuned ymchwil Ewropeaidd yn bwysig ar gyfer arloesi.

- 4.54 Roedd cyrff ymchwil eraill yn awgrymu bod angen i'r strategaeth annog mwy o bartneriaethau ymchwil ac arloesi i ystyried dadansoddiad cylchred oes, yr economi gylchol, a phecynnu cynaliadwy wrth ddatblygu cynhyrchion. Nodwyd gan un ymatebydd bod, mewn deunyddiau carbon isel a phrosiectau adeiladu gwyrdd, prinder gwirioneddol o arbenigedd a chyfle am swyddi gwyrdd. Roedd y Ganolfan Biogyfansoddion ym Mhrifysgol Bangor, a'i pherthynas â WRAP Cymru, yn enghraifft a roddwyd o bartneriaeth arloesi yn targedu agenda sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

Trydydd Sector

Roedd ymatebwyr o'r trydydd sector yn cefnogi'r adran hon a'i "bwriadau". Ymatebodd un corff gyda'r sylw "gall Cymru fod yn arweinydd ac yn faes arbrofi ar gyfer atebion arloesol sydd o bwysigrwydd byd-eang," a chydnabuwyd bod y Strategaeth Arloesi drafft wedi dewis meysydd pwysig i gyfeirio ymdrechion, gan gynnwys sero net, cydnerthedd, a iechyd a llesiant. Mae ymatebydd arall yn nodi bod y strategaeth yn pwysleisio pwysigrwydd partneriaethau trawsffiniol ac y dylai hyrwyddo'r ymdrechion hyn.

Cwestiwn 19

Un o nodau'r strategaeth arfaethedig yw creu cymunedau cydlynus a fydd yn sicrhau rhagor o gydweithio traws-sector, gwell cysylltedd mewn cymunedau a thechnolegau digidol yn cael eu mabwysiadu, yn ogystal â chysoni ein gweithgareddau er mwyn cyflawni dros ein cymunedau yng Nghymru.

Ydych chi'n credu y bydd y Strategaeth yn cefnogi'r nod hwn? Os nad ydych chi, sut gallwn ni gyflawni hyn?

- 4.55 Roedd ymatebwyr yn pwysleisio'r angen i gynnwys cynlluniau manwl ar gyfer gweithredu. Roedd ymatebwyr yn mynegi pryder hefyd ynghylch y gred systematic fod technolegau digidol bob amser yn well, gan y gallant yn aml beri allgáu.

Sector Preifat

- 4.56 Ymatebodd Canolfan Arloesedd Clwyfau Cymru (WWIC) trwy ddweud bod cydweithio gyda data yn faes lle gellid cyflawni mwy gyda'r seilwaith addas. Roeddent yn awgrymu hefyd fod caffael yn faes lle mae llawer o botensial i hyrwyddo arloesi, yn enwedig mewn gofal iechyd.
- 4.57 Er mwyn creu'r cymunedau cydlynus, nodwyd y bydd angen i boblogaeth Cymru allu manteisio ar gyfleoedd sydd ar gael i ddatblygu eu sgiliau.
- 4.58 Mae'r Cyd-bwyllgor Systemau Gwybodaeth (Jisc) yn credu y dylai'r strategaeth fanteisio ar yr arloesi posibl a buddiol rhwng meysydd gofal iechyd, aml-academia a thechnoleg, gan eu bod yn annatod gysylltiedig â llawer o'r arloeseddau presennol fel mentrau ar y cyd. Maent yn awgrymu y byddai seilwaith digidol ac arferion rheoli hunaniaeth sy'n caniatáu cydweithio traws-sector yn cynnig mwy o hwylustod dysgu a diogelwch a chynyddu effeithlonrwydd.

Sector Cyhoeddus

- 4.59 Roedd yr ymatebwyr sector cyhoeddus ag agwedd gadarnhaol tuag at y maes hwn o'r strategaeth, yn enwedig gan ei bod yn cydnabod yn benodol bwysigrwydd cydweithio. Fodd bynnag, roedd ar ymatebwyr eisiau i'r strategaeth ymrwymo i sicrhau bod cysylltedd yn cael ei ddosbarthu'n gyfartal, gan sicrhau bod gan gymunedau gwledig fynediad at seilwaith digidol addas a bod cydweithio ar draws pob rhanbarth yn cael ei feithrin mewn modd cyfartal.

- 4.60 Ar y llaw arall, roedd un ymatebydd yn pwysu am fwy ar lecynnau gwyrdd fel lleoedd i gymdeithasu a hyrwyddo llesiant a chydlyniant cymdeithasol, oherwydd bod perygl i ganolbwyntio ar gysylltedd digidol yn unig anwybyddu'r argyfyngau natur a hinsawdd, ffactorau a all ddwysáu anghydraddoldeb.
- 4.61 Er mwyn cynyddu cysylltedd a chydlyniant ymhellach, roedd ymatebwyr yn pwysu ar i'r strategaeth adeiladu ar ddulliau 'lleol', seiliedig ar leoedd, megis y rheini a dyfodd allan o'r pandemig yn ogystal ag asedau ymchwil, datblygu ac arloesi rhanbarthol eraill. Yn benodol, roedd Gofal Cymdeithasol Cymru yn annog y strategaeth i gefnogi "dyfeisgarwch cymunedol seiliedig ar leoedd", tra bod eraill yn cyfeirio at yr economi sylfaenol.

Sefydliadau Ymchwil a Sefydliadau Academaidd

- 4.62 Mae sefydliadau ymchwil hefyd yn annog y strategaeth i edrych yn fwy eang y tu hwnt i fabwysiadu technolegau digidol mewn perthynas â chreu cymunedau mwy cydlynus. Er enghraifft, edrych ar rôl lleoedd a rennir wrth gefnogi cymunedau cydlynus arloesol. Amlygwyd pwysigrwydd seilwaith cymdeithasol gan Y Lab.
- 4.63 Fodd bynnag roedd ymatebwyr eraill yn dadlau bod ar Gymru, os oes arni eisiau ecosystem arloesi o'r radd flaenaf, angen y seilwaith ddigidol i gyflawni hyn, gan gyfeirio at y Ganolfan Prosesu Signalau Digidol (DSP) ym Mhrifysgol Bangor fel enghraifft o'r arferion gorau wrth gysylltu cymunedau, gan gynnwys rhai anodd eu cyrraedd.
- 4.64 Mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn annog atgynhyrchu cysyniadau SBRI o fewn yr agenda gofal gan fod hyn wedi cael ei integreiddio'n llwyddiannus mewn ieched, ac yn pwysleisio pwysigrwydd gwyddor cymdeithasol ac ymddygiadol ynghyd â chynllunio ar sail defnyddwyr o fewn yr agenda hwn.

Trydydd Sector

- 4.65 O ran cysylltedd digidol, roedd ymatebydd o'r trydydd sector yn awgrymu y dylai'r strategaeth, yn ogystal â 'darparu a moderneiddio gwasanaethau fel eu bod yn cael eu cynllunio o amgylch anghenion defnyddwyr a'u bod yn syml, diogel a chyfleus,' sicrhau hefyd eu bod yn fforddiadwy, yn enwedig yn ystod yr argyfwng costau byw. Maent yn dadlau bod "todi data" yn cael ei gydnabod ond nad oes dim sôn am gamau gweithredu'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn.
- 4.66 Teimlai ymatebydd arall nad yw'r strategaeth yn ymdrin yn glir ag unrhyw gymunedau eraill heblaw sectorau sy'n ymwneud ag ymchwil, meddygaeth a thechnoleg, a bod angen iddi gynnwys deinameg gymdeithasol, a ffactorau cymdeithasol a fydd yn effeithio ar fabwysiadu technolegau.
- 4.67 Er mwyn i'r amcanion polisi fod mor llwyddiannus â phosibl, dadleuwyd bod angen iddynt ddefnyddio ac adeiladu ar y rhwydweithiau presennol sydd eisoes wedi eu gwreiddio mewn cymunedau, a defnyddio eu harbenigedd a phrofiad wrth adnabod a datrys problemau cymdeithasol. Enghraifft a roddwyd oedd sut y gall mentrau cymdeithasol chwarae rhan benodol allweddol wrth greu cymunedau cydlynus oherwydd eu dosbarthiad ledled y wlad.

Cwestiwn 20

Mae'r Strategaeth Arloesi newydd yn bwriadu sicrhau Cymru lachach drwy ecosystem arloesi sy'n fwy cydlynol ac sydd wedi'i halinio'n well, ac sy'n targedu ffyrdd newydd a gwahanol o weithio, yn cefnogi strategaethau ymadfer ar ôl y pandemig ac sy'n galluogi i ni fabwysiadu fwy o arloesedd.

Yn sail i hyn y bydd system lechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n cydweithio ar draws diwydiant, y byd academiaidd a'r trydydd sector i

sicrhau gwell gwerth gofal iechyd drwy ddatblygu, rhannu, caffael a mabwysiadu arferion a thechnoleg arloesol.

Ydych chi'n credu y bydd y strategaeth yn cefnogi'r nod hwn? Os nad ydych chi, pa weithgareddau ychwanegol y mae angen eu cynnwys?

- 4.68 Er bod sylwadau cadarnhaol, roedd adborth sylweddol hefyd ar ffyrdd y gallai'r strategaeth hyrwyddo'r uchelgais hon ymhellach. Roedd ymatebwyr hefyd yn pwysleisio pa mor bwysig yw i uchelgeisiau fod wedi eu gwreiddio mewn cymunedau lleol a chanolbwyntio mwy ar ragnodi cymdeithasol a hunan-gymorth.
- 4.69 Yn ogystal, roedd amryw o ymatebwyr yn ystyried pwysigrwydd defnyddio cronfeydd data y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i ddarganfod a barnu effeithiolrwydd a defnyddioldeb ei wasanaethau'n well. Gellid defnyddio hyn wedyn fel sail ar gyfer ymdrin â meysydd sy'n gofyn am adnewyddu.
- 4.70 Roedd ymatebwyr yn croesawu gweithredu arferion a technoleg arloesol mewn gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, fodd bynnag, roedd un yn nodi mai i raddau cyfyngedig yn unig roedd prosiectau peilot arloesol yn cael eu gweithredu yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn y gorffennol oherwydd cyfyngiadau amser. Gwnaed sylw hefyd ar yr angen i sicrhau bod datblygu galluoedd digidol mewn gofal cymdeithasol yn cael yr un flaenoriaeth ag mewn gwasanaethau iechyd.

Sector Preifat

- 4.71 Teimlai'r rheini a ymatebodd yn negyddol i'r cwestiwn hwn fod angen newidiadau yn y sector gyda meysydd megis yr economi gylchol, ond bod y bwlch rhwng yr hyn sydd ei angen a'r hyn y sonir amdanol yn y strategaeth yn teimlo'n rhy fawr. Nodwyd yr angen i ddiffinio prosesau ar gyfer gweithredu a nodau penodol.
- 4.72 Cred yr ymatebydd o'r sector preifat, y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth (Jisc), y dylai'r strategaeth annog ymchwil agored a

mynediad agored at gyhoeddiadau er mwyn helpu meithrin mwy o drosglwyddo gwybodaeth a chydweithio yn ogystal â chydymffurfio â pholisïau a rheoli costau. Roedd ymatebydd arall yn hyrwyddo'r cysyniad hwn, gan awgrymu y dylai'r strategaeth anelu at alluogi mynediad at ddata iechyd cystadleuol byd-eang sy'n cefnogi ymchwil, datblygu ac arloesi.

- 4.73 Awgrymiadau eraill gan ymatebwyr o'r trydydd sector oedd y dylid rhoi'r un faint o werth ar arloeseddau sydd wedi cael eu cyflwyno i'r sector iechyd a gofal o'r tu allan i'r sefydliadau ac i'r rheini sydd wedi eu datlbygu o'u mewn. Er enghraifft, gall sicrhau bod ymchwil nyrsio, bydwreiciaeth, a phroffesiynau cysylltiedig iechyd yn rhan o ecosystem arloesi wella gwasanaethau gofal iechyd a mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau gofal iechyd sy'n wynebu Cymru.

Sector Cyhoeddus

- 4.74 Un rhwystr rhag cyflawni'r uchelgais hon a nodwyd gan ymatebwyr oedd diwylliant ac arweiniad, gydag ymatebion yn nodi mai'r hyn sydd angen ei weld o'r strategaeth yw cynllun gweithredu diamwys a fydd yn helpu goresgyn y rhwystrau rhag arloesi, fel y ddigwyddodd yn ystod y pandemig. Mae cyfle drwy'r strategaeth am froceriaeth gwybodaeth arloesi, a fydd yn elwa o gynrychiolaeth llysgenhadol trwy bartneriaethau masnachol, academiaidd a sector cyhoeddus a fydd yn ymestyn ar draws gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, a phobl sy'n derbyn gofal a chymorth.
- 4.75 Roedd un ymatebydd yn nodi bod gan bob bwrdd iechyd yng Nghymru wahanol gryfderau, fodd bynnag nid yw o angenrheidrwydd yn sicr fod gan fyrddau iechyd cyfagos gryfderau sy'n ategu ei gilydd. Dylai'r strategaeth felly bwysleisio gwerth cydweithio rhwng sefydliadau y tu allan i'r rhanbarthau traddodiadol. Argymhelliad arall a wnaed ar gyfer y strategaeth yw canolbwyntio ar hyfforddiant ac addysg i helpu goresgyn prinder staff a sicrhau system gofal cymdeithasol sy'n addas i'r diben. Teimlai ymatebydd arall fod gofal

cymdeithasol fel pe bai yng nghysgod gofal iechyd yn y strategaeth, er enghraifft gyda'r defnydd cyffredin o'r term "claf".

Sefydliadau Ymchwil

- 4.76 Gwnaeth sefydliadau ymchwil amryw o awgrymiadau i'r strategaeth o ran cyflawni Cymru iachach. Er enghraifft, awgrymodd un ymatebydd y dylai'r Strategaeth Arloesi gefnogi cyrchu bwyd a diod yn lleol wrth gaffael ar gyfer ysgolion ac ysbytai; gan sicrhau bod y lleoliadau hyn yn darparu maeth o safon sydd hefyd yn cefnogi busnesau rhanbarthol/ cenedlaethol.
- 4.77 Roedd eraill o'r farn fod ar y strategaeth angen dull integredig, cydgysylltiedig a chydweithredol, yn ogystal â llwybrau at drosoli cyllid ychwanegol i roi mwy o gymorth i fabwysiadu arloesi ar raddfa fwy yn y sector.
- 4.78 Gan adleisio teimladau a fynegwyd gan y sector preifat, roedd ymatebwyr yn annog cefnogi gofal cymdeithasol i ryddhau ei arloeseddau ei hun mewn cyd-destun, gan y byddant cydnabod y mân wahaniaethau perthnasol. Mae sefydliadau ymchwil o'r farn fod ar y strategaeth angen dull wedi ei dargedu gyda'r partneriaid perthnasol, wedi ei gefnogi gan bolisi perthnasol i gefnogi trawsnewid yn ôl yr angen mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

Trydydd Sector

- 4.79 Roedd y trydydd sector yn annog pwyslais bellach ar gydgyhyrchu yn y rhan hon o'r strategaeth, gan nodi hefyd pa mor bwysig yw bod darparwyr gwasanaethau yn cyd-drafod â chymunedau amrywiol. Nodwyd bod ar weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol eisiau lle ac amser oddi wrth eu pwysau gwaith o ddydd i ddydd i feddwl am arloesi a beth mae hynny'n ei olygu o fewn eu sector. Gallai hyn gynnwys hefyd hyrwyddo cyfraniad gan y sector gwirfoddol.

- 4.80 Er mwyn gwella ymhellach y maes hwn o'r strategaeth, roedd un ymatebydd yn crybwyll ei fod yn croesawu arloesi technolegol yn y sector hwn, a bod datblygu galluoedd digidol yn hanfodol ar gyfer hyn.
- 4.81 Roedd ymatebydd arall yn pwysu am ganolbwyntio ar ymchwil sy'n archwilio sut gall pobl anabl fyw bywydau hapus a mwy bodlon, yn enwedig wrth ddilyn y model cymdeithasol o anabledd.

Cwestiwn 21

Fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, mae'r Strategaeth Arloesi arfaethedig yn bwriadu sicrhau datblygiadau amlieithog yn ddiodyn.

Ydych chi'n cytuno bod y strategaeth yn amlinellu'r ffyrdd y mae'n gobeithio creu'n llwyddiannus yr amodau cywir i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws yr holl weithgareddau arloesi arfaethedig? Os nad ydych chi, pa weithgareddau ychwanegol dylid eu cynnal?

- 4.82 Mae gan y strategaeth y potensial o gael effaith cadarnhaol ar hyrwyddo'r Gymraeg, a rhoddwyd awgrymiadau niferus gan ymatebwyr ar sut y gellid gwneud hyn ymhellach.

Sector Preifat

- 4.83 Teimlai rhai ymatebwyr o'r sector preifat nad yw'r strategaeth yn amlinellu'n benodol sut y gellid defnyddio'r Gymraeg drwy'r holl weithgareddau arloesi arfaethedig, pan fo'n hanfodol fod ganddi statws cyfartal ym mhob agwedd o fywyd yng Nghymru. Awgrymwyd hefyd y gellid defnyddio dull mwy blaengar, ym maes caffael cyhoeddus er enghraifft, gyda'r strategaeth mewn sefyllfa i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg mewn ffyrdd dychmygus i bontio at amgylchedd lle gall creadigrwydd ychwanegu'n wirioneddol at ddatblygu diwylliant arloesol.

- 4.84 Teimlai ymatebydd o'r sector preifat fod angen rhoi ystyriaeth hefyd i'r effaith ar fusnesau bach a chanolig gan y gall costau cyfieithu fod yn sylweddol ac yn rhwystr.

Sector Cyhoeddus

- 4.85 Roedd ymatebwyr o'r sector cyhoeddus yn awgrymu bod angen amcanion mwy penodol yn y maes hwn, gydag amrywiaeth barn a ddylai'r strategaeth gadarnhau'r Gymraeg fel thema drawsbynciol neu ei gweithredu ar wahân fel ased arloesi unigryw yn ei hawl ei hun. Roedd ar ymatebwyr eisiau gweld y strategaeth yn cefnogi ymdrechion ehangach Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Gymraeg ar y cyd, ond iddi osod cyfeiriad mwy strategol i'r dyfodol gyda dyheadau diwylliannol.

Sefydliadau Ymchwil

- 4.86 Mae Prifysgol Caerdydd University yn cefnogi i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg gael eu gwreiddio ym mhob gweithgarwch arloesi fel rhan annatod y byddent yn cynnig ei fframio yn unol â hynny. Roedd ymatebwyr yn cytuno y gellid dweud llawer mwy am hyn, ac roedd un ymatebydd yn awgrymu amlinellu rhan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wrth gefnogi'r strategaeth hon.
- 4.87 Dywedodd ymatebydd arall fod angen i fwy o fyfyrwyr ddysgu'r iaith, yn enwedig y rheini mewn prifysgolion, er mwyn cynyddu hyder wrth ddefnyddio'r iaith.
- 4.88 Yn ogystal, roedd ymatebydd yn nodi'r angen am ddatblygu technolegau digidol i gefnogi cymunedau'r iaith mewn ffyrdd sy'n diogelu'r defnydd o'r iaith. Argymhelliad arall oedd cymorth a chanllawiau mewn cyfieithu i fusnesau bach a chanolig, fel y crybwyllwyd gan y sector preifat.

- 4.89 Gwnaed y sylw gan un sefydliad ymchwil nad oedd gan y strategaeth ddim cyfeiriad at werth cefnogi'r iaith a'r diwylliant Cymraeg mewn perthynas ag iechyd a llesiant, cymunedau, a llywodraethu.

5. Adran 4 – Cydraddoldeb a Chodi'r Gwastad

Canfyddiadau allweddol:

- Pryderon fod y strategaeth yn drefol ac yn canolbwyntio ar dde Cymru
- Mae ar ymatebwyr eisiau gweld mwy o grwpiau a dangynrychiolir yn cael eu cynnwys, gan gynnwys (ond nid yn unig) pobl LGBTQ+, pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, pobl hŷn, a phobl anabl
- Mae angen mynediad cyfartal i bawb gymryd rhan mewn cyfleoedd arloesi ac elwa ohonynt
- Ystyried amrywiaeth rhanbarthol Cymru wrth ddatblygu'r strategaeth
- Sicrhau cyfathrebu cyson a rheolaidd gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a chyrrff eraill y Deyrnas Unedig.

Cwestiwn 14

Ydych chi'n credu bod gan y strategaeth y potensial i effeithio'n gadarnhaol ar bob rhanbarth yng Nghymru? Os nad ydych chi, pa gamau gweithredu sydd eu hangen?

- 5.1 Er bod rhai yn credu bod gan y strategaeth y potensial i effeithio'n gadarnhaol ar bob rhanbarth yng Nghymru, roedd ymatebwyr eraill yn llai cadarnhaol. Dywedodd rhai ymatebwyr eu bod yn teimlo bod gan y strategaeth ganolbwynt deheuol yn troi o amgylch Caerdydd, ac y dylai fod mwy o sylw ar ogledd Cymru. Roedd pryder hefyd ynghylch sut y bydd y strategaeth yn effeithio'n gadarnhaol ar economïau gwledig. Roedd un ymatebydd yn mynegi amheuaeth ac yn nodi y byddai effeithiau cadarnhaol o'r strategaeth ledled Cymru yn anodd eu mesur.

Ymatebwyr Sector Preifat

- 5.2 Teimlai ymatebwyr o'r sector preifat fod yn rhaid i Gymru osod sylfaen cystadleuol yn fyd-eang ar gyfer buddsoddi. Rhaid i'r strategaeth felly

sicrhau bod Cymru'n cynnig amgylchedd a all ddenu a chadw doniau byd-eang, yn enwedig mewn disgyblaethau a sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol. Er mwyn hyn, roedd awgrymiadau y dylid cefnogi canolfannau arloesi (megis y rheini yng Nghaerdydd, Abertawe, a Bangor), a dyrannu buddsoddiad pellach i sefydlu canolfannau o'r fath mewn lleoedd eraill. Mae angen i ganolfannau arloesi fod o fewn cyrraedd hawdd ar draws pob rhanbarth.

- 5.3 Roedd Hwb Cydlynu Arloesi Masnachol Gorllewin Cymru yn nodi'r angen am dull strwythuredig o arloesi, a ddylai gynnwys cael gwared ar rwystrau biwrocratiaeth (ee rheolau caffael) er mwyn galluogi'r sector cyhoeddus i arloesi mwy gyda busnesau bach a chanolig a chefnogi twf economïau lleol.
- 5.4 Dylai'r Strategaeth flaenoriaethu'r angen i ailadeiladu cydnherthedd gwasanaethau ecosystem sy'n chwarae rhan allweddol yn nyfodol y Gymru wledig.

Ymatebwyr Sector Cyhoeddus

- 5.5 Dywedodd ymatebydd o'r sector cyhoeddus fod angen tryloywder ynghylch unrhyw "fformiwlâu cyllido" a gynhyrchir, ac y dylai'r rhain fod yn hygyrch ac ar gael i'r cyhoedd.
- 5.6 Nodwyd bod y disgrifiadau o'r pedwar fframwaith rhanbarthol yn gosod sail gref. Fodd bynnag, mae angen manylder pellach er mwyn paratoi cynlluniau ar gyfer buddsoddi mewn arloesi yn y lleoliadau hyn. Dylai ymarferiad o'r fath ddefnyddio'r sectorau cyhoeddus, preifat ac addysg i roi manylder ar y cryfderau arloesi cymharol, unrhyw allu nodedig mewn sector penodol, academia/ymchwil preifat blaenllaw yn fyd-eang a'r rhaglenni presennol o weithgareddau galluogi yn y rhanbarthau.
- 5.7 Dywedodd un ymatebydd y dylai'r Strategaeth fod yn gyson ag egwyddorion a gweledigaeth Bargen Twf gogledd Cymru trwy ganolbwyntio clystyrau o amgylch 'asedau maged' a sectorau blaenoriaeth i bob rhanbarth. Dylai'r strategaeth sicrhau hefyd fod

hyblygrwydd i'r rhanbarthau adeiladu ar eu cryfderau a denu buddsoddiad.

- 5.8 I'r sector iechyd mae teimlad y gallai'r Strategaeth ryddhau cyfleoedd i gofleidio arloesi o fewn pob lleoliad iechyd a gofal a thrawsnewid darpariaeth gwasanaethau iechyd. Argymhellwyd dyrannu cyllid i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu'n nes at gartrefi a bod ôl-groniadau mewn diagnosteg a llawfeddyginiaethau yn cael eu lleihau.

Sefydliadau Ymchwil a Sefydliadau Academaidd

- 5.9 Roedd sefydliadau ymchwil a sefydliadau academaidd yn pwysleisio'r angen am fuddsoddiad yn seilwaith trafndiaeth a digidol Cymru fel y gall pob cymuned gymryd rhan mewn arloesi, boed hwy'n wledig neu drefol.
- 5.10 Mae angen dull arloesi sy'n seiliedig ar leoedd er mwyn sicrhau bod pob arloesi wedi ei angori ar ofynion penodol pob rhanbarth. Er enghraifft, gellid defnyddio cronfeydd fel Cronfa Cryfder mewn Lleoedd UKRI i ganolbwyntio ar gryfderau cystadleuol penodol gwahanol ranbarthau.

Ymatebwyr Trydydd Sector

- 5.11 Dylai Llywodraeth Cymru, trwy waith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW) a Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru, geisio sicrhau bod gan gleifion ledled Cymru fynediad gwell a theg at dreialon ymchwil a chlinigol.
- 5.12 Dylai'r Strategaeth Arloesi gynnwys ymrwymadau i gryfhau galluoedd craidd sy'n ymwneud ag arloesi ar draws pob sector, gan gynnwys dulliau seiliedig ar leoedd a buddsoddi mewn trafndiaeth ledled Cymru gyfan.

Cwestiwn 15

A oes anghydraddoldebau yn y sector Ymchwil, Datblygu ac Arloesi nad yw'r strategaeth ddrafft wedi ymdrin â nhw? Sut gallai'r strategaeth fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn?

- 5.13 Roedd ymatebwyr yn nodi amrywiol anghydraddoldebau yn y sector ymchwil, datblygu ac arloesi, a rhoddwyd enghreifftiau ar sut i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y sector, gan gynnwys: pwysleisio pwysigrwydd yr economi sylfaenol, cydnabod gwerth cyfleoedd i wirfoddolwyr, a chryfhau perthynas â phrifysgolion (yn enwedig yn y canolbarth). Roedd ymatebydd yn dymuno hefyd i'r strategaeth hyrwyddo'r ffaith y gall unrhyw un arloesi, ac nad yw ymchwil a datblygu ar gyfer gwyddonwyr yn unig.

Ymatebwyr Sector Preifat

- 5.14 Roedd ymatebwyr yn amlygu'r angen i gefnogi busnesau micro gan mai hwy yw rhai o'r cwmnïau mwyaf arloesol yn yr ecosystem arloesi ac sydd â'r potensial mwyaf am dwf.
- 5.15 Rhaid i'r strategaeth roi ystyriaeth i'r rhaniad de a gogledd o fewn Cymru er mwyn targedu cyllid a dyrannu adnoddau addysg. Dywedodd ymatebydd o'r sector preifat ei fod yn credu nad oedd y strategaeth yn crybwyll canolbarth Cymru o gwbl, a'i fod yn ymddangos fel pe bai wedi cael ei "anghofio". Roedd yr ymatebydd yn awgrymu y gallai mwy o fanylder yn y maes hwn fod o fudd i'r strategaeth.
- 5.16 Mae angen cymryd camau i ddatblygu cyrsiau prifysgol sy'n cefnogi myfyrwyr ac sy'n helpu datblygu graddedigion medrus.

Ymatebwyr Sector Cyhoeddus

- 5.17 Yn ôl awgrym un ymatebydd, cyn belled ag y caiff saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol eu gwireddu yn y prif naratif, yna bydd y strategaeth ddrafft yn addas i'r diben.

- 5.18 Dywedodd ymatebydd arall o'r sector cyhoeddus fod, o fewn y sector, gormod o ganolbwyntio ar feddyginiaeth a gwyddor feddygol. Roedd yn awgrymu y dylid rhoi mwy o sylw ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol trwy fabwysiadu mwy o bwyslais ar alluogi ymchwil mewn meysydd fel gofal cymdeithasol, tai a'r trydydd sector.
- 5.19 Dylai'r strategaeth gydnabod y gwahaniaethau rhwng rhanbarthau Cymru o safbwynt mynediad at gyllid ymchwil a datblygu. Â'r ymatebydd ymlaen i argymhell y dylid cyhoeddi cynllun gweithredu ar gyfer cyllid law yn llaw â llwybrau manwl ar gyfer gweithredu.
- 5.20 Unwaith eto, o ran gwahaniaethau, dylai'r Strategaeth gydnabod yr anghydraddoldebau sylweddol rhwng y rhywiau mewn sectorau megis seibr, technoleg ariannol a deallusrwydd artiffisial, na roddir sylw iddynt ar hyn o bryd i'r un graddau â STEM. O ran cefnogi busnesau technoleg a berchnogir gan fenywod, mae angen gwneud mwy i helpu'r rheini a dan-gynrychiolir ar hyn o bryd i wireddu eu syniadau a masnacheiddio ymchwil a datblygu.

Sefydliadau Ymchwil a Sefydliadau Academaidd

- 5.21 Mae un ymatebydd yn argymhell y byddai rhoi mwy o bwyslais ar dechnolegau iaith a sectorau creadigol yn hytrach na gweithgynhyrchu yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ymchwil.
- 5.22 Dylid amlygu'r prosiect hynod lwyddiannus a gyllidwyd gan ERDF ar draws rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd fel enghraifft o'r sector arloesi o fewn Cymru. Gellid addasu'r model cyflym, adweithiol a mawr ei effaith hwn ledled Cymru.
- 5.23 Roedd ymatebwyr o'r sector hwn yn argymhell llunio cysylltiadau effeithiol rhwng canlyniadau ymchwil gymhwysol, addysg alwedigaethol a chwricwla hyfforddi, ac anghenion busnes a diwydiant.

- 5.24 Awgrymwyd y dylai'r strategaeth archwilio gallu'r sector addysg bellach i gyfrannu a chydweithio ar brosiectau arloesi ac mewn rhai achosion eu harwain, gan ymestyn yn ogystal gyllid arloesi a gweithgarwch i'r sector addysg bellach.

Trydydd sector

- 5.25 Gwnaed y sylw gan un ymatebydd o'r trydydd sector nad yw'r strategaeth yn cydnabod yr anghydraddoldebau sy'n effeithio ar oedolion hŷn, o safbwynt eu gallu a'u dewis i fyw yn eu cartrefi eu hunain gyda gofal cymdeithasol digonol, waeth beth fo'u cyflyrau meddygol na statws economaidd-gymdeithasol.
- 5.26 Teimlai ymatebydd arall fod yr adran hon o'r Strategaeth yn esgeulso'r ffaith nad yw gwaith cyflogedig bob amser yn llwybr ymarferol allan o dlodi nac o 'godi'r gwastad' i bobl anabl, pobl sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol rhag cyflogaeth, neu phobl hŷn. Mae'n awgrymu y dylai'r strategaeth ailystyried beth yn hollol yw 'cynhyrchiant', a sut y gellid cefnogi a digolledu gweithgareddau o'r fath yn well.

Cwestiwn 16

A oes unrhyw grwpiau a dan-gynrychiolir nad yw'r strategaeth wedi'u nodi fel grwpiau blaenoriaeth?

- 5.27 O ran a oedd grwpiau a dan-gynrychiolir nad ydynt wedi eu nodi fel grwpiau blaenoriaeth o fewn y strategaeth, roedd yr ymatebwyr yn nodi'r grwpiau canlynol:
- Gwirfoddolwyr a gofalwyr
 - Gweithwyr ffatri a gweithwyr siopau
 - Pobl o aelwydydd incwm is sy'n dioddef cyfyngiadau yn y graddau mae cysylltiadau trafndiaeth ar gael iddynt o fewn eu cymunedau lleol

- Ffoaduriaid
- Pobl hŷn
- Pobl ifanc 18-35 oed
- Graddedigion o brifysgolion Cymru
- Merched mewn STEM
- Cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol
- Y gymuned LGBTQ+
- Pobl anabl
- Pobl sy'n byw gyda salwch cronig
- Pobl ddigartref
- Pobl heb fynediad at gronfeydd cyhoeddus
- Pobl nad ydynt mewn gwaith cyflogedig
- Y rheini sy'n profi tlodi bwyd
- Pobl ifanc mewn cymunedau gwledig
- Busnesau bach a chanolig / Busnesau micro, bach a chanolig
- Cymunedau teithwyr
- Cymunedau ieithoedd lleiafrifol
- Pobl niwroamrywiol
- Pobl o gymunedau difreintiedig

Cwestiwn 17

Yng nghyd-destun agenda codi'r gwastad y DU, sut gallwn ni ystyried amrywiaeth ranbarthol yng Nghymru ymhellach wrth ddatblygu'r strategaeth hon?

- 5.28 Roedd amrywiaeth o ymatebion yn disgrifio sut y gall Llywodraeth Cymru ystyried ymhellach amrywiaeth rhanbarthol Cymru wrth ddatblygu'r Strategaeth Arloesi. Dywedodd ymatebwyr o'r sector cyhoeddus fod yn rhaid i Lywodraeth y Deyrnas Unedig gydnabod a gwerthfawrogi amrywiaeth ranbarthol a sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu cynnig i bawb. Er bod hyn yn cael ei grybwyll, teimlai un ymatebydd y gallai'r strategaeth amlygu'n gryfach sut y gall Cymru

elwa o fod yn rhan o dirwedd ehangach y Deyrnas Unedig, gan ei fod yn credu y “gallwn fod yn fwy uchelgeisiol gyda’n gilydd.”

- 5.29 Roedd ymatebwyr yn ailadrodd yr angen i’r strategaeth ymrwymo i strategaethau twf a buddsoddi ar draws y rhanbarth ac o fewn yr holl gymunedau lleol. Dywedodd ymatebwyr fod hyn yn cynnwys adfywio’r traffyrdd yng Nghymru, cynyddu trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig, a darparu gofal iechyd effeithlon ac effeithiol sy’n gynaliadwy.
- 5.30 Roedd un ymatebydd yn awgrymu bod angen i’r strategaeth gynyddu cyfleoedd am dâl i arloesi. Byddai hyn yn cynnig cyfleoedd mwy cyfartal i bobl gymryd rhan mewn arloesi.

Sector Preifat

- 5.31 Roedd un ymatebydd o’r sector preifat yn pwysu ar i’r strategaeth hyrwyddo trafodaethau rheolaidd gyda llywodraeth y Deyrnas Unedig i gaffael cyfran deg o gyfleoedd agenda codi’r gwastad, gyda holl gynrychiolwyr yr ecosystem arloesi yn cymryd rhan.
- 5.32 Roedd ymatebydd arall yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru / y strategaeth ystyried dosbarthu cyllid yn gyfartal yn hytrach na thrwy geisiadau cystadleuol er mwyn galluogi prifysgolion mewn ardaloedd lleol i ennill cyllid yn effeithiol. Ychwanegodd hefyd ei bod yn bwysig mewn addysg i’r strategaeth barhau i gyfuno cyrsiau dysgu i alluogi’r rheini mewn cymunedau gwledig gael at addysg gofal iechyd ac ymuno â’r gweithluoedd sydd eu hangen yn eu cymuned.

Sector Cyhoeddus

- 5.33 Roedd ymatebwyr o’r sector cyhoeddus yn credu bod angen hysbysu’n well beth sydd eisoes yn cael ei ddatblygu o safbwynt arloesi yng Nghymru. Er enghraifft, roedd ymatebydd yn awgrymu y gallai fod yn ddefnyddiol helpu sut y gall y strategaeth hyrwyddo arloesi lleol a rhanbarthol trwy gysylltu â strwythurau fel Byrddau

Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Hybiau Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwella. Argymhellwyd hefyd cydweithio'n agos â rhwydwaith o sefydliadau a phartneriaid megis Diverse Cymru, Colegau Cymru, BSI. Roedd un ymatebydd yn pwysu ar y strategaeth i nodi cryfderau lleol ledled Cymru, nid rhai rhanbarthol neu genedlaethol yn unig, a rhoi cyfleoedd i'r rhain ffynnu.

- 5.34 Roedd galwad hefyd ar i'r strategaeth ymdrin yn fwy eang â'r cyddestun rhanbarthol – Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Uchelgais Gogledd Cymru a Bargaen Ddinesig Bae Abertawe. Roedd ymatebwyr yn argymhell dull seiliedig ar leoedd sy'n sicrhau bod data o ddatganiadau ardal a chynlluniau llesiant yn cael ei ddefnyddio i ysgogi arloesedd yn yr ardaloedd lle mae ei angen fwyaf, gan nodi'r cryfderau a'r dyheadau allweddol ar gyfer arloesi. Er enghraifft, roedd un ymatebydd yn argymhell bod y strategaeth yn cydnabod rôl y Byrddau Partneriaeth Lleol sy'n arwain y gwaith o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- 5.35 Gan gytuno â'r sector preifat, roedd un ymatebydd yn argymhell bod y strategaeth yn pwysu am gyd-drafod rheolaidd â phenderfynwyr y Deyrnas Unedig ar bob lefel er budd Cymru.

Sefydliadau Ymchwil a Sefydliadau Academaidd

- 5.36 Dywedodd ymatebydd o'r sector hwn fod angen cymryd gofal er mwyn sicrhau nad yw 'amrywiaeth rhanbarthol' yn cael ei ddefnyddio fel esgus i ddal datblygiad yn ôl neu i ddelweddu rhai rhanbarthau.
- 5.37 Roedd Colegau Cymru yn awgrymu cyd-drafod ag awdurdodau lleol, gan gynnwys y sianelau rhanbarthol a sefydlwyd, er mwyn sicrhau bod arloesi yn rhan o unrhyw geisiadau neu drafodaethau ynghylch Ffyniant Cyffredin. Roedd ymatebydd arall yn ategu hyn trwy awgrymu dulliau cydweithredol o ran y Gronfa Ffyniant Gyffredin a chymorth refeniw. Ar y llaw arall, roedd ymatebydd arall yn argymhell darparu llwyfannau cyfathrebu i gynnwys grwpiau o bob rhanbarth i adolygu'r Strategaeth, ond *nid* o safbwynt awdurdod lleol.

Trydydd Sector

- 5.38 Roedd un ymateb gan y trydydd sector ynghylch agenda codi'r gwastad ac amrywiaeth rhanbarthol. Roedd yn annog y strategaeth i hyrwyddo a chreu awyrgylch cydweithredol ledled Cymru, gan ddefnyddio technoleg i gysylltu pobl.

6. Adran 5 – Barn ar Arloesi

Canfyddiadau allweddol:

- Diwylliant o arloesi yw un lle gall syniadau ffynnu, cael eu profi, a chael eu gwella
- Er mwyn datblygu diwylliant arloesi mae angen am arweiniad cefnogol
- Mae rhwystrau rhag arloesi yng Nghymru yn cynnwys ffactorau demograffig, costau, a sgiliau
- Teimla'r mwyafrif o ymatebwyr nad ydynt yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn arloesi yn sgil cyfleoedd cyfyngedig
- Mae angen mwy o gydweithio rhwng yr 'helix-triphlyg'
- Sefydlu a hyrwyddo canolfannau arloesi hygyrch ar lefel y gymuned ac annog dulliau newydd.

Cwestiwn 22

Un o nodau'r strategaeth yw creu diwylliant o arloesi yng Nghymru, un sy'n cydweithio, yn rhannu risg, yn hybu cyfranogiad ac yn helpu'r ecosystem i arloesi.

Beth mae diwylliant o arloesi yn ei olygu i chi? Beth sydd ei angen i ddatblygu diwylliant o arloesi yng Nghymru?

Beth mae diwylliant o arloesi yn ei olygu?

- 6.1 Roedd un ymatebydd o'r sector cyhoeddus yn diffinio diwylliant o arloesi fel amgylchedd gwaith mae arweinwyr yn ei hyrwyddo i feithrin ffyrdd gwreiddiol a gwahanol o feddwl ac o weithredu. Cafodd ei ddisgrifio hefyd fel diwylliant lle gall unrhyw un fynegi eu hunaniaeth a syniadau i wella eu sefyllfa, prosesau, a chanlyniadau.
- 6.2 Roedd ymateb arall o'r sector cyhoeddus yn disgrifio arloesi fel diwylliant dysgu sy'n ffynnu ar "fethu'n gyflym a symud ymlaen." Cefnogwyd hyn gan ymatebydd ychwanegol a deimlai ei fod yn ddiwylliant o gymryd mwy o risgiau, o amynedd, dyfalbarhad a pherfformiad.
- 6.3 Roedd nifer o ymatebwyr o fewn y sectorau cyhoeddus a phreifat yn pwysleisio mwy o 'gymryd risgiau' fel un o'r nodweddion sy'n diffinio

diwylliant o arloesi. Roedd un ymatebydd o'r sector preifat nodi bod "peidio â chymryd unrhyw risgiau yn risg ynddo'i hun, oherwydd bydd cystadleuwyr yn achub y blaen." Roedd yr un ymatebydd yn disgrifio diwylliant o arloesi fel gweithle lle mae gweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys fel rhan o'r un tîm â'u cyflogwyr, lle'r ymddiriedir ynddynt i gymryd risgiau ac weithiau fethu, oherwydd mae methiant yn gyfle i ddysgu.

- 6.4 Mae rhai themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o ymatebion o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat wrth iddynt geisio diffinio 'diwylliant o arloesi' yn cynnwys tegwch yn y gweithle, ymddiriedaeth, cymryd risgiau a chystadlu, yn osgystal â chreadigrwydd a meddwl o'r newydd.
- 6.5 Roedd ymatebwyr o sefydliadau ymchwil ac academiaidd yn diffinio eu rolau eu hunain fel enghreifftiau o 'ddiwylliant arloesi' ar waith. Roedd un sefydliad ymchwil yn nodi bod "diwylliant arloesi wedi ei wreiddio yn yr hyn a wnawn ... mae diwylliant arloesi da yn grymuso, gan annog pawb i ystyried sut y gall eu gwaith fod o fudd."

Beth sydd ei angen?

- 6.6 Er mwyn datblygu diwylliant o arloesi yng Nghymru roedd ymatebwyr yn awgrymu'r angen i feithrin mwy o uchelgais mewn cymdeithas trwy hyrwyddo, gwobrwyo, a dathlu achosion cadarnhaol o arloeswyr llwyddiannus i ysbrydoli eraill. Teimlai un ymatebydd fod cyflawni'r diwylliant hwn yn golygu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru yn gyntaf ddiffinio 'arloesi' yn ddigonol a chefnogi'r strategaeth â chymorth ariannol.
- 6.7 Nodwyd gan Gymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain fod mwy o angen am gydwethio traws-sector; yn enwedig rhwng 'helix triphlyg' academia, busnesau bach a chanolig, diwydiant, a llywodraeth. Er mwyn gwireddu hyn, mae llwyfan o addysg a chyfathrebu clir rhwng rhanddeiliaid yn angenrheidiol. Yn y cyswllt hwn, roedd un ymatebydd o'r sector cyhoeddus yn nodi diffyg cysylltedd effeithiol a

rhwydweithiau cymharol wan rhwng yr amrywiol weithredwyr a grwpiau o fewn yr ecosystem arloesi yng Nghymru, sy'n gweithredu fel rhwystr rhag arloesi.

- 6.8 O safbwynt gwella cysylltedd, dywedodd ymatebydd o'r sector cyhoeddus fod canolfannau arloesi yn allweddol er mwyn creu diwylliant o arloesi gan eu bod yn cynnig lle i benderfynu ar nodau, annog meddwl gwreiddiol a gwahanol, cynnal gweithdai arloesi, creu heriau syniadau, a thyfu entrepreneuriaeth. Yn yr un modd, roedd ymatebydd arall yn nod y gallai 'comin arloesi' fod yn fodd defnyddiol o gysylltu rhyngwynebau, gan weithredu fel 'dolen goll' rhwng gweithredwyr arloesi a sefydliadau yng Nghymru.
- 6.9 Roedd amryw o ymatebion yn amlygu'r angen i herio biwrocratiaeth ormodol fel bod gan sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat fwy o ryddid i fabwysiadu dulliau arloesol sy'n tarfu ac sydd â'r potensial o newid ffordd o feddwl.
- 6.10 Gan adeiladau ar y syniad o ddylanwad a newid helaeth, roedd un ymatebydd o'r sector preifat yn awgrymu bod angen i'r Strategaeth Arloesi ystyried effaith cymdeithasegol hanes cyflogaeth Cymru, sef y straeon sy'n cael eu trosglwyddo i lawr y cenedlaethau, a sut mae'r straeon hyn yn effeithio ar ganfyddiadau pobl ifanc heddiw.

Ymatebwyr Sector Preifat

- 6.11 Er mwyn datblygu ecosystem arloesi effeithiol, awgrymwyd bod arnom angen:
- Cysondeb rhwng nodau arloesi'r sector cyhoeddus a'r sector preifat
 - Gweledigaeth a rennir o lwyddiant (yn ddelfrydol gan ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel fframwaith)
 - System gydweithredol sy'n galluogi syniadau newydd i gael eu mabwysiadu'n gyflym ac effeithol
 - Meddylfryd cymunol i dderbyn, datblygu a mabwysiadu syniadau newydd a ffyrdd newydd o wneud pethau

- Parodrwydd ar draws cymuned i dderbyn rhai lefelau o risg wrth brofi a datblygu syniadau newydd
 - Poblogaeth sy'n fedrus ac yn gallu cynhyrchu syniadau, creu cysyniadau newydd a'u gwireddu.
 - Cymuned arloesi, agored i bawb, sydd fyd-eang a lleol ei hagwedd.
- 6.12 Gweithio gyda chyflenwyr Cymreig i greu busnesau bach hyfyw sydd â chynlluniau gweithredu realistig i dyfu'n araf ac organig.

Ymatebwyr Sector Cyhoeddus

- 6.13 Mae angen i bob gael amser, lle ac adnoddau digonol i ystyried yr heriau allweddol sy'n wynebu eu sefydliad yn ogystal ag amgylchedd cydnaws a chefnogol i wneud hynny ynddo.
- 6.14 Mae'n bwysig hefyd fod pobl yn teimlo'u bod wedi eu grymuso i archwilio syniadau newydd, ac felly dylid gwreiddio arloesi ym mhob cynnig addysgol. Dylai arweinwyr gydnabod pwysigrwydd arloesi trwy ei annog a'i wobrwyo o fewn eu sefydliadau. Gellid datblygu diwylliant a fframwaith atodol o reoli risgiau mewn modd cymesur er mwyn osgoi llesteirio arloesi, yn enwedig o fewn y sector cyhoeddus. Dylai staff y sector cyhoeddus, yn enwedig y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, deimlo'u bod yn cael eu grymuso i arloesi o fewn eu swyddogaethau.
- 6.15 Roedd Cyngor Sir Gaerfyrddin yn nodi bodolaeth diwylliant o "ofni methu". Roeddent yn awgrymu y gall cymryd risg a chyfarfod rhwystrau weithiau arwain at lwyddiannau mwy. Mae hyn yn cynhyrchu diwylliant o arloesi.
- 6.16 Er mwyn llwyddo, awgrymwyd bod yn rhaid inni fuddsoddi mewn arweinyddiaeth, ac adeiladu galluoedd arwain a fydd yn cofleidio newid ac yn croesawu mabwysiadu arloesi. Er mwyn cyflawni diwylliant o arloesi mewn gofal iechyd mae angen inni fod yn:
- Cefnogi hyfforddiant arwain ar gyfer arloesi
 - Monitro'n barhaus marchnad busnesau iechyd a gwyddorau bywyd, a sganio gorwel datblygiadau technolegol yn fyd-eang

- Siarad am dechnoleg – rhannu heriau a gwrando ar syniadau newydd
- Sefydlu diwylliant goddefgar sy'n mabwysiadu arloesi ac a gefnogir gan brosesau caffael
- Dathlu arloesi – yn lleol ac yn genedlaethol
- Creu ecosystem gref a gefnogir gan ddiwydiant
- Adeiladu ar raglenni a gyllidwyd ag arian Ewropeaidd megis 'Accelerate' sy'n gweithio gyda diwydiant i helpu datblygu arloesi mewn technoleg iechyd
- Cefnogi arloesi seiliedig ar dystiolaeth mewn iechyd
- Creu amgylchedd ar gyfer lledaenu a chynyddu arloesi.

6.17 Roedd ymateb gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn nodi bod arnynt eisiau gweld y strategaeth yn meithrin diwylliant o arloesi sy'n hyrwyddo grym creadigol dinasyddion a sefydliadau yng Nghymru i wynebu'r heriau a achosir gan yr argyfyngau Natur a Hinsawdd. Teimlant fod arloesi'n fater o addasu ac o roi ail gynnig arni, felly ni fydd yn gweithio'n iawn y tro cyntaf bob amser. Yr hyn sydd ei angen yw defnyddio'r hyn a ddysgwyd, ei ledaenu a gadael iddo ddylanwadu ar sut rydym yn datrys problemau yn y dyfodol. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn awgrymu bod y broses hon o fethu'n gyflym a da yn rhan ganolog ac allweddol o arloesi.

Sefydliadau Ymchwil a Sefydliadau Academaidd

6.18 Roedd sefydliadau ymchwil yn cytuno'n gyffredinol fod datblygu diwylliant o arloesi yn gofyn am flaenoriaethu ymchwil ac ymchwilwyr er mwyn ysgogi darganfyddiadau gwyddonol newydd, a fydd yn y pen draw yn cyflawni buddion i gymdeithas. Er mwyn sicrhau budd sylweddol, roedd ymatebwyr yn ailadrodd bod angen buddsoddi mewn adeiladu màs critigol yn y prif feysydd ymchwil, a fydd yn ei dro yn arwain at ennill mwy o grantiau, cynnyrch gwyddonol, a hyfforddi gweithlu uwchdechnoleg.

- 6.19 Roedd un ymatebydd yn nodi bod y Strategaeth Arloesi yn rhoi pwyslais ar drosi darganfyddiadau ymchwil trwy fusnes a diwydiant. Teimlai fod yr her fwyaf fel pe bai yn dod o ddiffyg buddsoddi mewn gwyddoniaeth darganfod ar un pen y raddfa a diffyg diwydiannau perthnasol ar y pen arall.
- 6.20 Roedd Prifysgol Caerdydd yn nodi eu bod wedi defnyddio arian Cyllid Arloesi Ymchwil Cymru i ddatblygu dull “Arloesi i Bawb’ lle cefnogir staff a myfyrwyr gyda chyfleoedd datblygu trwy hyfforddiant ac arwain/cymryd rhan mewn prosiectau a gyllidir i ennill y sgiliau a’r gwybodaeth i gyflawni arloesi sy’n cael effaith, ac sy’n berthnasol yng Nghymru ac ymhellach i ffwrdd. Dywedant fod hyn yn amlygu’r angen i ddarparu lefelau sefydlog ac ystyrion o gyllid arloesi ar lefel prifysgol er mwyn sefydlu strwythurau cymorth i ddatblygu sgiliau, arbenigedd a hyder mewn staff a myfyrwyr i gyflawni arloesi.
- 6.21 Mae angen adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn gweithio gan gynnwys y gweithgarwch cydweithredol sy’n digwydd yn lleol, yn genedlaethol a rhyngwladol. Mae Rhwydwaith Arloesi Cymru a Chymru Fyd-eang eisoes wedi cyflawni buddion wrth ffurfio partneriaethau arloesi o fewn Cymru a gyda phartneriaid rhyngwladol. Dylai cael gwared ar y rhwystrau rhag cydweithio fod yn un o nodau allweddol y strategaeth.

Ymatebwyr eraill

- 6.22 Mae angen i fusnesau bach fod yn chwarae mwy o ran wrth lywio’r strategaeth gan eu bod yn grŵp a gaiff eu tan-gynrychioli ar hyn o bryd. Roedd ymatebydd yn nodi’r angen i ddeall y rhwystrau mae busnesau ac entrepreneuriaid bach/micro yn eu hwynebu (amser ac arian). Mae’n bwysig eu hannog i wneud newidiadau bach a lleihau risg trwy ymwneud ag eraill megis prifysgolion. Mae hyn yn allweddol er mwyn sicrhau bod busnesau bach yn sylweddoli bod y strategaeth yn berthnasol iddynt hwy.

Cwestiwn 9

Beth yw'r prif heriau a rhwystrau mewn cysylltiad ag arloesi yng Nghymru? Beth sydd angen ei wneud i oresgyn y rhwystrau hyn?

- 6.23 Roedd ymatebwyr yn tynnu sylw at nifer o heriau a rhwystrau rhag arloesi yng Nghymru gan gynnwys y canlynol:
- Cost a hygyrchedd cyllid i fusnesau micro/bach
 - Diwylliant gwleidyddol sy'n gynnwys "agweddau ceidwadol diwyro" gan uwch arweinwyr
 - Diffyg cefnogaeth llywodraeth/polisi
 - Rhwystrau biwrocraidd
 - Sefydliadau'n cael eu cyfyngu gan broblemau adnoddau, rheolau caffael, a chylchoedd gwleidyddol
 - Poblogaeth sy'n heneiddio
 - Llawer o ardaloedd yng Nghymru yn anghysbell
 - Seilwaith gwael a rhwydweithiau cyfyngedig o ffyrdd, rheilffyrdd a bysiau
 - Amrywiaeth sectorau busnes
 - Dwysedd poblogaeth isel mewn rhai ardaloedd
 - Diffyg amser a sgiliau
 - Diffyg sgiliau digidol yn enwedig
 - Gwasanaethau cyhoeddus dan bwysau
 - Argyfwng costau byw
 - Diffyg mesurau/atebolrwydd
 - Amharodrwydd i gymryd risgiau
 - Diffyg cyllid
 - Colli cyllid yr Undeb Ewropeaidd ers Brexit
 - Mae buddsoddiad mewn ymchwil prifysgol yn sylweddol wanach yng Nghymru o gymharu â'r Alban a Lloegr.
- 6.24 Roedd rhai ymatebwyr yn awgrymu beth sydd angen ei wneud er mwyn goresgyn y rhwystrau hyn. Roedd un yn awgrymu y gall canolfannau rhanbarthol rwystro dyblygu trwy gysylltu â'i gilydd bobl

sy'n gwneud gwaith tebyg ac y gallant annog arloesi trwy hwyluso rhannu syniadau.

- 6.25 Roedd ymatebydd arall yn nodi'r angen i arloesi ddigwydd law yn llaw â lliniaru effeithiau'r argyfwng costau byw. Yn yr ystyr hwn dylai'r strategaeth fod yn sensitif i realiti'r argyfwng.
- 6.26 Roedd ymateb gan ddinesydd yn awgrymu'r angen i amlygu modelau rôl cadarnhaol mewn cymdeithas, yn enwedig y rheini sydd wedi goresgyn amgylchiadau heriol.
- 6.27 Un thema allweddol a ddaeth i'r amlwg o blith ymatebion o'r sector preifat oedd yr angen am gydweithio traws-sector rhwng academia, diwydiant, a llywodraeth.

Cwestiwn 23

Ydych chi'n teimlo bod gennych chi gyfle i gymryd rhan mewn arloesedd? Esboniwch pam eich bod yn teimlo y gallwch chi / na allwch chi gymryd rhan mewn arloesedd?

- 6.28 Roedd un ymatebydd o'r sector cyhoeddus yn nodi ei fod, drwy gydol ei yrfa ei hun, wedi ceisio ffurfio cysylltiadau rhwng pobl ar draws gwahanol sefydliadau, sydd wedi galluogi rhannu syniadau a diddordebau, ac sydd yn ei droi wedi arwain at arloesi a newid.
- 6.29 Roedd un ymatebydd o'r sector preifat yn pwysleisio ei fod wedi gallu cymryd rhan mewn arloesi oherwydd ei benderfyniad personol ei hun a chyfleoedd roedd wedi eu creu. Yn ôl ymatebydd arall, er eu bod wedi cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn arloesi, mae'r cyfleoedd hyn yn dod yn amlach i'w cael yn sgil lleihad mewn staff sy'n ymwneud â mesurau arloesol gyda'r awdurdod lleol a'r sector gofal cymdeithasol.
- 6.30 Fodd bynnag, teimlai cyfranogwyr eraill fod diweithdra, diffyg ymwybyddiaeth o gyfleoedd, a gallu cyfyngedig i gael at gronfeydd yn rhwystrau rhag cymryd rhan mewn arloesi. Roedd un ymatebydd yn disgrifio sut, fel 'gweithiwr cyflogedig' fod arloesi wedi ei fframio o fewn gofynion y rôl, ond fel 'dinesydd' nad oes dim cyfleoedd i arloesi.

Ymatebwyr Sector Preifat

- 6.31 Roedd un ymateb gan fusnes sy'n darparu cymorth arloesi i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru yn nodi eu bod mewn sefyllfa unigryw i gynrychioli'r busnesau gwybodaeth ledled Cymru gyfan, ac eto eu bod yn eu cael eu hunain mewn rhyw fath o wagle gan nad oes unrhyw gyfrwng na mecanwaith amlwg i gyflwyno eu sylwadau.
- 6.32 Gofynnodd ymateb arall y cwestiynau: "Sut ydym yn cysylltu â sefydliadau llywodraeth / dyfeiswyr / cwmnïau preifat gyda syniadau sydd â'r cyllid i'w symud ymlaen ond dim syniad o'r broses mae angen iddynt ei dilyn? Sut allwn ni ennill cyllid i ddatblygu ein syniadau ein hunain?"
- 6.33 Roedd un busnes yn nodi eu codi yn ei chael yn anodd cymryd rhan mewn arloesi oherwydd anawsterau ynghylch ymwneud â'r sector cyhoeddus. Byddai deall anghenion y sector cyhoeddus yn helpu cwmnïau i fuddsoddi'n addas a datblygu gwasanaethau/cynhyrchion maent yn eu colli ar hyn o bryd.
- 6.34 Cafodd gwell mynediad at gyllid a chymorth Llywodraeth ei amlygu fel blaenoriaeth allweddol.

Ymatebwyr Sector Cyhoeddus

- 6.35 Dywedodd pob ymatebydd o fewn y sector cyhoeddus eu bod yn chwarae rhan weithredol mewn arloesi. Roedd llawer ohonynt yn cyfeirio at eu rhan mewn prosiectau penodol a sut mae'r rhain yn gysylltiedig â'r ecosystem arloesi ehangach.
- 6.36 Er enghraifft, roedd Cyngor Sir Gaerfyrddin yn teimlo bod ganddo gyfle i gymryd rhan mewn arloesi trwy ei Strategaeth Arloesi a gynhyrchwyd gan Ganolfan Ymchwil Polisi Arloesi Prifysgol Caerdydd, sy'n nodi pedwar Cyfle Arloesi:
- Gwella cysylltedd digidol a manteisio ar gyfleoedd ledled Sir Gaerfyrddin
 - Iechyd – datblygu labordy byw gwasgaredig

- Economi Sylfaenol – caffael bwyd cynaliadwy
- Economi Gylchol – Trosoli dull economi gylchol ar gyfer yr agenda sero net

Sefydliadau Ymchwil a Sefydliadau Academaidd

- 6.37 Yn gyffredinol, roedd sefydliadau ymchwil yn tynnu sylw at y ffaith fod eu gwaith yn arloesol yn ei hanfod.
- 6.38 Roedd un ymatebydd yn mynegi ei anallu i arloesi yng Nghymru – bu'n rhaid iddo droi at gwmni yn Lloegr i drwyddedu ei Eiddo Deallusol gan nad oes dim byd addas sy'n cyfateb iddo ar gael yng Nghymru. Dywedodd yr un ymatebydd fod y prif rwystrau yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn tueddu i fod yn rhai biwrocraidaidd.
- 6.39 Yn yr un modd, roedd ymatebwyr eraill yn awgrymu'r angen i dorri biwrocraatiaeth, gwella ystwythder a hyblygrwydd cyllid a chymorth a chynhyrchu cydbwysedd risg sy'n annog arloesi.

7. Adran 6 – Y Gymraeg

Canfyddiadau allweddol:

- Hyrwyddo'r Gymraeg trwy ddatblygiad technolegol a meddalwedd
- Buddsoddi mewn cwmnïau cynhenid Cymraeg i ddatblygu meddalwedd iaith
- Mae angen i'r Gymraeg gael ei gwreiddio'n fwy drwy'r holl strategaeth
- Mae lle'r Gymraeg yn y Strategaeth Arloesi yn cydreddeg i raddau helaeth â'r angen i ddatblygu meddalwedd iaith hygyrch, fforddiadwy, a mynd i'r afael ag allgáu digidol.

Cwestiwn 35

Byddem yn hoffi clywed eich barn ar yr effeithiau y byddai Strategaeth Arloesi Cymru'n eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau posibl yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau'r effeithiau negyddol?

- 7.1 Roedd un ymatebydd o'r sector preifat yn nodi bod Cymru mewn sefyllfa dda i ddod yn allforwr cynhyrchion meddalwedd amlieithog. Roedd yn awgrymu ymhellach y gallai'r strategaeth fod â'r potensial i gynyddu ymwybyddiaeth a diddordeb yn y Gymraeg y tu allan i Gymru ac annog mwy o bobl i'w dysgu. Roedd yn argymhell:
- Gwasanaethau digidol hawdd eu deall yn yr iaith a ddewisir
 - Adnoddau digidol ar gyfer trochi dwyieithog sy'n pontio'r bwlch rhwng rhieni Saesneg eu hiaith a phlant a gaiff eu haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg
 - Hyrwyddo mabwysiadu technolegau sy'n bod eisoes fel Duolingo
- 7.2 Unwaith eto, o'r sector preifat, gwnaed y sylw fod Cymru ddwyieithog yn cynnig pwynt gwerthu unigryw y dylid manteisio i'r eithaf arno mewn modd adeiladol a chreadigol i gael hynny ag sy'n bosibl o

effaith, o safbwynt cymdeithasol ac economaidd. Crybwyllwyd Cymdeithas Bêl-droed Cymru fel enghraifft wych o sut i ddefnyddio'r iaith yn barchus a chyson i atgyfnerthu neges. Gellid cyflawni effeithiau cadarnhaol trwy'r camau canlynol:

- Defnyddio caffael cyhoeddus mewn modd mwy blaengar a mynnu bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n ddwyieithog lle defnyddir cyllid cyhoeddus
- Manteisio ar y tueddiadau a hwyluso amgylchedd mwy cefnogol i ddysgwyr ennill hyder yn gyflymach
- Dathlu effeithiau cadarnhaol prif-ffrydio'r iaith o fewn ecosystem arloesi Cymru
- Helpu busnesau i ddatblygu gallu cynaliadwy yn y Gymraeg.

Gellid lliniaru negyddol trwy'r canlynol:

- Rhannu gwahanol bersbectifau
- Bod yn ffeithiol
- Datblygu naratif sy'n amlygu manteision busnes defnyddio'r Gymraeg i greu, hyrwyddo a darparu cynhyrchion a gwasanaethau unigryw.

- 7.3 Yn ôl ymateb a gyflwynwyd gan sefydliad ymchwil, er yn cydnabod bod y pwyslais ar y Gymraeg a thechnoleg yn ddefnyddiol, dylid gwneud mwy i integreiddio'r Gymraeg drwy'r holl strategaeth. Byddai integreiddio'r Gymraeg yn fwy drwy'r holl Strategaeth, yn hytrach nag fel cenhadaeth ar ei phen ei hun, yn helpu pwysleisio'r potensial i ddiwylliant arloesi gael ei weithredu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 7.4 Yr hyn a nodwyd gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd oedd, er bod gan dechnoleg botensial aruthrol ynglŷn â'r Gymraeg, mae'r Brifysgol wedi profi problemau sy'n ymwneud ag allgáu digidol yng Nghymru a'r rhwystrau y gall technoleg eu creu, lle nad yw gwasanaethau dwyieithog ar gael.
- 7.5 Yn ôl sefydliad ymchwil arall, gallai'r strategaeth gael effaith cadarnhaol anferthol posibl ar y Gymraeg. Fodd bynnag, mae angen datgan yn gliriach nad mater o ddarparu meddalwedd dwyieithog yw

hyn ond yn hytrach arloesi gwirioneddol ddwyieithog ac amlieithog, sy'n arwain at farchnadoedd ehangach. Yn yr achos hwn, mae ymchwil a buddsoddi mewn sectorau Technoleg Iaith yn hanfodol er mwyn datblygu'r technolegau craidd – lleferydd, cyfieithu peirianyddol, deallusrwydd artiffisial etc, y dylid eu gwreiddio mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

- 7.6 Mae dwyieithrwydd yn cynnig cyfleoedd i wella llesiant gartref ac yn cyfrannu at ragolygon economaidd Cymru yn rhyngwladol.

Cwestiwn 36

Hefyd, esboniwch sut rydych yn credu y gallai'r strategaeth arfaethedig gael ei ffurfio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu ragor o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- 7.7 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn mynegi'r farn y dylai'r Gymraeg gael statws cyfartal â'r Saesneg ym mhob agwedd o fywyd yng Nghymru.
- 7.8 Roedd un ymatebydd yn awgrymu'r angen am gysondeb cryfach gyda'r Cwricwlwm i Gymru a'r camau a gynigir gan Lywodraeth Cymru yn ei gynllun 10-mllynedd ar gyfer y gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg.
- 7.9 O'r sector preifat daeth yr argymhelliad y dylai "Gorllewin Cymru (de/canolbarth a gogledd)" fod yn rhan ganolog o gynlluniau'r Llywodraeth yn hytrach na chael ei ychwanegu ar ôl ymdrin â'r rhanbarth metropolitan.
- 7.10 Mae'r dyfeisiadau a'r gwasanaethau a grewyd eisoes yn cynnig cam cadarnhaol ymlaen ond mae angen iddynt gael eu hyrwyddo'n well. Awgrymwyd y gellid defnyddio Canolfan Gydweithredol Caffael Cymru i gaffael meddalwedd/gwasanaethau dwyieithog a allai weithio ar

draws llawer o sectorau yng Nghymru a thrwy hyn sicrhau gwerth am arian.

- 7.11 Mae angen pwysleisio manteision gwell gwasanaethau dwyieithog a gwell mynediad atynt wrth weithio tuag at y nod o wneud y Gymraeg yn “hawdd”.
- 7.12 Daeth ymateb cynhwysfawr iawn i'r cwestiwn gan y sector ymchwil a oedd yn nodi bod amryw o gyfleoedd nas gwireddir ar hyn o bryd a fyddai'n cael effaith cadarnhaol ar ddatblygu arbenigedd a sgiliau lle gallai buddsoddiad wneud Cymru yn chwaraewr byd-eang mewn technolegau digidol amlieithog arloesol. Mae'r rhan yn cynnwys:
- Awtomeiddio cyfathrebu electronig
 - Cyfieithu awtomatig
 - Dewis o wasanaeth dwyieithog wrth ymdrin â gwasanaethau cyhoeddus a phreifat
 - Sgwrsfotau
 - Technolegau cynorthwyol yn y Gymraeg i bobl anabl, pobl hŷn etc.
 - Troi testun yn llafar i bobl â nam ar y golwg
 - Technoleg adnabod llais i bobl sydd â nam ar y clyw
 - Cymhorthion cyfathrebu i bobl niwroamrywiol a phobl â dementia
 - Dwyieithrwydd i'r diwydiannau creadigol ac adloniant
 - Is-deitlo awtomatig
 - Cyfieithu peirianyddol
 - Defnydd creadigol o leisiau synthetig etc.
- 7.13 Roedd amryw o ymatebwyr o fewn y sector cyhoeddus a'r sector ymchwil yn nodi'r rôl allweddol mae technoleg yn ei chwarae wrth ehangu'r defnydd o'r Gymraeg. Ar y thema hon:

- Mae cwmnïau technoleg yn datblygu eu meddalwedd i weithio gyda sawl iaith – dylid annog darparwyr yn y Deyrnas Unedig i wneud yr un fath
- Buddsoddi mewn cwmnïau cynhenid Cymraeg i ddatblygu meddalwedd iaith. Defnyddio technoleg glyfar i helpu mewn meysydd fel cymorth dementia.
- Mae'r dyfeisiadau a'r gwasanaethau a ddatblygwyd eisoes (ee Cysill a Cysgair) yn cynnig cam cadarnhaol ymlaen ond mae angen iddynt gael eu hyrwyddo'n well a'u datblygu.

8. Adran 7 – Sylwadau Terfynol

Canfyddiadau allweddol:

- Cymorth ariannol i bobl anabl
- Angen mwy o gefnogaeth i geiswyr swyddi
- Gwneud yr arolwg yn haws i'r rheini sydd ag anawsterau dysgu
- Crynodeb o eirfa termau
- Cynnwys ystyriaethau gofal cymdeithasol

Cwestiwn 37

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, mae croeso i chi ddefnyddio'r lle hwn i'w nodi.

- 8.1 Roedd llawer o'r adborth a roddwyd yn yr adran 'Sylwadau Terfynol' yn ailadrodd pwyntiau a wnaed mewn ymateb i gwestiynau blaenorol. Yn gynwysedig yma mae crynodeb o rai o'r ymatebion mwy sylweddol.
- 8.2 Roedd galwadau am fwy o gymorth ariannol i bobl anabl a cheiswyr swyddi yng Nghymru.
- 8.3 Nodwyd nad oedd yr arolwg yn hygyrch i'r rheini sydd ag anawsterau dysgu yn sgil y cwestiynau hir a safon uchel mewn gallu i ddarllen.
- 8.4 Roedd un ymatebydd yn argymhell ail ddrafft llawer byrrach a mwy cryno law yn llaw ag atodiad o weithgarwch a llwyddiannau ar hyn o bryd.
- 8.5 Roedd ychydig o ymatebwyr yn galw am grynodeb ymarferol a geirfa.
- 8.6 Roedd ymatebydd arall yn awgrymu bod yr adnoddau, cyllid yn ogystal â mentrau ehangach a'r trosolion yn cael eu nodi'n glir fel rhan o'r strategaeth.

- 8.7 Roedd Gofal Cymdeithasol Cymru'n mynegi'r angen am i lais cryfach dros ofal cymdeithasol gael ei adlewyrchu yn y strategaeth, ac mewn polisi arloesi yn ehangach.


9. Adran 8 – Camau Nesaf

- 9.1 Diolch i bawb a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad. Ar sail y dadansoddiad hwn byddwn yn ailddatblygu a mireinio'r strategaeth ymhellach, yn barod i'w chyhoeddi yn gynnar yn 2023.

Atodiad A: cipolygon demograffig o'r ymatebion i'r ymgynghoriad


9.2 Mae'r wybodaeth ddemograffig isod yn cynnwys data a gafwyd wrth fonitro cyfleoedd cyfartal o ddigwyddiadau a chysylltiadau'r strategaeth arloesi.

Cwestiwn 25: "Pa grŵp rhanddeiliaid ydych chi'n ei gynrychioli yn eich barn chi"




Ffynhonnell: Diagnostig Cychwynnol Ymgynghoriad y Strategaeth Arloesi n=445

Cwestiwn 26: “Â pha rywedd ydych chi’n unieithu eich hun?”




Ffynhonnell: Diagnostig Cychwynnol Ymgynghoriad y Strategaeth
Arloesi n=445

Cwestiwn 27: “Ydych chi’n drawsryweddol neu’n anneuol?”




Ffynhonnell: Diagnostig Cychwynnol Ymgynghoriad y Strategaeth
Arloesi n=445

Cwestiwn 28: “Ydych chi’n feichiog ar hyn o bryd neu wedi bod yn feichiog / wedi cymryd absenoldeb mamolaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?”




Ffynhonnell: Diagnostig Cychwynnol Ymgynghoriad y Strategaeth Arloesi n=445

Cwestiwn 29: “Beth yw eich oedran?”




Ffynhonnell: Diagnostig Cychwynnol Ymgynghoriad y Strategaeth Arloesi n=445

Cwestiwn 30: "Sut fydddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?"




Ffynhonnell: Diagnostig Cychwynnol Ymgynghoriad y Strategaeth Arloesi n=445

Cwestiwn 31: “Beth yw eich ethnigrwydd?”




Ffynhonnell: Diagnostig Cychwynnol Ymgynghoriad y Strategaeth Arloesi n=445

Cwestiwn 32: “Beth yw eich cyfeiriadedd rhywiol?”




Ffynhonnell: Diagnostig Cychwynnol Ymgynghoriad y Strategaeth Arloesi n=445

Cwestiwn 33: “Beth yw eich crefydd neu gred?”




Ffynhonnell: Diagnostig Cychwynnol Ymgynghoriad y Strategaeth
Arloesi n=445

Cwestiwn 38: “Ydych chi'n byw yng Nghymru?”




Ffynhonnell: Diagnostig Cychwynnol Ymgynghoriad y Strategaeth
Arloesi n=445

Cwestiwn 39: "Oes gennych chi fuddiannau busnes yng Nghymru?"



Ffynhonnell: Diagnostig Cychwynnol Ymgynghoriad y Strategaeth
Arloesi n=445

C34: "Ydych chi o'r farn fod gennych anabledd yn ôl y diffiniad cymdeithasol mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio?"



Ffynhonnell: Diagnostig Cychwynnol Ymgynghoriad y Strategaeth
Arloesi n=445

Atodiad B: Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Strategaeth Arloesi i Gymru

C1. Pa grŵp rhanddeiliaid ydych chi'n ei gynrychioli yn eich barn chi:

C2. Beth fydddech chi'n hoffi i'r Strategaeth Arloesi ei gyflawni yn y tymor byr (blwyddyn) o ran: twf economaidd, datblygu sgiliau, tegwch cymdeithasol, hinsawdd a'r amgylchedd, neu eraill

C3. Beth fydddech chi'n hoffi i'r Strategaeth Arloesi ei gyflawni yn y tymor canolig (2-5 mlynedd) o ran: twf economaidd, datblygu sgiliau, tegwch cymdeithasol, hinsawdd a'r amgylchedd, neu eraill

C4. Beth fydddech chi'n hoffi i'r Strategaeth Arloesi ei gyflawni yn y tymor hir (5+ mlynedd) o ran: twf economaidd, datblygu sgiliau, tegwch cymdeithasol, hinsawdd a'r amgylchedd, neu eraill

C5. Gwnaethon ni ddisgrifio rhai amcanion lefel uchel sy'n sail i'n gweledigaeth yn y strategaeth ddrafft. Rydyn ni'n cydnabod na all Cymru fod yn arweinydd arloesi byd-eang ym mhob maes. A oes cenhadaeth neu genadaethau penodol sy'n gysylltiedig â sectorau economaidd neu feysydd canlyniadau cymdeithasol y dylem yn eich barn chi ganolbwyntio gweithgarwch ac adnoddau arnynt?

C6. Pa effaith, gadarnhaol neu negyddol, ydych chi'n credu bydd y Strategaeth Arloesi yn ei chael ar Gymru?

C7. Pa gamau gweithredu newydd sydd angen deillio o'r Strategaeth Arloesi?

C8. Pa agweddau ar y Strategaeth Arloesi dylai aros yr un fath?

C9. Beth yw'r prif heriau a rhwystrau mewn cysylltiad ag arloesi yng Nghymru? Beth sydd angen ei wneud i oresgyn y rhwystrau hyn?

C10. Nod y Strategaeth Arloesi yw gwneud Cymru'n fwy ffyniannus drwy gyflwyno cynhyrchion a gwasanaethau newydd, creu swyddi, gwario yn economi Cymru, a chynhyrchiant. Ecosystem lle mae pawb yn gyfrifol am arloesi.

Ydych chi'n credu bod y Strategaeth Arloesi arfaethedig wedi amlinellu amcanion clir i sicrhau'r canlyniad hwn? Os nad ydych chi, beth sydd ar goll?

C11. b. Pa effaith, gadarnhaol neu negyddol, ydych chi'n credu gall arloesi ei chael ar helpu i wella rhagolygon a llesiant economaidd pobl Cymru?

C12. Nod y Strategaeth yw gwneud Cymru'n fwy cydnerth, gan anelu at wella amgylchedd naturiol ac iach, mabwysiadu egwyddorion yr economi gylchol, a chynyddu ein capasiti a'n gallu wrth addasu i newid.

Ydych chi'n credu bod y Strategaeth Arloesi arfaethedig wedi amlinellu amcanion clir i sicrhau'r canlyniadau hyn? Os nad ydych chi, beth sydd ar goll?

C13. Mae Cymru fwy cyfartal yn un o amcanion y Strategaeth Arloesi. Mae'n cynnig ecosystem arloesi dryloyw sy'n sicrhau cynhwysiant yn yr holl weithgareddau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi, a dosbarthiad tecach o fuddsoddiad lle mae pob rhanbarth yng Nghymru yn elwa ar ragor o weithgarwch arloesi.

a. Ydych chi'n credu bod y Strategaeth Arloesi arfaethedig wedi amlinellu amcanion clir i sicrhau'r canlyniadau hyn? Os nad ydych chi, beth sydd ar goll?

C14. b. Ydych chi'n credu bod gan y strategaeth y potensial i effeithio'n gadarnhaol ar bob rhanbarth yng Nghymru? Os nad ydych chi, pa gamau gweithredu sydd eu hangen?

C15. c. A oes anghydraddoldebau yn y sector Ymchwil, Datblygu ac Arloesi nad yw'r strategaeth ddrafft wedi ymdrin â nhw? Sut gallai'r strategaeth fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn?

C16. d. A oes unrhyw grwpiau a dangynrychiolir nad yw'r strategaeth wedi'u nodi fel grwpiau blaenoriaeth?

C17. e. Yng nghyd-destun agenda codi'r gwastad y DU, sut gallwn ni ystyried amrywiaeth ranbarthol yng Nghymru ymhellach wrth ddatblygu'r strategaeth hon?

C18. Mae'r Strategaeth Arloesi'n bwriadu hyrwyddo Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang drwy brosesau gwneud penderfyniadau sy'n ystyried effaith ein gweithgareddau arloesi ar lesiant byd-eang, yn ogystal â dull cydweithredol o weithio mewn partneriaeth ar lefel ryngwladol i rannu gwybodaeth a sgiliau, ac i gyflawni prosiectau â phwrpas cymdeithasol.

Ydych chi'n credu bod y Strategaeth Arloesi arfaethedig wedi amlinellu amcanion clir i sicrhau'r canlyniadau hyn? Os nad ydych chi, beth sydd ar goll?

C19. Un o nodau'r strategaeth arfaethedig yw creu cymunedau cydlynus a fydd yn sicrhau rhagor o gydweithio traws-sector, gwell cysylltedd mewn cymunedau a thechnolegau digidol yn cael eu mabwysiadu, yn ogystal â chysoni ein gweithgareddau er mwyn cyflawni dros ein cymunedau yng Nghymru.

Ydych chi'n credu y bydd y Strategaeth yn cefnogi'r nod hwn? Os nad ydych chi, sut gallwn ni gyflawni hyn?

C20. Mae'r Strategaeth Arloesi newydd yn bwriadu sicrhau Cymru lachach drwy ecosystem arloesi sy'n fwy cydlynol ac sydd wedi'i halinio'n well, ac sy'n targedu ffyrdd newydd a gwahanol o weithio, yn cefnogi strategaethau ymadfer ar ôl y pandemig ac sy'n galluogi i ni fabwysiadu fwy o arloesedd.

Yn sail i hyn y bydd system Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n cydweithio ar draws diwydiant, y byd academaidd a'r trydydd sector i sicrhau gwell gwerth gofal iechyd drwy ddatblygu, rhannu, caffael a mabwysiadu arferion a thechnoleg arloesol.

Ydych chi'n credu y bydd y strategaeth yn cefnogi'r nod hwn? Os nad ydych chi, pa weithgareddau ychwanegol y mae angen eu cynnwys?

C21. Fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, mae'r Strategaeth Arloesi arfaethedig yn bwriadu sicrhau datblygiadau amlieithog yn ddiodyn.

Ydych chi'n cytuno bod y strategaeth yn amlinellu'r ffyrdd y mae'n gobeithio creu'n llwyddiannus yr amodau cywir i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws yr holl weithgareddau arloesi arfaethedig? Os nad ydych chi, pa weithgareddau ychwanegol dylid eu cynnal?

C22. Un o nodau'r strategaeth yw creu diwylliant o arloesi yng Nghymru, un sy'n cydweithio, yn rhannu risg, yn hybu cyfranogiad ac yn helpu'r ecosystem i arloesi.

a. Beth mae diwylliant o arloesi yn ei olygu i chi? Beth sydd ei angen i ddatblygu diwylliant o arloesi yng Nghymru?

C23. b. Ydych chi'n teimlo bod gennych chi gyfle i gymryd rhan mewn arloesedd? Esboniwch pam eich bod yn teimlo y gallwch chi / na allwch chi gymryd rhan mewn arloesedd?

C24. Ydych chi'n credu y byddai'r Strategaeth Arloesi hon yn cael effaith gadarnhaol arnoch chi? Os nad ydych chi, sut gellid newid hyn?

C25. Law yn llaw â'r strategaeth derfynol, rydym am gyhoeddi cynllun gweithredu fydd yn delio ag adnoddau'r strategaeth a sut y caiff ei rhoi ar waith. Bydd gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ran bwysig i'w chwarae o ran rhoi'r strategaeth ar waith, felly hefyd Llywodraeth Cymru a chyrff a phartneriaid eraill. Nid oes gan Gymru ar hyn o bryd un corff arwain sy'n gyfrifol am drefnu a chynnal ein system arloesi. Sut hoffech chi weld y strategaeth hon yn cael ei rhoi ar waith?

Amdanoch chi

C26. Rhywedd

C27. Ydych chi'n drawsryweddol neu'n anneuol?

C28. Ydych chi'n feichiog ar hyn o bryd neu wedi bod yn feichiog / wedi cymryd absenoldeb mamolaeth yn y flwyddyn ddiwethaf?

C29. Oedran

C30. Sut fydddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?

C31. Beth yw eich ethnigrwydd?

C32. Beth yw eich cyfeiriadedd rhywiol?

C33. Beth yw eich crefydd neu gred?

C34. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod nad yw pobl anabl yn cael eu hanalluogi gan eu hamhariad neu gyflwr iechyd nac wrth ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain ond gan bolisïau, prosesau ac amgylcheddau na fyddai efallai'n hygyrch iddynt. Rydym wedi ymrwymo i weithredu trwy gael gwared ar y rhwystrau hynny.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio anabledd fel:

'Amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.'

I ddibenion monitro amrywiaeth, ydych chi o'r farn fod gennych anabledd yn ôl y diffiniad cymdeithasol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru a/neu y diffiniad yn Neddf Cydraddoldeb 2010?

C35. Byddem yn hoffi clywed eich barn ar yr effeithiau y byddai Strategaeth Arloesi Cymru'n eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau posibl yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau'r effeithiau negyddol?

C36. Hefyd, esboniwch sut rydych yn credu y gallai'r strategaeth arfaethedig gael ei ffurfio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu ragor o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

C37. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, mae croeso i chi ddefnyddio'r lle hwn i'w nodi:

Cyflwynwch eich ymateb

C38. Ydych chi'n byw yng Nghymru?

C39. Oes gennych chi fuddiannau busnes yng Nghymru?

C40. Nodwch ran cyntaf cod post eich cartref, ee CF10

C41. Rydych ar fin cyflwyno eich ymateb. Byddwch cystal â sicrhau eich bod yn fodlon gyda'r atebion rydych chi wedi eu rhoi cyn anfon.

Enw -

Sefydliad (os yn berthnasol)

C42. Os oes arnoch eisiau cael derbynneb o'ch ymateb, rhowch gyfeiriad e-bost.

Cyfeiriad e-bost

C43. Gall fod ymatebion i ymgynghoriadau yn cael eu cyhoeddi. I gadw'ch ymateb yn ddienw (gan gynnwys cyfeiriadau e-bost) ticiwch y blwch.